Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 3ydd Hydref, 2017 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig L. Siencyn | Arweinydd |
| Mair Rowlands | Dirprwy Arweinydd |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant |
| Gareth Wyn Griffith | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| Peredur Jenkins | Aelod Cabinet Cyllid |
| Dafydd Meurig | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| W. Gareth Roberts | Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Addysg |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION CYFARFODYDD A GYNHALWYD AR 5 MEDI A 12 MEDI 2017 | | | 4 - 11 |
| 6 | ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET TAI, DIWYLLIANT A HAMDDEN | Cyng. Craig ab Iago | Iwan Trefor Jones | 12 - 21 |
| 7 | DARPARU CYFLEUTERAU HAMDDEN - SEFYDLU CWMNI WEDI EI REOLI GAN Y CYNGOR<br>Mae’r atodiadau ar wahan ar gyfer aelodau’r Pwyllgor yn unig.<br><br>Mae’r eitemau yn eithredig o dan Paragraffau 14 ac 16 o Atodiad 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 (gwybodaeth yn ymwuneud a materion ariannol, busnes a chyfreithiol).<br><br>Mae’r adroddiad blaen yn agored ond mae’r atodiadau yn cynnwys gwybodaeth masnachol a chyfreithiol sensitif. Hynny oherwydd y byddai rhyddhau yr atodiadau yn llawn yn caniatáu i gyflenwyr annibynnol o’r Cyngor ddod i gasgliadau ynglyn â pherfformiad ariannol ynghyd â ffioedd rheoli y gwahanol fodelau darparu. Yn sgil hynny, gall rhyddhau danseilio unrhyw drefniadau caffael i’r dyfodol fyddai’n gadael y Cyngor yn agored i risg ariannol o safbwynt rheoliadau caffael .Mae hefyd yn cynnwys cyngor cyfreithiol fyddai yn ddarostyngedig i fraint cyfreithiol. | Cyng. Craig ab Iago | Sioned Williams | 22 - 38 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 8 | BWLETIN PERFFORMIAD AWDURDOD LLEOL 2016/17 | Cyng. Dyfrig Siencyn | Dewi Wyn Jones | 39 - 66 |
| 9 | CYNLLUN BUSNES PROSIECTAU HUNAN-WASANAETH | Cyng. Mair Rowlands | Geraint Owen | 67 - 143 |
| 10 | GWIREDDU'R CYNLLUN CLWB BRECWAST | Cyng. Gareth Thomas | Owen Owens | 144 - 158 |
| 11 | ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET ADDYSG | Cyng. Gareth Thomas | Iwan Trefor Jones | 159 - 166 |
| 12 | CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD | | | 167 |
| 13 | TIR YN LLANRUG | Cyng / Cllr Gareth Thomas | Diane Jones | |

**Y CABINET DYDD MAWRTH, 5 MEDI 2017**

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Mair Rowlands, Gareth Griffith, Peredur Jenkins, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, Gareth Thomas, Ioan Thomas

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Refeniw a Risg), Rhun ab Gareth (Uwch Gyfreithiwr), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol)

Eitem 6: Dafydd Wyn Williams (Pennaeth Adran Amgylchedd)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Cyng. Craig ab Iago a Cyng. W Gareth Roberts

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 4. MATERION YN CODI O DROS OLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION O GYFARFOD A GYNHALWYD AR 18 GORFFENNAF

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar y 18 Gorffennaf 2017, fel rhai cywir.

## 6. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET AMGYLCHEDD

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Dafydd Meurig

**PENDERFYNWYD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y ffigyrau sydd wedi ei nodi yn yr adroddiad wedi dyddio gan fod y cyfarfodydd perfformiad wedi eu cynnal yn ystod mis Gorffennaf. Nodwyd ei fod yn croesawu aelodau'r Pwyllgor Craffu yn rhan o'r cyfarfod perfformiad. Mynegwyd fod graffiau yn cael eu defnyddio am y tro cyntaf i adrodd ar nifer o'r mesurau er mwyn sicrhau fod gwybodaeth yn cael ei gyflwyno mewn ffordd dealladwy a gweledol. Edrychwyd ar un o fesurau'r Uned Eiddo Corfforaethol a nodwyd fod cyfradd dyddiau a gymer i ymateb i gais am waith cynnal a chadw yn parhau o amgylch 9 diwrnod, ond fod newid yn y dull cyfrif wedi bod ddechrau'r flwyddyn ac felly bydd angen cadw golwg ar hyn.

Pan yn edrych ar gwynion yr adran nodwyd fod cynnydd wedi bod yn nifer y cwynion, pwysleisiwyd fod y camau priodol wedi cael ei wneud i ddelio â'r cwynion. Yn ychwanegol nodwyd fod y ffigyrau yn cynnwys ymholiadau yn ogystal ac o hyn ymlaen mai dim ond cwynion fydd yn cael eu cyfri.

Pwysleisiwyd fod C9 – Cyrraedd cam allweddol yn y broses o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol bellach yn cael ei dynnu oddi ar y mesurau perfformiad gan fod y Cynllun wedi cael ei dderbyn gan y Cyngor Llawn yn ystod mis Gorffennaf.

Nodwyd ei fod yn hapus â'r perfformiad a bydd yn cadw golwg ar agweddau penodol yn ystod y chwarter nesaf.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Nodwyd y bydd y Cynllun Datblygu Lleol yn creu Cynlluniau Atodol, a bod y Cynllun Iaith yn brif flaenoriaeth. Bydd drafft o'r Cynllun Iaith erbyn diwedd mis Hydref, ac yna bydd cyfnod ymgynghori.
- Mewn ymateb i ymholiad ynglyn a thargedau'r Uned Eiddo, pwysleiswyd mai anelu at berffeithrwydd y dylai adrannau'r Cyngor ei wneud ac nid anelu at dargedau rhifyddol artiffisial. Nodwyd fod hyn ac adrodd ar sail graffiau yn rhan amlwg o'r hyfforddiant datblygu sy'n cael ei gynnig i reolwyr ar hyn o bryd. Bydd Aelodau Cabinet yn cael gwahoddiad i'r sesiynau hyfforddiant i gael gwell dealltwriaeth o beth sy'n cael ei drafod.

## 7. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET DATBLYGU'R ECONOMI

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Ioan Thomas

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad a diolchwyd i Mandy Williams-Davies am ei gwaith yn y maes yn ystod ei chyfnod yn gynghorydd.

Nodwyd fod gwaith yn mynd rhagddo wrth edrych ar brosiect Swyddi Gwerth Uchel ac o Ansawdd. Mae'r Llywodraeth yn gefnogol o'r cais am Ganolfan Awyrofod Llanbedr. Nodwyd yn ogystal fod Gwynedd Ddigidol yn parhau i gydweithio â Llywodraeth Cymru a BT i gyflawni prosiect Cyflymu Cymru, ond pwysleisiwyd fod 82% o gartrefi a busnesau yn gallu derbyn band eang cyflym yn y Sir ond dim ond 42% sy'n tanysgrifio.

Trafodwyd y bydd y prosiect Safle Treftadaeth y Byd yn canolbwyntio ar Safleoedd Treftadaeth y Byd presennol Cestyll Edward I yn Harlech a Caernarfon yn ogystal â statws safle Treftadaeth y Byd i dreftadaeth y diwydiant llechi. Mae'r prosiect yn symud yn ei flaen ac mae'r ymateb wedi bod yn gadarnhaol ar y cyfan ond mae angen gwneud mwy o waith.

Pwysleisiwyd ei fod yn newydd i'r rôl a bod gwaith angen ei wneud ar y mesurau gan nad yw'r ffigyrau yn cyfleu'r perfformiad.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Nodwyd fod angen i'r adran ddatblygu mesurau i'r dyfodol gan eu bod i weld tu ôl i adrannau eraill. Nodwyd fod rhai mesurau newydd ond nad yw'n mesur yr

effaith neu ansawdd y gwaith. Nodwyd bwriad yr aelod cabinet erbyn tro nesaf y bydd mesurau newydd yn eu lle a newid mewn ffordd mae'r adroddiad yn cael ei gyfleu.

–

## 8. ADRODDIAD PERFFOMIAD Y DIRPRWY ARWEINYDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Mair Rowlands

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

O hyn allan, bod yr Aelodau Cabinet perthnasol yn herio cynnydd gwaith yr Awdit Iaith yn yr Adran Ymgynghoriaeth Gwynedd ac Adran Economi a Chymuned (Hamdden) wrth herio perfformiad yr adrannau hynny.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad a nodwyd fod y maes Cefnogaeth Gorfforaethol yn faes eang ac yn newydd i'r Aelod Cabinet.

Nodwyd fod hyrwyddo'r Gymraeg yn parhau o fewn cymunedau ym Mangor, Dolgellau a Porthmadog / Pwllheli drwy brosiect Hunaniaith. Mynegwyd fod y prosiect y Gymraeg a'r gwasanaethau cyhoeddus yn symud yn araf. Mae gwaith yn cael ei wneud i weithio gyda Phrifysgol Bangor i lunio pecyn hyfforddi a datblygu i staff i annog defnydd o'r iaith wrth ymdrin â chwsmeriaid.

Mynegwyd fod awdit o sefyllfa'r Gymraeg o fewn y Cyngor wedi bod yn canolbwyntio ar ddwy adran sef Ymgynghoriaeth Gwynedd ac Economi a Chymuned a nodwyd fod gwaith wedi cael ei wneud i newid agwedd a rhoi mwy o ystyriaeth i'r iaith. Pwysleisiwyd fod y cynnydd wedi bod yn araf yn yr Uned Hamdden ond fod gwaith yn mynd rhagddi.

Nodwyd fod gwaith yn mynd rhagddo yn yr uned Ymgysylltu er mwyn recriwtio pobl ifanc o fod yn aelodau ar-lein o Banel Pobl Ifanc Gwynedd a bellach mae 300 o aelodau. Bydd y panel yn mynd ati i ymchwilio i'r dulliau a thechnegau mwyaf effeithiol i ymgysylltu a phlant a phobl ifanc.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Holwyd os yw'r Canran o waith Caffael y Cyngor sy'n mynd i gwmnïau sydd â phencadlys neu gangen yng Ngwynedd yn codi - pam fod gwariant lleol drwy is-gontractau yn lleihau. Mynegwyd fod hyn oherwydd lleihad yn y cynlluniau cyfalaf ac i sicrhau hyn fod hyn yn glir yn y dyfodol bydd dau fesur ar wahân i wariant refeniw a gwariant cyfalaf.
- Nodwyd gyda phrosiect Hunaniaith fod llawer o ffigyrau ond dim sôn am beth yw'r effaith - holwyd os oes modd ei fesur. Nodwyd fod ffordd benodol o adrodd yn ôl i'r Llywodraeth ar y prosiect a'i bod yn anodd, fel llawer o feysydd, i fesur yr effaith yn y tymor byr. Nodwyd fod prosiectau angen hyblygrwydd ac angen addasu prosiect fel Hunaniaith wrth edrych ar Wynedd yn benodol.
- Nodwyd eu bod yn anodd mesur bodlonrwydd cwsmer ac mae angen edrych i weld os oes ffyrdd gwell o gasglu'r wybodaeth.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h.  a daeth i ben am 2.00y.h

**CADEIRYDD**

# Y CABINET DYDD MAWRTH, 12 MEDI 2017

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Mair Rowlands, Craig ab Iago, Gareth Griffith, Peredur Jenkins, Dafydd Meurig, Dilwyn Morgan, W. Gareth Roberts, Gareth Thomas, Ioan Thomas

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Rhun ab Gareth (Uwch Gyfreithiwr), Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwr Corfforaethol), Morwena Edwards (Cyfarwyddwr Corfforaethol)

Eitem 5: Catherine Roberts (Rheolwr Diogelwch Cymunedol)
Eitem 7: Llinos Edwards (Uwch Swyddog Gweithredol)
Eitem 8: Gwyn Morris Jones (Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Ni dderbyniwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

## 4. MATERION YN CODI O DROS OLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. DEDDF YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL, TROSEDDU A PHLISMONA 2014: DIWYGIO PWERAU YMDDYGIAD GWRTHGYMDEITHASOL – GOFYNION YNGHYLCH GORCHMYNION MANNAU CYHOEDDUS DYNOEDEDIG PRESENOL

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Mair Rowlands

**PENDERFYNWYD**

Derbyn yr adroddiad chytunwyd a'r argymhellion canlynol:

- Gadael i'r Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus newid i fod yn Gorchymyn Mannau Cyhoeddus Dynodedig ar 19 Hydref 2017
- I adolygu'r gorchmynion, gan ystyried yr agweddau a nodwyd ym mhwynt 3.02 yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr arddodiad gan nodi mai newid yn y ddeddfwriaeth, sydd yn effeithio ar y gorchmynion penodol sydd yn eu lle ar hyn o bryd, yw'r rheswm tu ôl i'r argymhelliad o newid y

gorchmynion. Pwysleisiwyd fod ymgynghoriad a'r adran Gyfreithiol a'r Heddlu yn sail i'r argymhelliad i newid gorchmynion i fod yn Orchymyn Mannau Cyhoeddus Dynodedig, ond byddant yn cael eu hadolygu'n unigol.

Nodwyd fod y pwerau Gorchmynion Mannau Cyhoeddus Dynodedig yn galluogi awdurdod i ddyrannu mannau ble mae cyfyngiadau ar yfed yn gyhoeddus yn gyfredol, a bu i'r heddlu gyflwyno tystiolaeth i gefnogi'r 7 gorchymyn sydd yng Ngwynedd ar hyn o bryd. Mynegwyd fod rhai o'r gorchmynion presennol yn rhai hanesyddol a bod y sefyllfa wedi newid bellach. Bydd y gorchmynion newydd yn taclo llawer mwy nac alcohol yn unig, bydd yn taclo pobl sydd yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol yn ogystal.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Gofynnwyd os y bydd unrhyw gostau ychwanegol o ganlyniad i'r newid mewn gorchymyn – nodwyd y bydd ychydig o gostau gydag arwyddion ond wedi gofyn i'r heddlu am gymorth gyda hyn.

## 6. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET CYLLID

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Peredur Jenkins

**PENDERFYNWYD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad a nodwyd ei fod yn gyfforddus a'r perfformiad y prosiectau a bod camau priodol wedi ei gymryd er mwyn gwella'r perfformiad.

Mynegwyd fod Sianel Ddigidol a Hwyluso Cysylltu gyda'r Cyngor yn parhau i fod yn flaenoriaeth, a bydd y sianel yn cael ei ail-lansio yn yr Hydref. Nodwyd fod offer cyfrifiadurol newydd wedi ei gyflwyno ym mis Mai i aelodau, a bod rhywfaint o broblemau wedi codi wrth eu cyflwyno. Yn dilyn trafodaeth gydag aelodau bydd mwy o hyfforddiant yn cael ei gynnig er mwyn gwneud y mwyaf o'r offer.

Mynegwyd fod canran archwiliadau yn y Cynllun Archwilio sydd un ai wedi eu cau neu sydd ag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau wedi ei leihau i 3.33% ar gyfer chwarter cyntaf o'i gymharu â 17.5% yn yr un cyfnod y llynedd. Nodwyd fod hyn o ganlyniad i broblemau staffio a olygwyd diffyg o ddau archwiliwr llawn amser yn ystod y cyfnod. Ymhellach i broblemau systemau cyfrifiadurol y Cyngor am ddiwrnod ym mis Mehefin, nodwyd byddai addasiad i fesur er mwyn cofnodi hyn yn well.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Holwyd wrth edrych ar fesurau hawliau yswiriant os yw canran yn ffordd gywir o'i fesur perfformiad, a pe bai ffigwr penodol yn fwy cywir. Eglurwyd ei fod yn faes anodd i fesur perfformiad cyfredol, gan allasai hawliadau cyfredol fod am ddigwyddiadau blynyddoedd yn ôl. Nodwyd hefyd fod yr adran wedi treialu amrywiol ffyrdd o fesur hyn ond nodwyd y byddem yn edrych arno eto yn y cyfarfod herio perfformiad nesaf.
- Mynegwyd fod y ffigwr yn gyson wrth edrych ar Ddiogelwch arian y Cyngor wrth adnau arian mewn banciau. Nodwyd fod hynny yn adlewyrchu'r flaenoriaeth i gadw arian yn saff, a'i bod yn anodd dod o hyd i lefydd sy'n talu llog rhesymol.

## 7. ADRODDIAD PERFFORMIAD AELOD CABINET AR GYFER PLANT A CEFNOGI TEULUOEDD

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Dilwyn Morgan

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad, gan nodi y dylid cael adroddiad penodol i'r Cabinet i adrodd ar gynigion y Rhaglen Ymyrraeth Gynnar / Ataliol ar gyfer grwpiau o blant a phobl ifanc bregus Gwynedd yn hytrach na'i gynnwys fel rhan o'r adroddiad perfformiad nesaf.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan bwysleisio ei bod yn bleser cyflwyno adroddiad perfformiad cyntaf fel aelod Cabinet. Mynegwyd mai'r prif bryder yw'r tuedd sy'n parhau o ran cynnydd mewn nifer y plant mewn gofal. Nodwyd fod gwaith yn cael ei wneud gan ymgynghorydd annibynnol i werthuso'r rhaglen gyfredol ar gyfer Ymyrraeth Gynnar / Atalion ar gyfer grwpiau o blant a phobl ifanc bregus Gwynedd. Bydd yn adnabod modelau o ymarfer da.

Wrth edrych ar Fesur Perfformiad nodwyd fod llawer o'r mesuriadau yn rhai statudol wedi ei gosod gan y Llywodraeth, ac mae'r rhain yn cael eu newid ac addasu yn aml. Nodwyd y bydd strategaeth newydd yn ystod y misoedd nesaf a bydd angen edrych ar bwrpas mesurau er mwyn bod yn fwy cyson a chynorthwyo'r adran i ddatblygu. Nodwyd ei bod yn amser heriol ond cyffroes i ddatblygu'r maes. Pwysleisiwyd fod y strategaeth yn ymgorffori ffordd wahanol o weithio a gweithio'n drawsadrannol.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

– Eglurwyd fod cynnydd mewn gwariant o ganlyniad i gynnydd mewn nifer y plant mewn gofal, a bod gorwariant un-tro eleni er gwaethaf darpariaeth cyllideb ychwanegol. Nodwyd bod disgwyliad i'r Adran gymryd camau priodol er mwyn rheoli'r gwariant yn y tymor canol.
 Mynegwyd er bod diogelu plant yn sylfaen gadarn gan yr Adran mae angen sicrhau fod cefnogi teuluoedd hefyd yn cael sylw haeddiannol, a dyma'r gwaith mae'r Pennaeth yn ei wneud gyda'i thîm ar hyn o bryd.
– Wedi cael grantiau dros y blynyddoedd i Gefnogi Teuluoedd, mae yna berygl i ni gael ein gyrru ac arwain gan y grant. Ond beth mae'r ymgynghoriad annibynnol wedi ei danlinellu yw bod angen gwneud y pethau iawn i bobl Gwynedd ac angen mwy o hyblygrwydd gan Lywodraeth Cymru. Mynegwyd fod angen trafodaeth bellach ar yr ymgynghoriaeth annibynnol, a bydd angen ei gyflwyno mewn adroddiad penodol i'r Cabinet.

## 8. ADRODDIAD PERFFOMIAD YR AELOD CABINET PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL AC YMGYNGHORIAETH

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Gareth Griffith

**PENDERFYNIAD**

Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad a nodwyd fod yr Aelod Cabinet yn fodlon a'r mesurau. Wrth edrych ar yr adran Priffyrdd a Bwrdeistrefol nodwyd fod gostyngiad yng nghanrannau lefelau ailgylchu/ compostion masnachol, pwysleisiwyd fod grŵp tasg wedi ei sefydlu sy'n edrych ar brosesau i'w wneud yn fwy deniadol yn ariannol. Mynegwyd fod 1.086 miliwn o gasgliadau gwastraff wedi ei gwneud yn ystod y cyfnod a bod canran y cwynion nad oedd gwastraff wedi ei gasglu yn 0.22%.

Mynegwyd wrth edrych ar yr adran Ymgynghoriaeth mai elw yn erbyn targed yw prif fesur yr adran. Nodwyd fod y sefyllfa yn gymharol gadarnhaol ar gyfer cyfnod Ebrill i Fehefin. Pwysleisiwyd fod arolwg bodlonrwydd cwsmer am wasanaeth thollaeth adeiladu wedi codi 0.1 yn ystod y chwarter i fod yn 9.4 allan o 10

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Gofynnwyd pam fod niferoedd gwastraff i'w ailgylchu wedi disgyn a niferoedd gwastraff i'w dir lenwi wedi codi - mynegwyd ei fod y misoedd Ebrill i Fehefin yn hanesyddol yn debyg. Pwysleisiwyd unwaith y bydd Parc Adfer Glannau Dyfrdwy, sydd yn gynllun 5 sir ar draws y Gogledd, a fydd yn llosgi gwastraff yn agor yn 2019 bydd gostyngiad yn y gwastraff i'w dirlenwi yn lleihau i 0% o 35.1%.
- Nodwyd mai un o'r prif faterion sy'n poeni pobl Gwynedd yw'r ysbwriel ar ôl casglu ailgylchu - nodwyd fod yr adran wedi newid cerbydau erbyn hyn ac y dylai wella'r sefyllfa, yn ychwanegol at hyn mae camau disgyblu os yn casglu ac yn gadael unrhyw ysbwriel.
- Holwyd gyda'r adran ymgynghoriaeth beth oedd y rhagolygon i ddenu gwaith - mynegwyd fod yr adran yn gweithio yn galed i ddenu cynlluniau gwaith. Nodwyd fod yr adran yn adran unigryw i lywodraeth leol a'i fod yn cyfrannu at gost gwasanaethau ac yn creu swyddi gwerth uchel ac o ansawdd.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.15y.h

**CADEIRYDD**

# CYNGOR GWYNEDD

**ADRODDIAD I GYFARFOD CABINET CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 3 Hydref, 2017 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Craig ab Iago,<br>Aelod Cabinet Tai, Diwylliant & Hamdden |
| **Swyddog Cyswllt:** | Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679685 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Tai, Diwylliant a Hamdden |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw eich diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Tai, Diwylliant a Hamdden. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yn y Cynllun Strategol; lle mae'r mesurau perfformiad arni; a'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau.

1.2. Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r tîm rheoli Economi a Chymuned ac Oedolion, Llesiant a Thai, oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r pwyllgor craffu.

1.3. Gan fy mod yn aelod newydd i'r Cabinet, dros y misoedd diwethaf, rwyf wedi bod yn ymgyfarwyddo fy hun gyda gwaith gwasanaethau Tai, Hamdden, Ieuenctid, Llyfrgelloedd, Amgueddfeydd a'r Celfyddydau a Llyfrgelloedd a Gwybodaeth. Mae wedi bod yn gyfnod prysur o ddod i adnabod y staff, prosiectau a'r mesurau. Edrychaf ymlaen at gael cydweithio'n agos gyda'r gwasanaethau hyn yn ystod y blynyddoedd nesaf.

1.4. Mae nifer o'r gwasanaethau yma yn mynd trwy gyfnod o newid ac ail-fodelu, ac rwyf wedi amlygu rhai o'r risgiau sy'n codi yn fy adroddiad. Rwy'n hapus efo'r perfformiad yn gyffredinol, ac yn awyddus i weld ni'n parhau i lwyddo er gwaetha'r holl heriau fydd yr adrannau yn wynebu yn y dyfodol agos. Blaenoriaeth gennyf yn y cyfnod nesa fydd i sicrhau cydweithio trawsadrannol er mwyn taclo tlodi ac amddifadedd yn benodol.



**Cyswllt:**
01286 679729 • 01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

## 2. PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

## 3. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

## 4. PROSIECTAU'R CYNLLUN STRATEGOL

### 4.1. E3 Cydymdrechu yn erbyn tlodi

4.1.1 Pwrpas y prosiect yma fydd gweithredu rhaglen o gynlluniau i leihau'r effaith tlodi yng Ngwynedd ar y cyd gyda phartneriaid. Erbyn diwedd y prosiect, bydd unigolion yn cael mynediad at y cyngor a'r cymorth sydd ei angen er mwyn ymateb i heriau eu hamgylchiadau unigol.

4.1.2 Credaf fod sgôp i'r prosiect yma wneud gwahaniaeth mawr i fywydau unigolion yn y Sir, yn enwedig yn wyneb yr holl newidiadau sy'n cymryd lle yn y maes lles a budd-daliadau. Gyda'r newid i'r Credyd Cynhwysol yn digwydd erbyn Ebrill 2018, rwyf yn awyddus i weithio gyda'r adran i weld beth allwn ei gyflawni wrth adnabod yr unigolion/cartrefi hynny sy'n cael eu heffeithio gan hyn. Mae oddeutu 300+ o aelwydydd yma yng Ngwynedd yn debygol o gael eu heffeithio, ond mae yna her o ran yr adnoddau i dargedu'r aelwydydd hynny i gyd.

4.1.3 Credaf fod sgôp yma i ni gydweithio yn well gydag asiantaethau allanol eraill megis y Ganolfan Byd Gwaith er mwyn targedu'r aelwydydd a chynnig pecyn holistaidd iddynt. Er bod peth gwaith wedi ei wneud yn fewnol gyda staff rheng flaen megis gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr lles addysg, tîm gyda'n gilydd, sydd mewn cysylltiad â'r aelwydydd, mae angen cydlynu'r gefnogaeth yn fwy effeithiol ar y cyd gydag asiantaethau allanol eraill yn ogystal. Wrth ystyried yr uchod, gwelaf fod yna botensial yma i ni, ar y cyd ag eraill, wneud gwir wahaniaeth i'r aelwydydd yma, gan dargedu a chydlynu yn llawer mwy effeithiol nag sydd wedi bod yn digwydd yn y gorffennol.

4.1.4 Ers mis Ebrill, mae'r prosiect yma wedi bod yn canolbwyntio ar gynnal digwyddiadau Call efo'r Geiniog ar draws y Sir. Mae'r digwyddiadau yma yn fodd i drigolion Gwynedd gael gwneud y gorau o'u harian a chael gwybodaeth bellach am unrhyw fudd-dal/grant sydd ar gael iddynt. Mae'r sesiynau wedi bod yn llwyddiannus gyda 67 o bobl yn mynychu. Fel enghraifft o'r math o wybodaeth a rennir yn y sesiynau, llwyddodd Dwr Cymru i leihau biliau dwr 8 cwsmer yn ystod un sesiwn, gyda'r amcan o arbediad o £250 i bob cwsmer.

4.1.5 Fel rwyf wedi'i nodi yn 4.1.2, mae sesiynau wedi eu trefnu ar gyfer staff rheng flaen yn ogystal, i roi mwy o wybodaeth am y Credyd Cynhwysol a'r newidiadau sy'n dod yn sgil hynny. Mae'r staff sy'n mynychu yn cynnwys gweithwyr gofal, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr lles adran addysg a'r tîm gyda'n gilydd.

4.1.6 Mae gan yr Adran Addysg, Plant a Theuluoedd, Tai, Cyllid ac Economi rol flaenllaw i chwarae yn symud yr agenda yma yn ei flaen, ac mae'n flaenoriaeth gennyf i sicrhau bod cydweithio yn digwydd er mwyn taclo tlodi ac amddifadedd yn y sir.

## 4.2. E4 Strategaeth Cyflenwad Tai

4.2.1 Pwrpas y prosiect hwn yw gweithredu ein strategaeth i gynyddu'r cyflenwad ac amrywiaeth o dai er mwyn sicrhau fod ein cyflenwad o dai yn addas ar gyfer anghenion pobl Gwynedd. Bydd y prosiect yn arwain at ddatrysiadau gwahanol mewn gwahanol ardaloedd.

4.2.2 **Sefydlu Tai Fforddiadwy i drigolion Gwynedd mewn ardaloedd gwledig** - Mae Cais Cynllunio ar gyfer safle ym Mhenygroes yn cael ei gyflwyno mis Medi gyda chynllun ymgynghori lleol ar y cais ar gychwyn. Mae cynllun Penygroes yn cynnwys elfen tai fforddiadwy a thai cymdeithasol. Mae cytundeb mewn lle gyda Grŵp Cynefin i symud ymlaen gyda'r cynllun yma ond mae angen trafodaethau cyfreithiol ac ariannol pellach er mwyn sicrhau'r elfen fforddiadwy i'r cynllun.

4.2.3 **Tai gwag yn ôl i ddefnydd** - Mae'r fenter tai gwag yn parhau, gyda nifer o brosiectau newydd ar y gweill, er mwyn ymdrechu i gynyddu'r nifer o dai a ddaw 'nôl i ddefnydd ar gyfer y digartref ar rai sydd ar restrau aros y Cyngor. Mae gobaith hefyd y daw budd o'r system dreth cyngor arfaethedig, ac y bydd modd ailgylchu'r arian ychwanegol at gynyddu niferoedd tai gwag a ddaw 'nôl i ddefnydd.

4.2.4 **Darpariaeth ar gyfer pobl di gartref** – Mae'r pwyslais ar atal digartrefedd yn parhau ac mae hyn yn cael effaith positif. Fodd bynnag mae her yn parhau o ganfod eiddo ar gyfer rhai grwpiau penodol, pobl sengl digartref yn un o'r rhain. Rhaid nodi hefyd bod y cyfrifoldebau newydd o fewn y Ddeddf yn rhoi baich ychwanegol ar amser staff gan fod rhaid cadw cofnodion manwl o'r broses asesu cymhwyster i dderbyn gwasanaeth. Mae her ychwanegol yn deillio o newid sylweddol yn y budd-daliadau fydd yn cael effaith fawr ar bobl sengl dan 35 gyda'r peryglon y bydd y budd-dal a dderbynnir yn llai na rhent preifat a chymdeithasol gan olygu bod rhaid canfod y gwaged fydd yn rhoi pwysau o ran cynaliadwyedd tenantiaethau.

4.2.5 Mae'r adran wedi edrych ar y potensial o foderneiddio darpariaeth hosteli digartrefedd a chynyddu cyflenwad o eiddo dros dro ond fel yr ydych yn ymwybodol nid yw'r cynllun yma wedi gallu symud yn ei flaen oherwydd yr angen am fuddsoddiad ariannol ychwanegol. Rwyf yn ymwybodol bod yr adran yn ymchwilio i'r posibilrwydd o gyflwyno cais am grant ariannol Llywodraeth Cymru ar y cyd gyda Gisda a'r cymdeithasau tai lleol er mwyn ceisio adnabod modelau dulliau a modelau amgen o ran darparu tai yn y Sir. Gall olygu datblygu unedau wedi datblygu oddi ar safle. Edrychaf ymlaen ar gael eich diweddaru ar y datblygiad yma.

4.2.6 **Darpariaeth i bobl hyn sy'n hybu annibyniaeth** - Fel sydd wedi ei adrodd yn flaenorol, mae cyfarfod wedi ei gynnal gyda Gwasanaeth Comisiynu a Chymdeithasau Tai er mwyn ddadansoddi data o ran yr ardaloedd sydd wedi eu hadnabod i'w blaenoriaethu ac i weld pa fylchau sydd yn bodoli. Mae'r astudiaeth bellach wedi ei gwblhau gan yr uned sy'n nodi 5 cymuned lle mae angen darpariaeth i bobl hyn. Serch hynny, mae'r uned yn adrodd nad yw'r adnodd oedd wedi clustnodi ar gyfer Gofal Ychwanegol yn bodoli ac y bydd yn rhaid adnabod adnodd arall i yrru'r rhaglen waith hon yn ei flaen fel y bwriadwyd.

## 5. MESUR PERFFORMIAD

5.1. Mae ***Atodiad 1*** yn adrodd ar fesurau perfformiad sy'n gysylltiedig â fy mhortffolio. Rwyf eisoes wedi cyfeirio at rai o'r mesurau wrth drafod y prosiectau uchod.

5.2. O ran Adran Economi a Chymuned, mae fy mhortffolio yn cynnwys Gwasanaeth Hamdden, Ieuenctid, Adfywio Cymunedol, Amgueddfeydd a'r Celfyddydau, Archifau a Llyfrgelloedd a Gwybodaeth.

5.3. Mae nifer o'r gwasanaethau yma wedi, neu yn mynd trwy gyfnodau o newid ac ail-fodelu. Mae pwrpas pob gwasanaeth bellach wedi'i gytuno, ac mae mesurau wedi eu penderfynu. Rwyf am fynd trwy'r mesurau fesul gwasanaeth.

5.4. Mae'r **Gwasanaeth Hamdden** yn darparu rhaglenni Byw yn Iach a Chwaraeon sy'n darparu ystod o weithgareddau corfforol cynhwysol a chyfleusterau Canolfannau Byw yn Iach yn y Sir. Mae'r gwasanaeth wedi addasu a mireinio eu mesurau ers mis Ebrill er mwyn dal y wybodaeth sydd bwysicaf i bobl Gwynedd ac egluro'n glir beth yw cyfeiriad y gwaith.

5.5. Rwyf yn fodlon gyda pherfformiad y gwasanaeth, gyda'r ffigyrau ar gyfer nifer o'r mesurau yn dangos cynnydd da ers mis Ebrill 2017 ac o'i gymharu â'r blynyddoedd cynt. Rwyf eisiau tynnu sylw at ***% y plant sy'n 11 oed ac wedi cyrraedd safon nofio'r Cwricwlwm Cenedlaethol.*** Mae'r ffigwr ar gyfer Gorffennaf yn dangos bod 84% o bobl ifanc wedi llwyddo i gyrraedd y safon. Mae hwn yn gynnydd ers y llynedd gan fod y gwasanaeth wedi gwneud gwaith targedu gyda'r ysgolion hynny lle nad oedd canran uchel o'u plant yn pasio. Mae'r gwasanaeth hefyd yn datblygu Cynllun Datblygu Nofio a fydd yn rhoi cyfeiriad a rhaglen waith clir ar gyfer datblygu nofio ymhellach yn y Sir. Er hynny, mae'n anodd darbwyllo rhai ysgolion i ddod am wersi nofio oherwydd yr amser a'r gost. Mae hyn yn rhywbeth rwyf yn awyddus i'r gwasanaeth i ystyried ymhellach, ar y cyd gyda'r Adran Addysg.

5.6. Mae'r gwasanaeth hefyd yn gyfrifol am weithredu rhaglenni Cyfeirio i Ymarfer a Dementia Go. Mae'r adran wedi llunio mesurau sy'n asesu'r sgôr ansawdd bywyd pobl sy'n cymryd rhan y rhaglenni yma (**HAM3 a HAM4 - Atodiad 1**). Mae'r ddau fesur yn dangos canlyniad cryf ers mis Ebrill o'i gymharu â llynedd. Gan bod gwaith ataliol da yn digwydd gyda'r Tim Dementia GO a'r Tim Cyfeirio i Ymarfer, rwyf o'r farn bod angen i'r gwasanaeth wneud gwaith pellach ar ddal yr effaith hwnnw. Nid oes amheuaeth bod gwaith rhaglenni o'r fath yn arbed arian yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn y tymor hir, ac am i'r gwasanaeth fapio'r elfennau osgoi cost i'r rhaglenni hyn.

5.7. Pwrpas y **Gwasanaeth Llyfrgelloedd a Gwybodaeth** yw sicrhau mynediad trigolion Gwynedd at gefnogaeth, adnoddau a gwybodaeth sy'n rhoi'r cyfle iddynt ddysgu ac ennill sgiliau, darllen a mwynhau. Mae'r gwasanaeth wedi bod trwy gyfnod o newid ond wedi cyrraedd cyfnod eithaf sefydlog erbyn hyn. Mae modelau gwahanol gyda llyfrgelloedd cymunedol yn parhau i gael eu datblygu, ond rwyf yn awyddus i'r gwasanaeth ystyried pa fodel cymunedol yw'r gorau, a hefyd ystyried hyfywdra cynnal model gwirfoddolwyr yng nghefn gwlad.

5.8. Mae perfformiad mesurau'r gwasanaeth yn eithaf sefydlog hyd yma. Roedd ffigwr ar gyfer **nifer yr ymweliadau a llyfrgelloedd yn ystod y flwyddyn** yn is ar gyfer 2016-17 (3,908) o'i gymharu â'r flwyddyn cynt, ond mae rhesymau am hyn megis cwtogi oriau agor rhai llyfrgelloedd. Nid wyf yn poeni yn ormodol am hyn

gan bod y ffigwr i weld ar gynnydd eleni, gyda'r nifer o ymweliadau yn 2,260 hyd at Gorffennaf 2017.

5.9. Mae'r **Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau** yn rhedeg dwy amgueddfa yng Ngwynedd ac yn gyfrifol am edrych ar gasgliadau a chreu arddangosfeydd yn y ddwy, sef: Storiel ac Amgueddfa Lloyd George. Mae llawer o waith y maes yn targedu prosiectau iechyd, lles, addysg a thaclo unigrwydd. Mae'r gwasanaeth yn gweithio ar ddatblygu cais am grant Cydnerth er mwyn arbrofi gyda ffrydiau incwm a chynllun gwirfoddoli ar gyfer Amgueddfa Lloyd George.
Ers mis Ebrill, mae **96% o gwsmeriaid wedi nodi eu bod yn fodlon gyda'r gwasanaeth ar ddarperir.**

5.10. Pwrpas y **Gwasanaeth Ieuenctid** yw sicrhau mynediad at ystod o brofiadau dysgu anffurfiol i bobl ifanc (11-25 oed) sy'n rhoi'r cyfleoedd iddynt ennill sgiliau, mentro, mwynhau a chwarae rhan lawn yn eu cymunedau. Mae'r gwasanaeth yn mynd trwy gyfnod o newid, ac wedi bod yn ymgysylltu ar fodel darparu newydd i'r Sir. Byddaf yn cyflwyno adroddiad penodol ar hyn i chi yn y misoedd nesaf. Ar nodyn positif, mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i sicrhau bod **4051 o bobl ifanc yn derbyn achrediadau trwy'r gwasanaeth yn ystod y flwyddyn**. Mae hyn yn cymharu'n ffafriol gyda ffigyrau gyda ffigyrau blynyddoedd blaenorol (2015/16 - 2807, 2014/15 - 2049). Bydd y mesuryddion sy'n cael eu casglu gan y gwasanaeth yn newid yn sgil yr ail-fodelu.

5.11. Mae'r **Gwasanaeth Adfywio Cymunedol** yn cefnogi pobl a mentrau lleol i chwarae rhan allweddol yn y broses adfywio. Dros y misoedd diwethaf, mae'r gwasanaeth wedi bod yn cynllunio ar gyfer dyfodol rhaglen cymunedau'n gyntaf, gan gynnwys llunio cynllun ymadael, trefniadau cau lawr a throsglwyddo a gwyro i raglenni eraill. Mae'r gwasanaeth yn parhau i weithio ar eu mesurau.

5.12. O ran y Gwasanaeth Tai, mae'r **Uned Ddigartrefedd** wedi gosod eu pwrpas ac wedi sefydlu dau brif fesur. Gwelir peth ddirywiad yn yr amser mae'n **cymryd i gyflawni'r hyn sy'n bwysig (TAI 002)** (100 diwrnod chwarter 1 o gymharu â 69 (cyfartaledd 2015/16 a 54 2016/17). Mae'r **cyfnod a dreulir mewn llety dros dro (TAI003)** (89 diwrnod) hefyd yn dangos peth dirywiad wrth gymharu â 2015/16 ond yn cymharu yn dda gyda blwyddyn ddiwethaf a chyda awdurdodau eraill sydd hefyd yn adrodd bod pwysau.

5.13. Credir fod cyfuniad o resymau am y dirywiad mewn perfformiad megis y ffaith fod rhai unigolion, sy'n anodd i'w lletya am amryw resymau, yn parhau mewn llety dros dro am gyfnodau hir ac yn gwthio'r cyfartaledd yn uwch. Yn ogystal â hyn mae newidiadau deddfwriaethol diweddar a newidiadau mewn budd-daliadau lles yn cyfrannu.

5.14. Cyflwynodd Llywodraeth Cymru ystadegau ar ddigartrefedd diwedd Gorffennaf 2017, mae'r ffigyrau yma yn rhoi trosolwg o'r darlun Cenedlaethol digartrefedd dros y ddwy flynedd diwethaf ers i'r newid yn y Ddeddf Tai ar newid pwyslais i weithio'n fwy ataliol. Mae'r ffigyrau yn cadarnhau'r darlun lleol rydym yn ei weld yng Ngwynedd sef y cynnydd mewn digartrefedd a'r tuedd bod hwn am barhau. Mae nifer cyfeiriadau i'r uned wedi cynyddu yn sylweddol - 560 yn 2014/15, 648 yn 2015/16 a 722 yn 2016/17 sydd eto yn adlewyrchu'r tuedd Cenedlaethol.

5.15. Yn ogystal mae gan Wynedd lefel uwch o deuluoedd ar incwm isel wrth gymharu â Môn a Conwy ac mae canran uwch yn cael eu heffeithio gan y cap ar y Lwfans Tai. Mae lefel Lwfans Tai Lleol mewn rhannau o Ddwyfor a Meirionnydd ymhlith yr isaf ym Mhrydain. Os bydd y Lwfans yn cael ei rewi ar y lefel bresennol hyd 2020 gall y lwfans fod yn annigonol i gyfarch rhenti eiddo cymdeithasol.

5.16. Fel rwyf eisoes wedi adrodd, bydd y gwaith gyda'r rhaglen '**Cydymdrechu yn erbyn Tlodi**' yn mynd ati i oresgyn rhai o'r rhwystrau fydd yn codi yn sgil newidiadau budd-daliadau lles. Yn ogystal, mae'r Adran Tai wedi comisiynu gwaith ymchwil gan '*Policy in Practice*' er mwyn ceisio adnabod effaith newid yn y drefn budd dal ar bobol Gwynedd. Mae'r adroddiad yn amlinellu heriau sylweddol sydd ar y gorwel. Fel rwyf eisoes wedi'i nodi, bydd Gwynedd yn trosglwyddo i Gredyd Cynhwysol yn Ebrill 2018 ac i'r perwyl hyn mae'r Adran Economi ynghyd a'r Adran Tai yn ymdrechu i adnabod yr aelwydydd sydd yn mynd i gael eu heffeithio fwyaf gyda'r bwriad i dargedu ymyrraeth gynnar yn effeithiol. Mae newidiadau budd-dal yn debygol o effeithio rhai cymunedau yn llawer mwy gyda disgwyliad bod Gwynedd yn ardal fydd yn dioddef. Gwelwn o'r gwaith '*Policy in Practice*' bod yr effaith am fod yn uwch o fewn cymunedau penodol gan gynnwys Bethesda, Peblig a Thywyn. Erbyn 2020 bydd 94% o bobl Gwynedd sy'n hawlio budd-dal yn waeth allan yn sgil y newid yn y trefniadau.

5.17. Nid oedd gwybodaeth am fesurau'r **Uned Cefnogi Pobl** ar gael yn ystod yn cyfarfod adrannol. Mae'r data yn cael ei gasglu yn rhanbarthol pob 6 mis. Nid wyf felly wedi cael cyfle i graffu'r wybodaeth mewn manylder. Serch hynny, mae'r darlun yn un tebyg gyda phwysau cynyddol yn ymwneud gyda'r cynnydd mewn cyfeiriadau a'r cynnydd yn natur cymhleth cyfeiriadau. Mae'r newidiadau budd-daliadau yn rhoi pwysau ar ein defnyddwyr gwasanaeth ac mae ein defnyddwyr angen fwy o gefnogaeth o ran rheoli arian.

5.18. Ers mis Ionawr mae canran o'r grant Cefnogi Pobl wedi cael ei glustnodi i ddatblygu dau wasanaeth newydd. Un prosiect ar y cyd gyda *Shelter Cymru* sydd yn cynnig cymorth ar reoli dyled. Mae'r ail brosiect ar y cyd gyda Gisda sy'n cynnig sesiynau 'glaw heibio' yng Nghaernarfon un diwrnod yr wythnos gyda'r nod i gynnig ymyrraeth gynnar er mwyn atal digartrefedd. Rydym hefyd yn edrych ar geisio cynyddu cefnogaeth ymatebol i unigolion sydd ag anghenion cymhleth neu ddeuol gyda phwyslais ar bobl a phroblemau iechyd meddwl.

5.19. Mae'r **Uned Grantiau a Gorfodaeth** wedi cyflwyno mesurau perfformiad sydd yn eu barn yn mesur eu pwrpas. Un enghraifft o'r mesurau sy'n cael eu hystyried yw **canran o'r peryglon difrifol a pheryglon diffygiol wedi eu gwella i lefel derbyniol trwy orfodaeth mewn cartrefi wedi eu rhentu (TAI011)**. Mae perfformiad y mesur hwn ar hyn o bryd yn **53%.** Mae cais wedi ei wneud i'r uned ail edrych ar eu mesurau er mwyn sicrhau ein bod yn mesur y pethau cywir. Credaf fod angen gwahanu'r mesur **nifer o ddiwrnodau a gymerwyd i roi grant Cyfleusterau Anabl (PSR002)** i achosion cymhleth a rhai mwy syml er mwyn sicrhau darlun clir o beth sydd yn cael ei gyflawni.

5.20. Rwy'n falch o adrodd fod perfformiad o ran y mesur **'Strat6' Nifer o unedau fforddiadwy a sicrhawyd i Wynedd** yn perfformio yn foddhaol. Mae'r adran yn rhagweld y byddwn yn cyfarch ein targed o 50 uned fforddiadwy yn y flwyddyn 2017/18.

5.21. Yn amlwg mae'r Gwasanaeth Tai yn wynebu sawl her drwy newidiadau deddfwriaethol a budd-daliadau yn ogystal i'r pwysau ychwanegol a chwyddiant rhent posib yn sgil datblygiad Wylfa Newydd. Mae'r materion yma yn mynd i dderbyn fy sylw yn gyson dros y misoedd nesaf.

## 6. SEFYLLFA ARBEDION/ARIANNOL

6.1. Mae'r Adran Economi wedi gwireddu oll o'u cynlluniau ar gyfer 2017/18. Yn gyffredinol, mae'r adran hefyd yn gwneud cynnydd derbyniol tuag at wireddu'r cynlluniau sy'n weddill ar gyfer 2018/19 a 2019/20.

6.2. Mae yna ddau gynllun rwyf yn cadw llygaid arnynt yn y gwasanaeth hamdden a gwasanaeth ieuenctid. Mae'r ***cynllun rhedeg cyfleusterau hamdden yn fwy effeithlon*** yn ystyried opsiynau ac rwy'n ffyddiog y byddant yn darganfod modd o wireddu. Mae'r arbediad yma ynghlwm gyda'r prosiect model amgen a byddaf yn adrodd ymhellach ar yr opsiynau i'r Cabinet a'r Cyngor Llawn ym mis Hydref 2017.

6.3. Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn ystyried arbedion effeithiolrwydd o £70,000 sydd hefyd ynghlwm gydag ail-fodelu'r gwasanaeth i'r dyfodol i gyfarch y toriad o £200,000. Er nad wyf yn rhagweld problem yn cyflawni'r arbediad yma, rwyf yn awyddus i gadw llygaid ar hwn wrth iddo ddatblygu. Ar hyn o bryd, nid oes llithriad gyda'r amserlen gwireddu, a bwriadaf gyflwyno gwybodaeth bellach i chi ar yr ail-fodelu cyn diwedd mis Mawrth 2018.

6.4. Mae'r oll o'r arbedion effeithlonrwydd a'r toriadau o fewn yr Adran Tai oedd wedi'u rhaglennu i'w cyflawni yn 2016/17 wedi eu gwireddu.

6.5. Er bod cynnydd derbyniol iawn wedi ei wneud tuag at wireddu cynlluniau 2017/18, mae pryder y bydd rhywfaint o lithriad mewn gwireddu hyd at £90,000 o'r arbedion. Mae hyn yn deillio o:

a) Newidiadau sylweddol yn y drefn Budd-dal, Lwfansau Budd-dal a dyfodiad Credyd Cynhwysol, sy'n rhoi pwysau ar y gwasanaeth ac wedi arwain at gynnydd yn y galw.
b) Effaith deddfwriaeth newydd yn gwasgu yn arbennig yn y maes Digartrefedd lle mae grant trosiannol hefyd yn dod i ben.
c) Elfennau swyddi grant wedi effeithio'r strwythur.

6.6. Byddaf yn cydweithio gyda'r Adran Oedolion, ac yn benodol y Gwasanaeth Tai, dros yr wythnosau nesaf i geisio datrysiad i'r heriau sy'n deillio o'r uchod, a'u galluogi i weithredu o fewn eu cyllideb.

## 7. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

7.1. Dim i'w nodi.

## 8. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### 8.1. Barn y Swyddogion Statudol:

**i. Y Swyddog Monitro:**

"Dim sylwadau o ran priodoldeb."

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

"Rwy'n fodlon fod cynnwys rhan 6 o'r adroddiad yn adlewyrchiad teg o'r cynnydd gyda chynlluniau arbedion yn y gwasanaethau tai, diwylliant a hamdden."

**8.2. Barn yr Aelod Lleol:**

8.2.1 Ddim yn fater lleol.

**8.3. Canlyniad Unrhyw Ymgynghoriad:**

8.3.1 Dim i'w nodi.

---

**Atodiadau:**

**Atodiad 1** Mesurau Aelod Cabinet Tai, Hamdden a Diwylliant

**Dogfennau Cefndirol:**

Dim.

# ATODIAD 1 - Mesurau Aelod Cabinet Tai, Hamdden & Diwylliant

| Cyf. | Mesur Cyflawni | 2014-15 | 2015-16 | 2016-17 | Gwybodaeth Ddiweddaraf |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwasanaeth Ieuenctid** | | | | | |
| **IEU05** | Nifer o achrediadau mae pobl ifanc yn eu derbyn trwy'r gwasnaeth Ieuenctid | 2323 | 2049 | 4051 | Mesurydd Blynyddol |
| **Gwasanaeth Hamdden** | | | | | |
| **LCS/002 b** | Nifer o ymweliadau I ganolfannau hamdden fesul 1000 y pen o'r boblogaeth | 12,906 | 13,790 | 11,010 | 2,260 |
| **DADH.4 2** | Canran o blant sy'n 11 oed ac wedi cyrraedd safon y Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer nofio | 82% | 78% | 84% | 84% |
| **HAM3** | % sgor ansawdd bywyd gyda chefnogaeth y Tim Cyfeirio i Ymarfer | - | - | 65% | 72% |
| **HAM4** | % wedi gwella sgor ansawdd bywyd gyda chefnogaeth y Tim Dementia Go | - | - | 63% | 60% |
| **Gwasanaeth Llyfrgelloedd & Gwybodaeth** | | | | | |
| **LCS/002 b** | Nifer o ymweliadau a llyfrgelloedd cyhoedd yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth | 3090 | 3156 | 3067 | 2409 |
| **Llyfr.1** | Canran sydd wedi cael budd o sesiynau hyfforddiant e.e. Llythrennedd Gwybodaeth | 100% | 100% | 97% | 100% |
| **Gwasanaeth Amgueddfeydd a'r Celfyddydau** | | | | | |
| **Amgu.1** | % boddhad cwsmer Gwasanaeth Amgueddfeydd ac Orielau | 97% | 98% | 96% | 96% |
| **Gwasanaeth Archifau** | | | | | |
| **Arch.1** | % Canran bodlonrwydd cwsmer | 98% | 96% | 92% | 95% |
| **Gwasanaeth Adfywio Cymunedol** | | | | | |
| **Cym.1** | Nifer o swyddi sy'n cael eu creu trwy brosiectau adfywio cymunedol (**Mesurydd Newydd**) | - | - | - | 4.9 |
| **Cym.2** | % o brosiectau adfywio a gefnogir sy'n hyfyw/ gynaladwy ymhen 3 blynedd | - | - | 78% | Mesurydd Blynyddol |
| **Gwasanaeth Tai** | | | | | |
| **TAI008** | Nifer o unigolion sydd wedi symud i lety cynaliadwy ar diwedd cefnogaeth | - | - | 90 | Dim ar gael |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **TAI009** | Nifer o unigolion lle mae'r anghenion cefnogaeth sydd yn ymwneud gyda thai wedi ei chyrraedd | - | - | 233 | Ddim ar gael |
| **TAI015** | Nifer o unigolion lle mae'r anghenion iechyd wedi sefydlogi | - | - | 4 | Ddim ar gael |
| **TAI002** | Cyfnod a gymryd i gyflawni yr hyn sy'n bwysig. | 85 | 70 | 54 | 99.7 |
| **TAI003** | Cyfnod a dreuliwyd mewn llety dros dro | 76 | 70 | 104 | 89 |
| **PSR/002** | Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl. | 318 | 271 | 311 | 268 |
| **Strat 6'** | 'Nifer o unedau fforddiadwy a sicrhawyd i Wynedd | 144 | 48 | 71 | 12 |

**TAI008, TAI009, TAI015 – Data yn cael ei gasglu yn rhanbarthol. Gwybodaeth diweddaraf yn cael rannu Mis Hydref.**

| Cyfarfod | Cabinet |
|---|---|
| Dyddiad | 3ydd o Hydref 2017 |
| Teitl | Sefydlu Cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor |
| Awdur | Sioned Williams, Pennaeth Economi a Chymuned |
| Aelod | Cynghorydd Craig ab Iago |
| Pwrpas | Cyflwyno'r achos fusnes dros sefydlu Cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor er mwyn darparu cyfleusterau hamdden o fewn y Sir |

**1 Y penderfyniad a geisir**

1.1 Argymell i'r Cyngor llawn gymeradwyo'r achos busnes ar gyfer sefydlu Cwmni a Reolir gan Gyngor Gwynedd i ymgymryd â darpariaeth cyfleusterau hamdden.

1.2 Argymell i'r Cyngor Llawn awdurdodi sefydlu Cwmni wedi ei reoli gan Gyngor Gwynedd yn unol â'r ffurf sy'n cael ei amlinellu o fewn yr achos fusnes er darparu cyfleusterau hamdden Gwynedd.

1.3 Yn ddarostyngedig i gymeradwyo'r achos fusnes i gytuno i ryddhau cyllid unwaith ac am byth o £165k o'r Gronfa Trawsnewid i sefydlu'r Cwmni.

**2 Cyflwyniad**

2.1 Mae'r adroddiad sydd gerbron heddiw yn amlinellu'r sail dros argymell sefydlu Cwmni sydd wedi ei reoli gan y Cyngor i ddarparu cyfleusterau hamdden o fewn y sir.

2.2 Ym mis Rhagfyr 2014 bu'r Cyngor Llawn gymeradwyo cyfres o dargedau arbedion gan gynnwys gwerth £1.05m o arbedion i'w wireddu erbyn 2018/19 drwy newidiadau o fewn y gwasanaeth hamdden. Mae'r gwasanaeth wedi gwireddu oddeutu £800k ac yn hyderus o gyflawni £100k pellach ond mae darganfod y £150k sy'n weddill heb effeithio ar lefelau gwasanaeth yn profi'n anodd.

2.3 Mae'r argymhelliad yma'n cynnig cyfle i gyflawni'r arbedion effeithlonrwydd heb gael effaith ar bobl Gwynedd. Pe na fyddem yn gwneud hyn, ac o gofio'r sefyllfa ariannol ddifrifol sydd o'm blaenau, mae'n debygol y bydd rhaid edrych i resymoli nifer o ganolfannau hamdden, neu gynyddu ffioedd yn sylweddol.

2.4 Ar y 26ain o Fedi bu'r Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi graffu'r achos fusnes. Oherwydd amseriad y cyfarfod yma bydd sylwadau'r Pwyllgor yn cael eu hadrodd yn ystod cyfarfod o'r Cabinet.

**3 Cefndir**

3.1 Ar y 1af o Dachwedd 2016 bu'r Cabinet gomisiynu darn o waith i edrych ar fodelau busnes posib ar gyfer darparu gwasanaethau hamdden. Nod y comisiwn oedd darganfod arbedion sylweddol wrth gynnig yr un safon o wasanaeth neu well i drigolion.

3.2 Bu’r Pwyllgor Craffu Cymunedau dderbyn blas o’r opsiynau oedd yn cael eu hystyried ar yr 24ain o Ionawr 2017 ac fe nodwyd y byddent yn croesawu gweld yr achos fusnes yn ddiweddarach ym Medi 2017.

3.3 Dros y misoedd diwethaf mae gwaith wedi ei wneud i adnabod yr opsiynau posib ac asesu’r manteision ac anfanteision o’u gweithredu. Edrychwyd ar yr opsiynau canlynol ar lefel uchel:

3.3.1 Gwneud Dim
3.3.2 Parhau i ddarparu gwasanaethau ein hunain a darganfod mwy o arbedion effeithlonrwydd a/neu incwm
3.3.3 Sefydlu elusen o’r newydd
3.3.4 Sefydlu Cwmni buddiannau cymdeithasol
3.3.5 Sefydlu cymdeithas buddiannau cymdeithasol (‘Staff Mutual’)
3.3.6 Sefydlu Cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor
3.3.7 Sefydlu Cwmni masnachu awdurdod lleol
3.3.8 Proses gaffael agored
3.3.9 Trosglwyddo’r gwasanaeth i gorff arall

3.4 Cafwyd cyngor cyfreithiol ar y modelau ac ar sail y risgiau gweithredol cysylltiedig fe edrychwyd ar 3 model posib mewn mwy o fanylder, sef Gwneud Dim, Proses Gaffael a Sefydlu Cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor. Erbyn hyn mae swyddogion o’r farn fod ganddynt wybodaeth ddigonol ynglŷn â’r oblygiadau a risgiau i fedru argymell model i’r dyfodol.

3.5 Pwrpas yr adroddiad yma yw amlinellu’r seiliau dros argymell sefydlu Cwmni newydd sydd wedi ei reoli gan y Cyngor a drwy hynny sicrhau parhad y gwasanaeth presennol.

3.6 Bydd gweithredu’r model arfaethedig yn caniatáu’r i’r gwasanaeth gyflawni’r targedau arbedion y bu’r Cyngor ei osod arno nôl yn Rhagfyr 2014 yn ogystal â chyfrannu arbedion pellach i’r Strategaeth Ariannol.

## 4 Y sefyllfa bresennol

4.1 Mae’r Cyngor yn darparu a rheoli 12 Canolfan Hamdden ar draws y Sir gydag oddeutu 17,000 o aelodau a 1.5 miliwn o ymweliadau'r flwyddyn.


4.2 Mae’r ddarpariaeth bresennol yn golygu fod 27% o boblogaeth Gwynedd yn byw o fewn milltir i Ganolfan Hamdden a bod dim anheddau yn byw mwy nag 18 milltir.

4.3 Mae’r aelodaeth bresennol gyfystyr a thua 14% o boblogaeth Gwynedd.

4.4 O’r 17,000 o aelodau mae 55.4% o’r aelodau yn blant 0 i 16oed, 27% yn Oedolion 24 i 60 oed a 9.3% dros 65oed.


4.5 Mae gwariant gros y gwasanaeth yn bron i £5m y flwyddyn (eithrio costau canolog) ond fe ddenir £3.1m o incwm drwy ffioedd aelodaeth a mynediad yn bennaf. Mae’r Cyngor felly’n cymorthdalu bron i £1.9m o’r gwasanaeth.

Pellter o Ganolfan Hamdden Cyngor Gwynedd



4.6 Nol yn Rhagfyr 2014 bu’r Cyngor ofyn i’r gwasanaeth arbed oddeutu £1.05m o arbedion effeithlonrwydd rhwng 2015 a 2018. Fel y blynyddoedd cynt mae’r gwasanaeth wedi ymateb gan geisio sicrhau'r effaith lleiaf posib ar bobl Gwynedd drwy gyflwyno mesurau effeithlonrwydd i leihau costau a chynyddu incwm drwy ddenu aelodau newydd.

4.7 Hyd yma mae’r gwasanaeth wedi adnabod £800k o’r targed £1.05m ond mae darganfod gweddill y swm o fewn yr amserlen a’r model darparu presennol yn profi’n anodd. Os cymeradwyir y cynllun arfaethedig yma bydd y gwasanaeth wedi cyflawni’r targed o £1.05m a bydd arbedion dros ben (oddeutu £400k) ar gael i ofynion y Strategaeth Ariannol bresennol




## 5 Pam newid?

5.1 Mae’n bwysig cydnabod nad yw’r achos dros newid yn adlewyrchiad o berfformiad y gwasanaeth, yn hytrach mae’n adlewyrchu’r pwysau ariannol digynsail ar lywodraeth leol ers sawl blwyddyn bellach.

5.2 Mae’r achos dros newid ein model darparu yn seiliedig ar y casgliad na fedr y gwasanaeth ddarganfod yr arbedion angenrheidiol heb orfod cau nifer o ganolfannau hamdden neu gynyddu ffioedd aelodaeth a mynediad ar raddfa sylweddol. Mae gwaith wedi ei wneud felly i asesu os oes model amgen dichonadwy a derbyniol fydda’n gallu cyflawni’r arbedion gan gynnig yr un safon o wasanaeth neu well.

5.3 Bydd aelodau yn ymwybodol fod ein cynllunio ariannol yn rhagweld y bydd y pwysau ariannol yma’n parhau dros y 3 blynedd nesaf gyda hyd yn oed y senario mwyaf optimistaidd yn nodi’r angen i’r Cyngor ddarganfod £11.8m erbyn 2020/21, a’r senario gwaethaf yn nodi £24m. O gofio fod y Cyngor eisoes wedi gwireddu £31m yn y 4 mlynedd diwethaf, gan gynnwys gwerth £5m o doriadau i wasanaethau, mae’n debyg ei fod yn deg dweud y bydd darganfod mwy o arbedion heb gael effaith ar bobl Gwynedd am fod yn llawer anoddach tro hyn.

5.4 Dros y 3 blynedd diwethaf mae'r gwasanaeth hamdden wedi arbed 33% ar ei wariant net drwy gynyddu incwm, drwy ddenu aelodau newydd a chyflawni cyfres o fesurau effeithlonrwydd i leihau ei wariant.

5.5 Rhaid cadw mewn cof hefyd fod ein stad o gyfleusterau hamdden yn heneiddio; mae rhai o'r adeiladau yn sefyll ers y chwech degau. Mae costau cynnal a chadw yn naturiol am gynyddu ar adeiladau o'r fath ond yn allweddol hefyd yw'r angen i fuddsoddi er mwyn sicrhau fod y cynnig yn parhau yn ddeniadol i drigolion. Os na fyddwn yn cadw fyny gyda newidiadau ac anghenion newydd defnyddwyr mae yna wir beryg na fyddwn yn cyflawni pwrpas y gwasanaeth o fod yn cefnogi ac ysbrydoli pobl Gwynedd i fyw bywydau iach.

5.6 Yn hyn o beth mae'r gwaith yma'n alinio'n agos gyda'r Ddeddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol wrth i ni geisio adnabod a gweithredu'r model darparu gorau ar gyfer 'sicrhau gwasanaeth modern, addas i bwrpas, cynhwysol a cynaliadwy fydd yn ysbrydoli a chefnogi pobl Gwynedd i fyw bywydau iach'.

5.7 Yn wyneb yr hinsawdd ariannol a'r ansicrwydd mae hynny'n ei greu yng nghyswllt cynaliadwyedd gwasanaethau mae patrwm cynyddol yn y sector gyhoeddus lle mae awdurdodau yn edrych os oes modelau mwy gwydn o ddarparu gwasanaethau. Un o'r prif atyniadau yng nghyswllt gwasanaethau hamdden yw bod rhai cyrff yn gymwys ar gyfer rhyddhad trethi sydd yn ei dro yn rhyddhau arbedion a/neu gyllid i ail-fuddsoddi mewn gwasanaethau.

5.8 Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn talu dros £0.5m y flwyddyn mewn trethi annomestig felly fe fydda trosglwyddo'r ddarpariaeth i gorff sy'n gymwys ar gyfer rhyddhad o'r trethi hynny yn arwain at arbediad sylweddol yng nghost y gwasanaeth. Yn allweddol hefyd wrth gwrs yw'r damcaniaeth na fydda arbedion o'r fath yn amharu ar lefel a safon y gwasanaeth i drigolion.

5.9 Goblygiadau hynny yw y bydda'r Cyngor yn comisiynu corff arall i ddarparu'r gwasanaeth ar ei ran. Mae'r achos fusnes sydd gerbron wedi asesu union oblygiadau'r gwahanol fathau o fodelau darparu ac wedi eu gwerthuso yn erbyn y meini prawf canlynol:

1) Gwasanaeth yr un peth neu well am gost is o leiaf £500k erbyn 2019
2) Mynediad haws i ddulliau gwahanol o fuddsoddi
3) Gallu i hyrwyddo a diogelu'r iaith Gymraeg o fewn y sector chwaraeon a hamdden yng Ngwynedd
4) Defnydd mwy effeithlon o gymhorthdal y Cyngor yn erbyn amcanion gwario
5) Hyblygrwydd i addasu i gwrdd â heriau newydd
6) Uchafu cyfraniad tuag at amcanion strategol y Cyngor.

**6 Crynodeb o'r gwerthusiad**

6.1 Mae atodiadau'r achos fusnes yn manylu ar yr opsiynau gafodd ystyriaeth fel rhan o'r achos fusnes.

6.2 Yn dilyn gwaith cychwynnol daethpwyd i'r casgliad y dylid canolbwyntio ar ddatblygu a gwirio'r achos dros sefydlu Cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor ac i feincnodi'r opsiwn yno yn erbyn yr opsiwn o barhau gyda'r drefn fewnol neu opsiwn o gaffael darparwr allanol ar gyfer y gwasanaeth ("allanoli").

6.3 Seliwyd y casgliad cychwynnol yma ar y sail mai rhain oedd yr opsiynau oedd yn cwrdd â'r meini prawf a bod swyddogion felly yn canolbwyntio eu hamser ar yr opsiynau oedd fwyaf tebygol o gyflawni'r amcanion.

6.4 Nid yw mor ddu a gwyn i ddweud y bydd un model yn cynnig gwasanaeth gwell neu waeth i drigolion ond mae'n deg dweud y bydd rhai modelau yn gweddu'n well na'i gilydd o ran blaenoriaethau, polisïau, strategaethau ac egwyddorion y Cyngor. Enghraifft syml o hynny yw'r opsiwn o allanoli i'r sector breifat a'r tebygolrwydd y bydda ethos masnachol ac ariannol yn gallu dod ar draul rai o amcanion cymdeithasol. Er enghraifft, fe fydda yna ddisgwyliad naturiol, ar ryw bwynt, i unrhyw weddill ariannol gael ei ddyrannu fel elw preifat yn hytrach nag i'r gymdeithas leol.

6.5 Mae'r tabl isod yn crynhoi'r gwerthusiad opsiynau:

| MEINI PRAWF | MODELAU POSIB | | |
|---|---|---|---|
| | OPSIWN 1: MEWNOL | OPSIWN 5: PROSES GAFFAEL AGORED | OPSIWN 6: CWMNI WEDI EI REOLI |
| Gwasanaeth yr un peth neu well am gost is | | | |
| Mynediad haws i ddulliau gwahanol o fuddsoddi | | | |
| Gallu i hyrwyddo a diogelu'r iaith Gymraeg o fewn y sector chwaraeon a hamdden yng Ngwynedd | | | |
| Defnydd mwy effeithlon o gymhorthdal y Cyngor yn erbyn amcanion gwario | | | |
| Hyblygrwydd i addasu i gwrdd â heriau newydd | | | |
| Uchafu cyfraniad tuag at amcanion strategol y Cyngor. | | | |

**ALLWEDD:** GWYRDD = CYFLAWNI, AMBR = CYFLAWNI'N RHANNOL, COCH = DDIM YN CYFLAWNI

6.6 Mae'r gwerthusiad opsiynau o fewn yr achos busnes yn dod i'r casgliad na fedr y gwasanaeth gyflawni'r arbedion angenrheidiol wrth aros yn fewnol (Opsiwn 1) heb edrych i gau rhai canolfannau neu gynyddu ffioedd am y gwasanaeth ar raddfa sylweddol (~20% drosodd) fydda'n gallu amharu ar ddefnydd.

6.7 Yr opsiwn o allanoli (Opsiwn 5) sydd fwyaf tebygol o gyflawni'r arbedion mwyaf, a hynny ar y rhagdybiaeth fod yna ddiddordeb yn y farchnad i ddarparu yng Ngwynedd. Fe fydda mwyafrif o'r arbedion yn debygol o darddu o eithriadau trethi ond gellir disgwyl ymgyrchoedd mwy caled i gynyddu incwm a lleihau gwariant hefyd.

6.8 Fodd bynnag, yr opsiwn o allanoli sy'n golygu'r newid mwyaf ac fe fydda rheolaeth y Cyngor yn sylweddol llai o gymharu â'r opsiynau eraill. Er ein bod yn rhagfarnu'r darparwyr posib i raddau mae yna fwy o risg diwylliannol ynghlwm a'r cyfeiriad yma, yn bennaf yng nghyswllt yr iaith Gymraeg ac i rai o bolisïau ac egwyddorion eraill y Cyngor.

6.9 O'r opsiynau i gyd felly sefydlu Cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor (Opsiwn 6) yw'r newid lleiaf. Mae'r opsiwn yma'n cynnig cyfle i gyflawni arbedion trethiannol oddeutu £585k yn y flwyddyn gyntaf o weithredu wrth gadw hunaniaeth, diwylliant ac egwyddorion craidd presennol.

6.10 Y Cyngor fyddai berchen y Cwmni cyngor a rheolir y Cwmni gan Fwrdd Rheoli wedi ei benodi gan y Cyngor; yn y tymor byr ni ddylai defnyddwyr a thrigolion weld gwahaniaeth yn y ddarpariaeth ond, i'r dyfodol, y nod naturiol fydda i ddatblygu ac i wella'r gwasanaeth yn barhaus.

6.11 Amcangyfrifir y byddai modd cyflawni arbedion net blynyddol o £585k ond fod angen clustnodi rhwng £170k hyd at £240k unwaith ac am byth er mwyn sefydlu'r Cwmni dros gyfnod o 9 mis.

6.12 Gan gymryd na fyddai'r Cyngor yn dymuno cau canolfannau hamdden a thorri'r gwasanaeth nid yw aros yn fewnol yn opsiwn hyfyw i'r dyfodol. O'r modelau amgen sydd ar gael yr opsiwn o greu Cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor sy'n taro balans orau o ran cyflawni'r arbedion angenrheidiol a chadw hunaniaeth bresennol y gwasanaeth.

## 7 Amlinelliad o sut byddai Cwmni wedi ei reoli yn edrych a gweithio

### 7.1 Ffurf y Cwmni

7.1.1 Bwriedir i'r Cwmni fod yn Gwmni cyfyngedig drwy warant gyda'r Cyngor yn berchennog llawn arno (h.y. yr unig gyfranddaliwr).

7.1.2 Bydd y Cyngor yn creu cyfansoddiad y Cwmni fydd yn seiliedig ar bwrpas dyngarol ac nid ar gyfer elw.

7.1.3 Bydd y Cyngor hefyd yn penodi Bwrdd o Gyfarwyddwyr (ar sail wirfoddol) fydd yn gyfrifol am gyflawni oddi fewn i gyfansoddiad y Cwmni. Bydd 5 i 7 o gyfarwyddwyr ar y bwrdd; sy'n debygol o fod yn gyfuniad o aelodau etholedig a swyddogion y Cyngor.

7.1.4 Mae modd ychwanegu haenau llywodraethu oddi fewn y Cwmni syn gallu cynnwys Bwrdd cynghorol neu fwrdd budd-ddeiliaid eraill er enghraifft.

7.1.5 Bydd y Bwrdd o Gyfarwyddwyr yn penodi a chyflogi Rheolwr Gyfarwyddwr i'r Cwmni; y person yno fydd yn gyfrifol am reolaeth dydd i ddydd o'r Cwmni.

### 7.2 Rheolaeth y Cyngor dros y Cwmni

7.2.1 Bydd y Cyngor yn comisiynu gwasanaeth drwy gytundeb gwasanaeth fydd yn manylu ar yr union wasanaethau a deilliannau sydd angen i'r Cwmni yno ei gyflawni am ffi benodol (sef swm tebyg i'r

gwariant net presennol llai'r arbedion sydd wedi'u hadnabod). Bydd y cytundeb yma yn cyfarch disgwyliadau'r Cyngor o safbwynt y gwasanaeth fydd yn cael ei gomisiynu ac yn manylu ar faterion megis:

i) Y taliad a wneir i'r Cwmni am ddarparu'r gwasanaeth
ii) Isafswm darpariaeth gwasanaeth
iii) Strwythur ffioedd
iv) Polisi Iaith
v) Lefel Perfformiad
vi) Gofynion Ansawdd

7.2.2 Bydd y Cyngor hefyd yn lesu y canolfannau hamdden i'r Cwmni ddarparu gwasanaethau. Bydd y les yno hefyd yn manylu ar gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Cwmni yng nghyswllt defnydd yr adeiladau gan gynnwys unrhyw gyfyngiadau neu eithriadau.

7.2.3 Yn unol â'r achos fusnes, y bwriad fyddai cytundebu ar sail 10 mlynedd. Bydd y cytundeb hwnnw yn cynnwys mecanwaith penodol ar gyfer delio ag unrhyw newidiadau, foed hynny yng nghyswllt newid mewn gwasanaeth neu werth y cytundeb er enghraifft, ac wrth gwrs y gallu i derfynu'r cytundeb ynghynt.

7.2.4 Y Cyngor fydd yn ffurfio cyfansoddiad y Cwmni sy'n manylu ar y rheolau ar gyfer rhedeg y Cwmni. Bydd rheolaeth weithredol y Cwmni yn nwylo'r cyfarwyddwyr fydd â dyletswyddau at y Cwmni yn unol â Deddf Cwmnïau. Fodd bynnag fel y nodir uchod yn ogystal â'r rôl cyfranddaliwr bydd y cytundeb darparu hefyd yn sicrhau fod gan y Cyngor reolaeth dros y gwasanaeth fydd yn cael ei ddarparu.

7.2.5 Bydd gofyn i'r Cwmni hefyd adrodd ar ei berfformiad i'r Cyngor, yn debyg iawn i adran o'r Cyngor. Yn ogystal bydd y Cyngor yn cymeradwyo cynllun busnes blynyddol y Cwmni, sy'n manylu ar weithgareddau, datblygiadau a deilliannau'r flwyddyn neu flynyddoedd i ddod.

7.2.6 Ar ei eithaf fodd bynnag, mae'r Cyngor yn parhau gyda rheolaeth derfynol gan y gellir penodi neu gael gwared â'r Bwrdd o Gyfarwyddwyr a/neu newid cyfansoddiad y Cwmni os oes angen.

**7.3 Effaith ar wasanaethau a defnyddwyr**

7.3.1 Bydd y Cyngor yn gofyn i'r Cwmni ddarparu'r un gwasanaeth ac sy'n cael ei ddarparu ar hyn o bryd oni bai fod y Cwmni yn gallu adnabod unrhyw welliannau i'r ddarpariaeth bresennol.

7.3.2 Yn ei hanfod ni ddylai defnyddwyr weld fawr o wahaniaeth yn y tymor byr yn sicr.

**7.4 Effaith ar y gweithlu**

7.4.1 Bydd staff sy'n gweithio i'r gwasanaeth ar hyn o bryd yn trosglwyddo i gyflogaeth y Cwmni a byddent yn derbyn yr un amodau a thelerau maent yn ei gael ar hyn o bryd. Mae'n annhebygol y bydd unrhyw staff sy'n cefnogi'r gwasanaeth o'r gwasanaethau canolog yn trosglwyddo.

7.4.2 Bydd rheoliadau TUPE yn gwarchod amodau a thelerau'r gweithlu a ni fedr y Cwmni newid yr amodau a thelerau hynny yn sgil y trosglwyddiad. I alluogi hynny bydd gofyn i'r Cwmni ddod yn aelod o Gronfa Bensiwn Llywodraeth Leol, gan y bydd angen sicrhau cynllun pensiwn cymharol i'r un presennol ar gyfer y staff sy'n trosglwyddo drwy TUPE.

7.4.3 Yng nghyswllt unrhyw benodiadau newydd fydd y Cwmni yn ei wneud yn y dyfodol mae Côd Ymddygiad ar Faterion y Gweithlu 2014 gan Lywodraeth Cymru yn golygu y dylai'r Cwmni sicrhau nad ydy'r gweithwyr newydd, yn gyffredinol, yn derbyn amodau a thelerau llai ffafriol na'r gweithlu sydd wedi trosglwyddo.

7.4.4 Ers penderfyniad y Cabinet i edrych ar y maes yma mae newyddlenni rheolaidd a chyfres o gyfarfodydd wedi eu cynnal gyda staff a'r Undebau Llafur er mwyn rhannu gwybodaeth ac ateb unrhyw gwestiynau. Braf yw adrodd fod y cyfarfodydd hyd yma wedi bod yn bositif gydag ymagwedd agored a chefnogol i'r argymhelliad o sefydlu Cwmni.

**7.5 Goblygiadau Caffael**

7.5.1 Mae'r achos fusnes wedi ei seilio ar gwmni sydd wedi ei reoli gan y Cyngor ac sydd hefyd yn cyfarfod meini prawf eithriad Teckal. Deillia'r eithriad "Teckal" o achosion Ewrop sydd bellach wedi ei sefydlu o fewn deddfwriaeth sydd yn golygu, yn ddarostyngedig i feini prawf penodol y gall y Cyngor osod cytundeb gwasanaeth yn uniongyrchol gyda'r Cwmni heb orfod mynd drwy broses gaffael allanol.

7.5.2 Mae dwy prif ran i'r meini prawf; bydda rhaid i reolaeth y Cyngor ar y Cwmni fod yn gyffelyb i'r rheolaeth sydd ganddo dros un o'i adrannau a bod o leiaf 80% o fasnach y Cwmni yn dod gan y Cyngor. Mae'r opsiwn a argymhellir yn cyrraedd y gofyn yma.

**7.6 Goblygiadau Ariannol a Threthiannol**

7.6.1 Mae'r arbedion o'r model yma yn tarddu o ryddhad o drethi annomestig ac eithriadau treth ar werth; mae'r eithriadau yma ar gael i gyrff sydd â phwrpas dyngarol ac nid ar gyfer elw. Ar hyn o bryd nid yw awdurdodau lleol yn gymwys.

7.6.2 Bydd y Cyngor yn cyflawni'r arbedion hynny drwy addasu gwerth y cytundeb gyda'r Cwmni i adlewyrchu'r arbedion rheini, ond bydd cymalau ar gyfer delio gydag unrhyw newidiadau i'r cytundeb. Amcangyfrifir y bydd cymhorthdal yn lleihau o £1.869m i £1.282m erbyn 2019/20.

7.6.3 Ni fydda'r Cyngor yn trosglwyddo unrhyw risg cyfalaf ariannol sylweddol fel rhan o'r cytundeb neu'r prydlesau ac mi fydd unrhyw risg refeniw yn gyfyngedig, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar. Bydd y cytundeb yn manylu ar hyn.

7.6.4 Yng nghyswllt mynediad i ffynonellau incwm newydd yna mae hyn yn debygol o fod yn gyfyngedig i unrhyw incwm ychwanegol y gellir ei ddenu oddi fewn i amodau Teckal. Ymhellach, mae'n debygol mai'r dull gorau o fenthyg fydda drwy'r Cyngor gan na fydd y Cwmni yn berchen ei asedau.

7.6.5 Bydd costau unwaith ac am byth ynghlwm a sefydlu Cwmni. Costau cyfreithiol yw rhain yn bennaf ar gyfer sefydlu cyfansoddiad a threfniadau llywodraethu'r Cwmni, paratoi'r cytundebau gwasanaeth a phrydlesau, proses TUPE ayyb. Amcangyfrifir y gall y costau unwaith ac am byth hynny fod rhwng £170k a £240k ond bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i gadw costau i'r isafswm posib

7.6.6 Yn sgil ail-strwythuro diweddar gall yr adran gyfrannu £50k tuag at gostau sefydlu'r Cwmni yn ogystal â chyfarch cynnydd yng nghostau rhedeg newydd y Cwmni o £49k.

7.6.7 Drwy weithredu bydd yr adran yn cyflawni'r arbedion o £150k sy'n weddill o'r targedau y bu'r Cyngor Llawn ei gymeradwyo nôl yn Rhagfyr 2014. Bydd hynny'n gadael cyfraniad arbedion o £435k i'r Strategaeth Ariannol a'r rhagdybiaeth benodol o £526k oedd i'w ddeillio o weithredu model amgen.

7.6.8 Rhagwelir y proffil arbedion blynyddol canlynol:

| | 2017/18 | 2018/19 | 2019/20 | 2020/21 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| Proffil Arbedion Net Blynyddol | £0 | £146,804 | £440,411 | £0 | £587,214 |

**7.7 Goblygiadau Eiddo**

7.7.1 Byddai'r Cyngor yn lesu'r adeiladau yn unol â hyd y cytundeb gwasanaeth am ffi 'peppercorn'. Bydd y les yn manylu ar gyfrifoldebau'r Cyngor a'r Cwmni gan gynnwys er enghraifft ymrwymiadau buddsoddi a gofynion perfformiad ar y naill ochr. Ar ddiwedd y cytundeb bydd unrhyw eiddo gan gynnwys offer yn dychwelyd yn ôl i'r Cyngor.

7.7.2 Bydd mwyafrif o gyfrifoldebau am gynnal yr adeiladau yn parhau i aros gyda'r Cyngor oherwydd rhesymau trethiannol.

**7.8 Effaith ar wasanaethau cefnogol a chanolog**

7.8.1 Bydd disgwyl i'r Cwmni brynu gwasanaethau canolog yn ôl gan y Cyngor; mae hynny ar y sail fod y costau canolog yn sefydlog ac na fydd y trosglwyddiad yma o faint ddigonol i allu gwireddu arbedion i'r Cyngor.

7.8.2 Bydd y gwasanaethau yn cael eu darparu drwy gytundeb gwasanaeth fydd yn nodi amodau'r gwasanaethau hynny.

**7.9 Diwylliant**

7.9.1 Un o atyniadau'r model arfaethedig yw ei fod yn caniatáu i ni gadw hunaniaeth bresennol a'r hyn mae pobl Gwynedd yn ei werthfawrogi am y gwasanaethau.

7.9.2 Mi fydd y Cwmni yn annibynnol i'r Cyngor a bydd y Cyngor yn dirprwyo rheolaeth weithredol i'r Cwmni. Bydd gofyn i'r Bwrdd warchod a hyrwyddo diddordebau'r Cwmni a gall hynny olygu y bydd yn cymryd

safbwynt mwy masnachol ar rhai agweddau o'r busnes. Mae hyn yn grymuso'r Cwmni i gyflawni'r deilliannau penodedig fel mae'n gweld orau ond mae'r model arfaethedig yn darparu tryloywder ac elfen o reolaeth i'r Cyngor o ran sut caiff y deilliannau hynny eu cyflawni.

## 8 Asesiad Cydraddoldeb

8.1 Wrth werthuso'r opsiynau fe roddwyd ystyriaeth i berthnasedd ac effaith yr opsiwn ar ddyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a phob un o'r grwpiau cydraddoldeb (nodweddion gwarchodedig).

8.2 Gellir gweld yr asesiad cydraddoldeb llawn yn Atodiad A. Nod y cynllun arfaethedig yma yw 'Sicrhau gwasanaeth modern, addas i bwrpas, cynhwysol a chynaliadwy fydd yn ysgogi a chefnogi pobl Gwynedd i fyw bywydau iach' ac mae'r model arfaethedig yn cynnig pob cyfle i wneud hynny.

8.3 Os cymeradwyir yr argymhelliad bydd gofyn ail-ymweld a'r asesiad i wirio unrhyw gasgliadau neu ragdybiaethau a wnaed a sicrhau cydymffurfiaeth a'r ddeddf.

## 9 Amserlen Gweithredu arfaethedig

9.1 Yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth y Cabinet heddiw bydd y Cyngor Llawn yn ystyried yr achos fusnes yn ei gyfarfod ar y 5ed o Hydref. Bydd cymeradwyo'r achos yn y cyfarfod yma yna caniatáu'r gwasanaeth i weithredu yn ddi-oed a phendant gan wneud cyfraniad sylweddol i'r Strategaeth Ariannol.

9.2 Os cymeradwyir yr argymhelliad yma ym mis Hydref eleni gall fod y Cwmni newydd yn weithredol yn ystod Chwarter 3 o 2018/19, gan sicrhau'r arbedion llawn yn 2019/20.

9.3 O fis Hydref ymlaen bydd gwaith yn cychwyn i greu'r ddogfennaeth gyfreithiol angenrheidiol, datblygu a dilysu cyfrifon i'r Cwmni a chynhyrchu cynllun busnes. Cyn i'r Cwmni fod yn weithredol a bod staff yn trosglwyddo bydd gofyn i'r Cwmni gyflwyno ei gynllun busnes ar gyfer cymeradwyaeth y Cyngor. Argymhellir fod ymgynghorwyr arbenigol yn cael eu cyflogi i gefnogi'r gwaith yma.

## 10 Cyfreithiol

10.1 Mae'r hawl i sefydlu'r Cwmni yn deillio o bŵer llesiant yn Neddf Llywodraeth Leol 2000 adran 2(1) sy'n caniatáu i'r Cyngor ffurfio Cwmni os yw o'r farn fod hyn yn debygol o gyflawni hyrwyddo neu wella llesiant economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol yr ardal.

10.2 Yn yr atodiadau amgaeedig, mae'r ymgynghorwyr allanol yn cyfeirio at achos llys oedd yn derbyn gwrandawiad ar y pryd. Mae'r dyfarniad yn yr achos *'London Borough of Ealing -v- HMRC'* bellach wedi ei gyhoeddi gan Lys Cyfiawnder Ewrop. Nid yw'n glir ar hyn o bryd, sut bydd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi (HMRC) yn ymdrin â'r penderfyniad yng nghyd-destun y darganfyddiadau a / neu apeliadau TAW ac felly, sut bydd hynny yn cael effaith ar y sefyllfa TAW. O ganlyniad, bydd angen i Swyddogion adolygu'r sefyllfa a chomisiynu gwaith pellach er mwyn sicrhau bod gan y Cyngor yr arweiniad gorau ar y mater. Fodd

bynnag, yn sgil y cyd-destun ariannol ehangach nid yw'r sefyllfa bresennol yn cyfiawnhau peidio parhau gyda'r argymhellion.

**11 Casgliadau ac argymhellion**

11.1 Mae'r gwaith yma wedi amlygu graddfa'r arbedion ariannol mae'r gwasanaeth wedi llwyddo i gyflawni dros y blynyddoedd diwethaf gan sicrhau'r effaith lleiaf posib ar drigolion Gwynedd.

11.2 Un o brif gasgliadau'r gwaith yma yw na fedr y gwasanaeth yma ddarganfod rhagor o'r arbedion angenrheidiol heb drosglwyddo'r ddarpariaeth neu cau sawl Canolfan.

11.3 O'r opsiynau sydd ar gael sefydlu Cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor yw'r opsiwn sy'n taro balans orau o ran cyflawni arbedion a chadw diwylliant ac egwyddorion presennol. Mae'r opsiwn yma hefyd yn caniatáu fod rheolaeth a dylanwad y Cyngor yn parhau'n gryf o fewn y sector allweddol yma. Mae gweithredu'r opsiwn yma hefyd yn cyfarch ein dyletswyddau dan Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ( Cymru) 2015 o safbwynt cefnogi cynaliadwyedd y gwasanaeth a'r ddarpariaeth i bobl Gwynedd. Drwy wneud hynny mae'n cyd-fynd ac amcanion tymor hir y Cyngor ar draws ystod o'i flaenoriaethau strategol.

11.4 Argymhellir i'r Cabinet gymeradwyo'r achos fusnes a buddsoddiad cysylltiedig gan argymell i'r Cyngor Llawn wneud yr un peth yn ei gyfarfod ar y 5ed o Hydref a gan felly awdurdodi sefydlu Cwmni sydd wedi ei reoli gan y Cyngor yn unol â'r ffurf sy'n cael ei amlinellu o fewn yr achos fusnes.

**12 Atodiadau**

12.1 Atodiad 1 – Asesiad Effaith Cydraddoldeb

12.2 DOGFEN EITHRIEDIG - Atodiad 2 – Prif Adroddiad ac atodiadau

**Barn yr aelod lleol:**

Dim yn berthnasol

**Barn y Swyddogion Statudol**

**Y Swyddog Monitro:**

Mae'r adroddiad yma wedi bod yn destun mewnbwn cyfreithiol gan gyfreithwyr allanol arbenigol ynghyd a'r Gwasanaeth Cyfreithiol. Yn amlwg mae nifer o faterion o safbwynt llywodraethu sydd yn cael eu cyfarch a fydd angen eu datblygu os cymeradwyir yr Achos Busnes. Bydd mewnbwn cyfreithiol agos yn parhau yn rhan o reoli'r prosiect. Mae'r adroddiad a'r Atodiadau yn cloriannu'r ystyriaethau perthnasol mewn modd manwl a phriodol. Argymhellir model a threfn gomisiynu arfaethedig sydd yn caniatáu i'r Cyngor gael elfen gymharol gref o reolaeth risgiau wrth i'r prosiect symud ymlaen. O safbwynt priodoldeb rwy'n fodlon felly fod yr argymhelliad yn briodol i'w gynnig.

**Y Pennaeth Cyllid:**

Fel mae'r adroddiad yn egluro, mae achos busnes cadarn sy'n dangos byddai sefydlu 'cwmni wedi'i reoli gan y Cyngor' yn gwireddu arbedion ariannol, tra hefyd yn amddiffyn buddiannau a gwerthoedd allweddol. Credaf fod "Opsiwn 6" (cwmni wedi ei reoli) yn hyfyw, cynaliadwy a chyfreithlon, a bu ymchwil o brofiadau perthnasol. Hefyd, bu mewnbwn ac ystyriaeth briodol gan arbenigwyr trethiannol, cyfreithiol, ayb, lle'n briodol. Felly, rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisir, fel gellid bwrw ymlaen yn ddi-oed a phendant er mwyn gwireddu'r arbedion disgwyliedig cyn gynted â phosib. Wrth gwrs, mae risgiau ynghlwm ag unrhyw fenter o'r fath yma, ond rwyf yn fodlon fod gwaith dadansoddi manwl wedi digwydd wrth sefydlu'r cynllun busnes. Pe bai'r Cabinet yn penderfynu symud ymlaen i sefydlu cwmni newydd, bydd swyddogion Cyllid yn parhau i weithio'n agos a pharhaus gyda'r adrannau perthnasol er mwyn sicrhau fod y risgiau ariannol wedi eu lliniaru cyn belled â phosib, fel bod y cwmni newydd yn cael ei sefydlu ar seiliau cadarn, a buddiannau'r Cyngor wedi eu hamddiffyn.

**Atodiad 1**

# Asesiad Effaith Cydraddoldeb

**1 Manylion**

**1.1 Beth yw enw'r polisi / gwasanaeth dan sylw?**

Model Darparu Hamdden

**1.2 Beth ydi pwrpas y polisi/gwasanaeth sy'n cael ei greu neu ei newid? Pa newidiadau sy'n cael eu hystyried?**

Nod y cynllun arfaethedig yw gweithredu'r model darparu gorau i 'Sicrhau gwasanaeth, modern, addas i bwrpas, cynhwysol a chynaliadwy fydd yn ysbrydoli a chefnogi pobl Gwynedd i fyw bywydau iach'.

Y prif amcan yw gwireddu arbedion ariannol gan gynnig yr un ystod o wasanaethau i'r un safon neu well. Mae'r modelau isod wedi'u hystyried o fewn yr achos fusnes:

2.2.1 Gwneud Dim

2.2.2 Parhau i ddarparu gwasanaethau ein hunain a darganfod fwy o effeithlonrwydd a/neu incwm

2.2.3 Sefydlu elusen o'r newydd

2.2.4 Sefydlu Cwmni buddiannau cymdeithasol

2.2.5 Sefydlu cymdeithas buddiannau cymdeithasol ('Staff Mutual')

2.2.6 Sefydlu Cwmni wedi ei reoli gan y Cyngor

2.2.7 Sefydlu Cwmni masnachu awdurdod lleol

2.2.8 Proses gaffael agored

2.2.9 Trosglwyddo'r gwasanaeth i gorff arall

Bydd effaith ar wasanaeth a defnyddwyr yn rhan o feini prawf y gwerthusiad o fodelau busnes. Os bydd penderfyniad i weithredu model amgen bydd yn rhannol seiliedig ar yr angen i sicrhau na fydd effaith negyddol ar ddefnyddwyr gwasanaeth. Fodd bynnag, mae elfen o risg yn perthyn i unrhyw sefyllfa o drosglwyddo cyfrifoldeb a bydd gwerthusiad o'r risgiau rheini hefyd yn ffurfio rhan o'r broses gwerthuso opsiynau. Mae'n debygol felly y bydd angen ail-ymweld a'r asesiad yma yn ystod ac ar ddiwedd y broses gwerthuso ac os mai'r casgliad yw gweithredu model amgen.

Mewn sefyllfa o drosglwyddo bydd effaith ar staff y gwasanaeth yn yr ystyr y bydd eu cyflogaeth a'u hamodau a thelerau yn trosglwyddo i gorff newydd. Bydd rheoliadau TUPE (Transfer of Undertakings (Protection of Employment) )yn cynnig gwarchodaeth i amodau a thelerau staff. Unwaith eto fodd bynnag mae risg o newid yn perthyn i unrhyw drosglwyddiad o gyfrifoldeb ond rhagwelir mai isel yw'r risg hwnnw ar hyn o bryd.

**1.3 Pwy sy'n gyfrifol am yr asesiad yma?**

| |
|---|
| Ian Jones, Uwch Reolwr Cefnogaeth Gorfforaethol |

**1.4 Pryd wnaethoch chi gychwyn yr asesiad? Pa fersiwn yw hwn?**

| |
|---|
| 24/05/17, fersiwn cyntaf |

**2) Gweithredu**

**2.1 Pwy yw'r partneriaid fydd yn rhaid gweithio hefo nhw i wneud yr asesiad yma?**

| |
|---|
| Defnyddwyr gwasanaeth<br>Defnyddwyr gwasanaeth posib<br>Y gweithlu<br>Aelodau etholedig |

**2.2 Pa gamau ydych chi wedi ei gymryd i ymgysylltu gyda pobl hefo nodweddion cydraddoldeb?**

**Yn bresennol**

Ni ragwelir effaith ar ddefnyddwyr gwasanaeth ond mi fyddai'n briodol ail- ymweld â'r angen yma ar ddiwedd y broses gwerthuso opsiynau i wirio unrhyw gasgliadau neu ragdybiaethau a wnaed. Gan na ragwelir effaith ni ystyrir yn briodol ymgynghori a'r cyhoedd.

Ers cyhoeddi'r bwriad i edrych ar y maes yma mae'r Uwch Reolwr wedi rhyddhau 2 newyddlen sy'n briffio staff ar y bwriad, y rhesymau dros ystyried newid a'r goblygiadau posib yn sgil unrhyw newid. Mae'r newyddlen yno'n gwahodd cwestiynau neu sylwadau gan staff ond ni dderbyniwyd dim hyd yma.

Mae'r Uwch Rheolwr hefyd wedi ymweld â'r Canolfannau Hamdden i gyd er mwyn cyfarfod y staff ac i amlinellu'r cynllun arfaethedig. Yn gyffredinol ni dderbyniwyd llawer o ymateb gyda'r unig gwestiynau yn ymwneud a pharhad cyflogaeth.

Mae bwriad i barhau gyda'r trefniadau ymgysylltu yn unol ag amseriad cherrig milltir allweddol yn ystod y cyfnod gwerthuso a phroses penderfynu.

Mae'r newyddlen wedi ei rannu gyda'r Undebau Llafur ac mae gwahoddiad agored am gyfarfod briffio agoriadol. Hyd yma mae cyfarfod wedi ei gynnal gydag un o'r undebau gyda cytundeb i barhau gyda'r diweddariadau yn ystod y cyfnod gwerthuso a phroses penderfynu.

**Yn flaenorol**

Casglwyd tystiolaeth fel rhan o ymgynghoriad Her Gwynedd

**2.3 Beth oedd canlyniad yr ymgysylltu?**

Dim cwestiynau wedi eu derbyn hyd yma gan staff.

Roedd y dystiolaeth a gasglwyd yn ystod Her Gwynedd yn cyfleu pwysigrwydd y gwasanaeth i drigolion. Ar hyn o bryd fodd bynnag ni ragwelir effaith ar ddefnyddwyr a staff.

**2.4 Ar sail pa dystiolaeth arall ydych chi'n gweithredu?**


Mae'r Cyngor yn darparu a rheoli 12 Canolfan Hamdden ar draws y Sir gydag oddeutu 17,000 o aelodau a 1.5 miliwn o ymweliadau'r flwyddyn.

Mae'r ddarpariaeth bresennol yn golygu fod 27% o boblogaeth Gwynedd yn byw o fewn milltir i Ganolfan Hamdden a bod dim anheddau yn byw mwy nag 18 milltir.

Mae'r aelodaeth bresennol gyfystyr a thua 14% o boblogaeth Gwynedd.

O'r 17,000 o aelodau mae 55.4% o'r aelodau yn blant 0 i 16oed, 27% yn Oedolion 24 i 60 oed a 9.3% dros 65oed.

Pellter o Ganolfan Hamdden Cyngor Gwynedd



Mae'r gwriant gros y gwasanaeth hamdden yn bron i £5m y flwyddyn ond fe ddenir £3.1m o incwm drwy ffioedd aelodaeth a mynediad yn bennaf. Mae'r Cyngor felly'n cymorthdalu bron i £1.9m o'r gwasanaeth hamdden. Ers 2014/15 mae'r cymhorthdal yma wedi gostwng o £900k sydd gyfystyr a thua 33%.

**2.5 Oes yna unrhyw fylchau yn y dystiolaeth sydd angen ei gasglu?**

Bydd gofyn ail-ymweld a'r angen i ganfod fwy o dystiolaeth ar ddiwedd y broses werthuso a chyn unrhyw benderfyniad i weithredu.

**3) Adnabod yr Effaith**

**3.1 Beth yw'r effaith fydd y polisi/gwasanaeth newydd neu'r newidiadau yn y polisi neu wasanaeth yn ei gael ar bobl hefo nodweddion cydraddoldeb**

| **Nodweddion** | **Sut fath o effaith?** (dylech ddileu'r rhai amherthnasol) | **Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth?** |
|---|---|---|
| **Hil (gan gynnwys cenedligrwydd)** | Dim | Nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw newid i'r gwasanaeth fydd yn cael ei gynnig. Bydd y Cyngor yn sicrhau, pe byddwn yn penderfynu ar |

| | | |
|---|---|---|
| **Yr iaith Gymraeg** | Dim | fodel amgen, y bydd anghenion gwahanol nodweddion yn cael yr un ystyriaeth ac maent yn gael yn bresennol. Nid ydym yn disgwyl y bydd unrhyw effaith felly ar bobl gyda nodweddion penodol. Wedi dweud hynny, os bydd effaith yn cael ei amlygu ar un rhyw bwynt wrth ddatblygu'r cynllun, byddwn yn ail ymweld â'r asesiad yma. |
| **Anabledd** | Dim | |
| **Rhyw** | Dim | |
| **Oedran** | Dim | |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Dim | |
| **Crefydd neu gred (neu ddiffyg cred)** | Dim | |
| **Ailbennu rhywedd** | Dim | |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Dim | |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Dim | |

**3.2 Ydi'r polisi neu wasanaeth yn ateb y Dyletswyddau Cyffredinol yma?**

| Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb | Dylid dileu'r rhai amherthnasol | Ym mha ffordd? Beth yw'r dystiolaeth? |
|---|---|---|
| **Cael gwared â cham-wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | Nid ydym yn rhagweld y bydd unrhyw newid i'r gwasanaeth fydd yn cael ei gynnig. Bydd y Cyngor yn sicrhau, pe byddwn yn penderfynu ar fodel amgen, y bydd anghenion gwahanol nodweddion yn cael yr un ystyriaeth ac maent yn cael yn bresennol. Nid ydym yn disgwyl y bydd unrhyw effaith felly ar ddyletswyddau'r Cyngor dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Wedi dweud hynny, os bydd effaith yn cael ei amlygu ar un rhyw bwynt wrth ddatblygu'r cynllun, byddwn yn ail ymweld â'r asesiad yma. |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Nac ydi | |
| **Meithrin perthnasau da** | Nac ydi | |

## 4) Dadansoddi'r canlyniadau

**4.1 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, bositif ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Dim effaith wedi ei adnabod ar hyn o bryd |

**4.2 Ydi'r polisi felly'n debygol o gael effaith sylweddol, negyddol ar unrhyw un o'r nodweddion cydraddoldeb neu'r Ddyletswydd Gyffredinol a beth yw'r rheswm am hyn?**

| |
|---|
| Dim effaith wedi ei adnabod ar hyn o bryd |

**4.3 Beth ddylid ei wneud?**

Dewiswch un o'r canlynol:

| | |
|---|---|
| Parhau gyda'r polisi / gwasanaeth gan ei fod yn gadarn | X |
| Addasu'r polisi i ddileu unrhyw rwystrau | |
| Atal a dileu'r polisi gan fod yr effeithiau niweidiol yn rhy fawr | |
| Parhau a'r polisi oherwydd gellir cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol | |

**4.4 Pa gamau fyddwch chi'n cymryd i leihau neu liniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

| |
|---|
| Dim yn berthnasol ar hyn o bryd |

**4.5 Os nad ydych yn gweithredu ymhellach i ddileu neu leihau effeithiau negyddol, esboniwch pam yma.**

| |
|---|
| Dim yn berthnasol ar hyn o bryd |

**5) Monitro**

**5.1 Pa gamau fyddwch chi'n cymryd i fonitro effaith ac effeithiolrwydd y polisi neu wasanaeth (cynllun gweithredu)?**

| |
|---|
| Ar hyn o bryd yr angen yw diweddaru'r asesiad yma yn ôl y galw. |

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **3ydd o Hydref 2017** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dyfrig Siencyn** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Dewi W. Jones** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679233** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Bwletin Perfformiad Awdurdod Lleol 2016-17** |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

1.1. Derbyn a nodi'r wybodaeth yn y Bwletin Perfformiad.

1.2. Gofyn i'r Aelodau Cabinet perthnasol sicrhau eu bod yn:

a) Bodloni eu hunain fod camau yn eu lle er mwyn gwella'r sefyllfa gan roi sylw i'r mesurau sy'n ymddangos o fewn y colofnau sydd wedi eu lliwio yn felyn yn **Nhabl 1** yn y cylch nesaf o gyfarfodydd herio perfformiad a gynhelir ym mis Tachwedd.

b) Adrodd yn ôl ar unrhyw sylwadau sy'n crynhoi'r cyd-destun perfformiad ac unrhyw gamau ar gyfer gwella sydd wedi eu cytuno fel rhan o adroddiadau perfformiad Aelodau unigol yn y cylch adrodd nesaf ym mis Ionawr.

2. **Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

2.1. Er mwyn sicrhau fod camau priodol wedi eu rhoi yn eu lle i wella perfformiad mesurau sy'n perfformio yn waeth na gweddill Cymru.

3. **CYFLWYNIAD**

3.1. Yn flynyddol mae Uned Data Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi Bwletin Perfformiad ar gyfer Awdurdodau Lleol Cymru. Mae'r Bwletin yn dewis set gyfyngedig o ddangosyddion perfformiad ac yn eu cymharu ar draws Cymru. Cyhoeddwyd y Bwletin diweddaraf ar y **13eg o Fedi** ac mae'n cynnwys gwybodaeth ar berfformiad y set o ddangosyddion perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol yn 2016-17.

3.2. Ceir copi llawn o'r Bwletin Perfformiad er gwybodaeth yn **Atodiad 2.**

3.3. Fe sylwch nad yw data Gofal Cymdeithasol wedi ei gynnwys yn y Bwletin a rhagwelir y bydd y rhain yn cael eu cyhoeddi ar wahân yn ystod mis Hydref.

3.4. Er bod y wybodaeth yn crynhoi perfformiad Gwynedd yn y mesurau cenedlaethol ac yn galluogi cymhariaeth hefo gweddill Cymru mae'n bwysig cofio nad ydynt yn cynrychioli ein holl wasanaethau, nac yn adlewyrchiad

cytbwys o berfformiad y Cyngor yn ei gyfanrwydd.

3.5. Nid yw rhai o'r mesurau yn cael eu hystyried gan y gwasanaethau i fod yn rai sy'n mesur yr hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd (ac felly nad ydynt yn cael eu trin fel mesurau gan ein gwasanaethau), ac mae'r rhain wedi eu nodi ar gefndir llwyd yn y tabl isod.

3.6. Mae **Tabl 1** yn rhannu'r 24 o fesurau i 4 categori bras (ar sail perfformiad yn erbyn gweddill Cymru, a p'run ai ydynt wedi gwella yn erbyn y flwyddyn cynt).

**Tabl 1: Crynodeb perfformiad mesurau cenedlaethol Gwynedd 2016/17**

| | Perfformiad wedi gwella (neu'n gyson) ers 2015/16 | Perfformiad wedi gwaethygu ers 2015/16 |
|---|---|---|
| Perfformiad cymharol well na gweddill Cymru (Hanner uchaf) | • EDU/002ii: % disgyblion 15 oed mewn gofal adawodd heb gymhwyster<br>• EDU/003: % disgyblion CA2 gyrhaeddodd Dangosydd Pynciau Craidd<br>• EDU/006ii: % disgyblion CA3 gafodd asesiad athrawon yn Gymraeg (iaith gyntaf)<br>• EDU/015b: % datganiadau terfynol AAA roddwyd mewn 26 wythnos (heb eithriadau)<br>• EDU/017: % disgyblion 15 oed gyflawnodd TL2+<br>• EDU/004: % disgyblion CA3 gyrhaeddodd Dangosydd Pynciau Craidd<br>• EDU/016a: % presenoldeb disgyblion cynradd<br>• EDU/016b: % presenoldeb disgyblion uwchradd<br>• STS/006: % achosion tipio gwastraff anghyfreithlon a gliriwyd o fewn 5 dydd gwaith<br>• PPN/009: % sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio'n fras' â safonau hylendid bwyd<br>• LCS/002b: Nifer ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden fesul 1000 poblogaeth | • EDU/011: Cyfartaledd sgôr pwyntiau disgyblion 15 oed<br>• PLA/006b: Nifer unedau tai fforddiadwy ychwanegol, fel % o holl unedau tai ychwanegol<br>• CAM/037: % newid yn sgôr Tystysgrif Arddangos Ynni adeiladau cyhoeddus<br>• STS/005b: % priffyrdd sydd o safon glendid uchel / derbyniol<br>• CHR/002: nifer dyddiau gwaith gollwyd oherwydd salwch fesul gweithiwr |
| Perfformiad cymharol waeth na gweddill Cymru (Hanner isaf) | • EDU/002i: % disgyblion 15 oed adawodd heb gymhwyster<br>• WMT/004b: % gwastraff trefol anfonwyd i safle tirlenwi<br>• WMT/009b: % gwastraff trefol gafodd ei ailgylchu / ailddefnyddio<br>• THS/007: % oedolion 60+ oed sy'n ddeiliaid tocynnau teithio bws | • EDU/015a: % datganiadau terfynol AAA roddwyd mewn 26 wythnos (cynnwys eithriadau)<br>• PSR/002: nifer dyddiau gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau Anabl<br>• PSR/004: % anheddau sector breifat gwag a adfeddiannwyd o ganlyniad i weithredu gan yr ALl<br>• THS/012: % prif ffyrdd sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol<br>• LCL/001b: Nifer ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus fesul 1000 poblogaeth |

3.7. Fe welir fod bron i hanner y mesurau (11) yn y categori lle mae ein perfformiad yn gymharol well na gweddill Cymru gyda'r perfformiad wedi gwella neu aros yn gyson ers 2015/16.

3.8. Mae gweddill y mesurau yn y categorïau lle mae perfformiad unai yn gymharol well na gweddill Cymru ond wedi gwaethygu ers 2015/16 neu lle mae perfformiad yn gymharol waeth na gweddill Cymru (unai wedi gwella neu waethygu ers 2015/16).

3.9. Er mwyn deall y tueddiadau yn well a bodloni eu hunain fod camau yn eu lle er mwyn gwella'r sefyllfa awgrymir fod yr Aelodau Cabinet perthnasol yn rhoi sylw i'r mesurau sy'n dod o fewn y categorïau hyn (colofnau wedi eu lliwio yn felyn) yn y cylch nesaf o gyfarfodydd herio perfformiad fydd yn cael eu cynnal ym mis Tachwedd.

3.10. Yn ogystal, awgrymir bod unrhyw sylwadau sy'n crynhoi'r cyd-destun perfformiad ac unrhyw gamau ar gyfer gwella sydd wedi eu cytuno yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Cabinet fel rhan o adroddiadau perfformiad Aelodau unigol yn y cylch adrodd nesaf.

3.11. Ceir dadansoddiad pellach o'r perfformiad yn **Atodiad 1** ac ar y dudalen gyntaf ceir rhywfaint o fanylder ynghylch y mesurau gan ddangos rhai o elfennau allweddol y data ei hun (ffigyrau Gwynedd a gweddill Cymru, chwarteli, safle yng Nghymru ayb) ar gyfer 2015/16 a 2016/17.

## 4. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

4.1. Aelodau Cabinet unigol i roi sylw i'r mesurau sydd o fewn y categorïau sydd wedi eu lliwio yn felyn yn y cylch nesaf o gyfarfodydd herio perfformiad ym mis Tachwedd ac i adrodd ar gyd-destun perfformiad mesurau unigol ynghyd ac unrhyw gamau ar gyfer gwella yn eu hadroddiadau perfformiad ym mis Ionawr.

## 5. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

5.1. **Barn y Swyddogion Statudol:**

**i. Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodolodeb

**ii. Y Pennaeth Cyllid:**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol

| Cymhariaeth mesurau cenedlaethol Gwynedd 2015/16 a 2016/17 | | 2015/16 | | | | | | 2016/17 | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Cyfeiriadg welliant | Chwartel isaf Cymru | Canolrif Cymru | Chwartel uchaf Cymru | Ffigwr Gwynedd | Chwartil Gwynedd (1 = 'gorau'; 4 = 'gwaethaf') | Safle Gwynedd (1 = 'gorau'; 22 ='gwaethaf') | Chwartel isaf Cymru | Canolrif Cymru | Chwartel uchaf Cymru | Ffigwr Gwynedd | Chwartil Gwynedd (1 = 'gorau'; 4 = 'gwaethaf') | Safle Gwynedd (1 = 'gorau'; 22 ='gwaethaf') | Tuedd 2015/16 i 2016/17 - ffigwr Gwynedd | Tuedd 2015/16 i 2016/17 - chwartil Gwynedd |
| EDU/002i: Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal ALL) sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd | < | 0.2 | 0.1 | 0.0 | 0.2 | 3 | 15 | 0.2 | 0.1 | 0.0 | 0.2 | 4 | 17 | cyson | gwaethygu |
| EDU/002ii: Canran y disgyblion sydd yng ngofal ALL, sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd | < | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 1 | 1 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 0.0 | 1 | 1 | cyson | cyson |
| EDU/003: Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon | > | 87.4 | 87.9 | 89.4 | 89.5 | 1 | 6 | 88.0 | 88.9 | 89.9 | 89.8 | 2 | 7 | gwella | gwaethygu |
| EDU/006ii: Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 | > | 7.2 | 11.7 | 19.4 | 83.2 | 1 | 1 | 6.0 | 12.9 | 19.4 | 83.7 | 1 | 1 | gwella | cyson |
| EDU/011: Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol | > | 510.5 | 541.4 | 568.8 | 617.2 | 1 | 1 | 501.4 | 538.1 | 554.6 | 596.6 | 1 | 2 | gwaethygu | cyson |
| EDU/015a: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau, gan gynnwys eithriadau | > | 45.6 | 78.3 | 96.2 | 42.4 | 4 | 17 | 63.7 | 84.5 | 99.1 | 41.7 | 4 | 22 | gwaethygu | cyson |
| EDU/015b: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau, heb gynnwys eithriadau | > | 94.7 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 1 | 1 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 1 | 1 | cyson | cyson |
| EDU/017: Canran y disgyblion 15 oed ar y 31ain Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd A*-C TGAU mewn Cymraeg mamiaith neu Saesneg a Mathemateg | > | 54.2 | 57.6 | 62.3 | 63.3 | 1 | 5 | 56.9 | 60.6 | 65.1 | 67.5 | 1 | 2 | gwella | cyson |
| EDU/004: Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon | > | 81.7 | 84.3 | 87.2 | 91.3 | 1 | 1 | 84.1 | 86.5 | 88.2 | 92.0 | 1 | 2 | gwella | cyson |
| EDU/016a: Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd | > | 94.7 | 94.9 | 95.2 | 95.0 | 2 | 8 | 94.7 | 94.9 | 95.3 | 95.4 | 1 | 3 | gwella | gwella |
| EDU/016b: Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd | > | 93.3 | 93.8 | 94.3 | 94.6 | 1 | 4 | 93.7 | 94.3 | 94.5 | 95.1 | 1 | 1 | gwella | cyson |
| PSR/002: Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl | < | 269 | 235 | 189 | 271 | 4 | 18 | 281 | 235 | 190 | 287 | 4 | 19 | gwaethygu | cyson |
| PSR/004: Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol | > | 3.90 | 6.43 | 13.82 | 5.13 | 3 | 15 | 3.87 | 6.41 | 11.77 | 3.98 | 3 | 14 | gwaethygu | cyson |
| PLA/006(b): Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran yr holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn | > | 26 | 33 | 51 | 96 | 1 | 1 | 31 | 38 | 50 | 38 | 2 | 11 | gwaethygu | gwaethygu |
| CAM/037: Canran y newid yn sgôr gyfartalog Tystysgrif Arddangos Ynni o fewn adeiladau cyhoeddus awdurdodau lleol dros 1,000 o fetrau sgwâr | > | 1.2 | 4.1 | 5.7 | 11.2 | 1 | 2 | -0.4 | 3.1 | 4.1 | 8.0 | 1 | 1 | gwaethygu | cyson |
| WMT/004(b): Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a anfonir i safle tirlenwi | < | 24.69 | 14.56 | 12.08 | 34.33 | 4 | 21 | 11.66 | 4.54 | 2.37 | 31.01 | 4 | 21 | gwella | cyson |
| WMT/009(b): Canran y gwastraff trefol a gesglir gan ALL a gaiff ei baratoi ar gyfer ailddefnyddio a'i ailgylchu/neu ei ailgylchu, gan gynnwys deunyddiau biowastraff wedi'u gwahanu yn eu tarddle ac a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall | > | 58.54 | 59.61 | 62.18 | 58.70 | 3 | 16 | 62.63 | 64.89 | 65.72 | 61.08 | 4 | 19 | gwella | gwaethygu |
| STS/006: Canran yr achosion o dipio gwastraff yn anghyfreithlon y rhoddwyd gwybod amdanynt ac y cliriwyd y gwastraff o fewn 5 niwrnod gwaith | > | 94.54 | 96.68 | 97.88 | 96.28 | 3 | 12 | 93.36 | 96.85 | 98.22 | 97.43 | 2 | 7 | gwella | gwella |
| STS/005b: Canran y priffyrdd a arolygwyd sydd o safon glendid uchel neu dderbyniol | > | 93.6 | 96.7 | 98.1 | 96.7 | 2 | 10 | 94.0 | 96.0 | 98.6 | 96.4 | 2 | 10 | gwaethygu | cyson |
| THS/007: Canran yr oedolion sy'n 60 oed neu drosodd sy'n ddeiliaid tocynnau teithio rhatach ar y bws | > | 79.0 | 86.7 | 91.7 | 79.0 | 4 | 17 | 81.3 | 85.5 | 92.4 | 80.0 | 4 | 18 | gwella | cyson |
| THS/012: Canran y prif ffyrdd (dosbarth A),ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (B) a ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol | < | 9.4 | 7.7 | 5.3 | 10.7 | 4 | 18 | 9.0 | 6.7 | 5.3 | 11.0 | 4 | 19 | gwaethygu | cyson |
| PPN/009: Canran y sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio'n fras' â safonau hylendid bwyd | > | 92.71 | 94.28 | 95.66 | 97.96 | 1 | 2 | 94.20 | 95.04 | 96.52 | 98.82 | 1 | 2 | gwella | cyson |
| CHR/002: Nifer y diwrnodau/sifftiau gwaith wedi colli oherwydd salwch, fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn | < | 11.0 | 10.2 | 9.6 | 8.4 | 1 | 2 | 10.8 | 10.4 | 9.7 | 9.0 | 1 | 4 | gwaethygu | cyson |
| LCL/001(b): Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth | > | 4,319 | 4,748 | 5,692 | 4,309 | 4 | 17 | 4,281 | 4,835 | 5,828 | 3,908 | 4 | 20 | gwaethygu | cyson |
| LCS/002(b): Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth, pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol | > | 7,433 | 8,231 | 9,382 | 10,278 | 1 | 3 | 7,626 | 8,374 | 9,056 | 11,010 | 1 | 2 | gwella | cyson |

UNED DDATA LLYWODRAETH LEOL ~ CYMRU
LOCAL GOVERNMENT DATA UNIT ~ WALES

# Perfformiad Llywodraeth Leol 2016-17

Mae'n bleser gennym gyflwyno hwn, y deuddegfed bwletin blynyddol ar berfformiad awdurdodau lleol. Mae'r bwletin hwn yn cynnwys gwybodaeth am amrediad o wasanaethau awdurdodau lleol. Rydym wedi defnyddio'r data i amlygu lefel gyffredinol ac amrediad perfformiad ar hyd a lled Cymru. Mae'r set ddata lawn ar gael ar ein gwefan.

Rydym hefyd wedi diweddaru pecyn rhyngweithiol newydd sy'n gadael i'r cyhoedd, cynghorwyr, swyddogion a phartneriaid gymharu perfformiad cynghorau ledled Cymru a thros amser yn rhwydd. Cafodd "FyNghyngorLleol" (www.fynghyngorlleol.info) ei ddylunio i fod yn sythweledol ac yn hawdd ei ddefnyddio i'r wybodaeth berfformiad allweddol ddiweddaraf i 22 cyngor Cymru fod yn fwy hygyrch.

Nodwch: Bu newidiadau sylweddol i'r Fframwaith Gwella Perfformiad yng Nghymru ers y Bwletin diwethaf, gyda'r rhan fwyaf o'r dangosyddion gofal cymdeithasol yn cael ei ddileu. Nid oes data ar gyfer y tair ddangosydd sydd ar ôl ar gael eto. Mae absenoldeb data ar gyfer y maes gwasanaeth hwn yn golygu bod y set ddata fel y cyhoeddwyd ddim yn rhoi darlun cyflawn o berfformiad ar gyfer 2016-17.

Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu mesurau gofal cymdeithasol newydd ac rydym yn bwriadu cynnwys sawl o rain yn y set ddata yn y dyfodol. Yn fwy cyffredinol, rydym wedi mireinio'r set ddata ar gyfer 2017-18 ac ymlaen. Bydd y fframwaith diwygiedig hwn yn parhau i roi trosolwg clir a syml o berfformiad llywodraeth leol.

## Manylion cyswllt

Os oes angen unrhyw wybodaeth bellach arnoch mewn perthynas â'r Bwletin hwn cysylltwch â:

**Suzanne Draper**

Uwch Ymgynghorydd Gwelliant
Uned Ddata Llywodraeth Leol ~ Cymru

☎ 029 2090 9500
✉ ymholiadau@unedddatacymru.gov.uk

Cyhoeddir y set ddata gyflawn o ddangosyddion perfformiad ar ein gwefan (www.unedddatacymru.gov.uk).

# Perfformiad cyffredinol

Ar lefel Cymru, roedd 64% (16) o'r 25[1] o ddangosyddion sy'n gymaradwy rhwng 2015-16 a 2016-17 yn dangos gwelliant.

Cafodd y bwlch mewn perfformiad (rhwng yr awdurdodau sy'n perfformio orau a'r rhai gwaethaf) ei gulhau mewn 52% (13) o'r dangosyddion.

Yn achos 36% (9) o'r dangosyddion, gwellodd perfformiad a chulhaodd y bwlch rhwng yr awdurdodau sy'n perfformio orau a'r rhai gwaethaf.

# Gwelliant gwasanaethau


Yn aml, awdurdodau lleol yw un o gyflogwyr mwyaf ardal gan ddarparu amrediad o wasanaethau i'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu. Mae'r tabl isod yn dangos perfformiad y gwasanaethau hyn yn 2016-17 o'u cymharu â 2015-16.

| ***Maes Gwasanaeth*** | ***Nifer y dangosyddion cymaradwy*** | ***% o ddangosyddion lle gwellodd perfformiad*** | ***% o ddangosyddion lle culhawyd y bwlch*** | ***% o ddangosyddion lle gwellodd perfformiad a chulhawyd y bwlch*** |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Addysg | 11 | 64% | 45% | 36% |
| Tai | 2 | 50% | 0% | 0% |
| Amgylchedd a Thrafnidiaeth | 7 | 86% | 86% | 71% |
| Cynllunio a Gwasanaethau Rheoleiddio | 2 | 50% | 50% | 0% |
| Hamdden a Diwylliant | 2 | 50% | 50% | 0% |
| Iechyd Corfforaethol | 1 | 0% | 0% | 0% |
| ***Cyffredinol*** | ***25*** | ***64%*** | ***52%*** | ***36%*** |

# Gwelliant dros amser


Parhaodd perfformiad awdurdodau lleol ledled Cymru i wella.

[1] Mae yna llai o ddangosyddion cymaradwy yn 2016-17 o ganlyniad i'r data mesurau gofal cymdeithasol heb fod ar gael. Roedd yna 40 o ddangosyddion cymaradwy yn 2015-16.




Y llynedd fe wnaethom adrodd bod 65% o'r dangosyddion perfformiad cymaradwy wedi dangos gwelliant dros y cyfnod hynnu. Yn 2016-17, mae 64% o'r dangosyddion cymaradwy yn dangos gwelliant ar lefel Cymru, ac mae pob awdurdod wedi gwella neu cynnal ei perfformiad mewn mwy na hanner y dangosyddion.


Ar lefel lleol, o'r 25[2] dangosydd sydd yn gymaradwy rhwng 2015-16 a 2016-17, gwellodd Sir y Fflint mewn 17 (68%), tra gwnaeth Ceredigion a Pen-y-Bont ar Ogwr wella mewn 10 (40%).




[2] Mae yna llai o ddangosyddion cymaradwy yn 2016-17 o ganlyniad i'r data mesurau gofal cymdeithasol heb fod ar gael. Roedd yna 40 o ddangosyddion cymaradwy yn 2015-16.

# Perfformiad cymharol ar draws Cymru

Tra bod gwelliant eithafol yn bwysig, bydd gan dinasyddion ddiddordeb mewn sut mae eu hawdurdod yn cymharu ag eraill. Yn gyffredinol yn 2016-17, roedd gan Fro Morgannwg a Sir Fynwy fwy o ddangosyddion yn y chwarter uchaf o awdurdodau lleol Cymru, tra roedd gan Gasnewydd y lleiaf.





Ar y tudalennau sy'n dilyn fe welwch wybodaeth manwl am berfformiad awdurdodau lleol wrth iddynt ddarparu canlyniadau pwysig i'n cymunedau.


# Darparu amgylchedd glân a diogel…

Awdurdodau lleol sy'n sicrhau bod y mannau lle rydym yn byw ac yn gweithio yn lân ac yn ddiogel.


Ledled Cymru, roedd 97% o briffyrdd a thir perthnasol a archwiliwyd o safon uchel neu foddhaol o lendid yn 2016-17. Roedd hyn yn amrywio o 100% yng Ngheredigion i 90% yng Nghaerdydd.





Cododd lefel glendid yng Ngheredigion gan 7 pwynt canran, tra roedd y lefel glendid yn Sir Ddinbych yn 7 pwynt canran yn llai na llynedd.




Yn 2016-17, roedd 10.7% o holl ffyrdd a gynhelir gan awdurdodau lleol mewn cyflwr "gwael" cyffredinol o'u cymharu ag 11.2% yn 2015-16. Roedd hyn yn amrywio o 3.4% yn Sir y Fflint i 18.8% ym Mhowys.




Ledled Cymru gwellodd cyflwr ffyrdd cyffredinol gan 2.9 pwynt canran yn Sir Fynwy a gwaethygodd gan 0.9 pwynt canran yng Nghaerdydd rhwng 2015-16 a 2016-17.




Mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am gynnal prif ffyrdd 'A', ffyrdd dosbarth 'B' a ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd dosbarth 'C'.





Yn 2016-17, fel yn 2015-16, roedd 3.7% o ffyrdd dosbarth A mewn cyflwr "gwael". Roedd hyn yn amrywio o 1.5% yn Sir y Fflint i 5.9% yn Fro Morgannwg.


Yn debyg, roedd 4.2% o ffyrdd dosbarth B mewn cyflwr "gwael" yn 2016-17 o'u cymharu â 4.3% in 2015-16, yn amrywio o 1.3% yn Sir y Fflint i 8.6% yn Ferthyr Tudful.

Mae'r canran o ffyrdd dosbarth C mewn cyflwr "gwael" wedi parhau i leihau. Roedd 15.0% mewn cyflwr "gwael" yn 2016-17 o'u cymharu â 15.9% yn 2015-16. Ledled Cymru roedd hyn yn amrywio o 5.0% yn Sir y Fflint i 24.4% ym Mhowys.

Gwelodd bron i bob awdurdod lleol cynnydd yn ganran yr oedolion 60 oed neu'n hŷn sydd â cherdyn bws rhatach rhwng 2015-16 a 2016-17. Ar lefel Cymru, cododd y canran o 86% i 87%. Roedd hyn yn amrywio o 99% yng Nghaerdydd i 71% ym Mhowys.




Mae tipio anghyfreithlon yn drosedd amgylcheddol difrifol sy'n gallu achosi halogi hirdymor, llygredd a pheri risg i iechyd dynol. Mae'n ofynnol i awdurdodau lleol lanhau digwyddiadau tipio anghyfreithlon graddfa fach ar dir cyhoeddus o fewn pum niwrnod gwaith ar ôl iddynt gael eu hadrodd. Yn 2016-17, cafodd 95.4% o ddigwyddiadau tipio anghyfreithlon a adroddwyd i awdurdodau lleol eu clirio o fewn pum niwrnod gwaith. Roedd hyn yn amrywio o 100.0% yn Ferthyr Tudful i 69.7% yng Nghastell Nedd Port Talbot.




Mae awdurdodau lleol yn helpu i ddiogelu'r bwyd rydym yn ei fwyta gan weithio gyda sefydliadau bwyd i sicrhau eu bod yn "cydymffurfio'n fras" â safonau hylendid bwyd. Yn 2016-17 roedd 95% o sefydliadau bwyd yn "cydymffurfio'n fras", yn amrywio o 99% yng Ngwynedd a Wrecsam i 90% ym Mlaenau Gwent.


*Nodyn: Mae sefydliad sy'n "cydymffurfio'n fras" yn un lle nad oes unrhyw broblemau arwyddocaol o ran hylendid bwyd. Diffinnir y term "cydymffurfio'n fras" yn llawn yn yr arweiniad i ddangosyddion perfformiad ar ein gwefan.*

Mae canran y sefydliadau bwyd sy'n "cydymffurfio'n fras" wedi cynyddu'n gyson ers 2010-11, gyda 2016-17 yn weld cynnydd o 1 pwynt canran ar lynedd. Dros yr un cyfnod, cynyddodd canran y sefydliadau bwyd sy'n "cydymffurfio'n fras" gan 6 pwynt canran yn Wrecsam a gostyngodd yng Nghaerdydd gan 2 pwynt canran.





O hybu effeithlonrwydd ynni, i sicrhau bod adnoddau'n cael eu hailddefnyddio a'u hailgylchu, mae awdurdodau lleol yn chwarae rhan fawr mewn helpu i sicrhau'r dyfodol am y genhedlaeth nesaf.

Yn 2016-17, gostyngodd defnydd ynni ar draws adeiladau cyhoeddus awdurdodau lleol gan 1.9%. Ar draws Cymru amrywiodd hyn o gostyngiad o 8.0% yng Ngwynedd a cynnydd o 5.4% yn Ferthyr Tudful.





Awdurdodau lleol sy'n casglu ac yn prosesu ein gwastraff. Mae'r lle sydd ar gael ar gyfer tirlenwi yng Nghymru yn prysur ddirwyn i ben ac mae trethi tirlenwi yn golygu na allwn fforddio parhau i anfon gwastraff i dirlenwi. Gall tirlenwi achosi llygredd i aer, pridd a dŵr. Bydd datblygu dulliau o atal gwastraff, lleihau'r gwastraff sy'n mynd i dirlenwi a chynyddu ailgylchu, compostio a threulio anaerobig yn cael effaith arwyddocaol ar ein gallu i oresgyn newid yn yr hinsawdd.


Yn 2016-17, anfonwyd 9.5% o'r gwastraff trefol a gafodd ei gasglu gan awdurdodau lleol i dirlenwi, o'i gymharu â 18.1% yn 2015-16. Roedd hyn yn amrywio o 0.5% yn Sir y Fflint i 32.2% yn Abertawe.





Mae canran y gwastraff a anfonwyd i dirlenwi wedi parhau i ostwng yn raddol ers 2012.





Yn 2016-17 lleihaodd pob awdurdod lleol ond un y gwastraff a anfonwyd at dirlenwi. Rhwng 2015-16 a 2016-17, gwelodd Ceredigion cynnydd o 0.5 pwynt canran.





Cafodd 63.8% o'r gwastraff trefol a gasglwyd ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio yn 2016-17 o'i gymharu â 60.2% yn 2015-16. Roedd hyn yn amrywio o 70.1% yng Ngheredigion i 56.8% ym Mlaenau Gwent.




Mae canran y gwastraff sydd wedi ei ailddefnyddio, ei ailgylchu neu ei gompostio wedi parhau i wella yn ystod y blynyddoedd diwethaf.




Yn 2016-17, cynyddodd pob awdurdod lleol, ond dau, canran y gwastraff wedi ailgylchu, ailddefnyddio neu ei gompostio. Rhwng 2015-16 a 2016-17 gwelodd Caerdydd gostyngiad o 0.1 pwynt canran a Pen-y-Bont ar Ogwr gostyngiad o 1.1 pwynt canran.




# Darparu tai fforddiadwy a phriodol…

*Nodyn: Y diffiniad cyffredinol o fforddiadwyedd yw gallu aelwydydd i brynu eiddo sy'n diwallu anghenion yr aelwyd heb unrhyw gymhorthdal*

Mae gan awdurdodau lleol rôl allweddol i'w chwarae mewn sicrhau bod cyflenwad digonol o dai fforddiadwy i ddiwallu'r angen sydd wedi ei nodi. Yn 2016-17, tai fforddiadwy oedd 36%[3] o'r holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd, fel ag yn 2015-16.


I bobl anabl o bob oedran, mae tai yn ddull allweddol o alluogi byw yn annibynnol. Mae tai wedi eu haddasu yn galluogi pobl i gadw eu hannibyniaeth, aros yn eu cymunedau ac arfer dewis o ran sut maent yn byw eu bywydau. Gall Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl helpu tuag at gost addasu cartref rhywun sy'n anabl.

Cymerodd awdurdodau lleol gyfartaledd o 224 diwrnod i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn 2016-17, o'u cymharu â 241 o ddiwrnodau yn 2015-16.





Yn 2016-17, gostyngodd y nifer cyfartalog o ddiwrnodau cymerodd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl gan 79 diwrnod ym Mhen-y-Bont ar Ogwr, a chynyddodd y nifer cyfartalog o ddiwrnodau gan 105 yn Sir Fynwy.


[3] Mae'r data wedi'i ddefnyddio i gyfrifo'r dangosydd yma yn wahanol i hynny a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru oherwydd diweddariad wedi'i derbyn gan Gyngor Sir y Fflint.





Yn 2016-17, roedd nifer cyfartalog y diwrnodau a gymerwyd i ddarparu Grant Cyfleusterau i'r Anabl yn amrywio o 126 o ddiwrnodau ym Mhowys i 356 o ddiwrnodau yn Sir Fynwy.




Mae tai gwag yn ddarpar adnodd tai sydd, o bosibl, yn cael ei danddefnyddio ar hyn o bryd. Cafodd 8.8% o anheddau sector preifat gwag hirdymor eu dychwelyd i ddeiliadaeth drwy weithredu uniongyrchol gan awdurdodau lleol yn 2016-17. Roedd hyn yn amrywio o 42.4% yng Nghastell Nedd Port Talbot i 0.8% yng Nghaerdydd.





Rhwng 2015-16 a 2016-17 cynyddodd chwe awdurdod lleol canran yr anheddau gwag hirdymor y sector preifat eu dychwelodd i ddeiliadaeth drwy weithredu uniongyrchol.




# Addysgu plant...

Mae ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol yng Nghymru yn addysgu tua 470 mil o blant bob blwyddyn.


Mae presenoldeb da yn bwysig er mwyn i blant ddysgu. Yn 2016-17, gostyngodd presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd o 95.0% yn 2015-16 i 94.9%. Ar draws Cymru, gostyngodd presenoldeb mewn ysgolion cynradd mewn dros hanner o awdurdodau lleol.





Yn ystod yr un cyfnod, parhaodd presenoldeb ysgolion uwchradd i gynyddu, yn codi o 93.9% yn 2015-16, i 94.2% yn 2016-17.



Yn 2016-17, gostyngodd y sgôr pwyntiau cyfartalog i ddisgyblion 15 oed[4] mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdodau lleol am y tro cyntaf ers 2006-07, o 539 o bwyntiau yn 2015-16 i 531 o bwyntiau.




Ar draws Cymru, amrywiodd y sgôr pwyntiau cyfartalog o 598 o bwyntiau yn Ferthyr Tudful i 453 ym Mlaenau Gwent.





[4] I alluogi cymhariaeth â blynyddoedd blaenorol mae'r data hwn yn seiliedig ar y garfan 'disgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn ysgol' ac nid yw'n cynnwys plant sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) neu ysgolion annibynnol. Fydd yn wahanol felly i'r data a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Cododd canran y disgyblion a gyflawnodd y Dangosydd Pynciau Craidd ar diwedd Cyfnod Allweddol 2 am y nawfed blwyddyn o 88% yn 2015-16 i 89% yn 2016-17. Roedd hyn yn amrywio o 94% yn Sir Fynwy i 85% yng Nghastell Nedd Port Talbot, gyda 15 awdurdod lleol yn gweld cynydd ar y flwyddyn flaenorol.

Yn debyg, cododd canran y disgyblion a gyflawnodd y Dangosydd Pynciau Craidd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 am y nawfed blwyddyn hefyd, o 84% yn 2015-16 i 86% yn 2016-17. Roedd hyn yn amrywio o 92% yng Ngwynedd, Ceredigion a Sir Fynwy i 78% yng Nhastell Nedd Port Talbot, gyda phob awdurdod ond un yn gweld cynnydd.


Mae'r canran o ddisgyblion 15[5] oed a chyflawnodd y trothwy lefel 2, gan gynnwys gradd TGAU A*-C mewn Cymraeg mamiaith neu Saesneg a Mathemateg wedi cynyddu'n raddol dros y flynyddoedd diwethaf.





Ers 2015-16, mae pob awdurdod lleol ond un wedi gweld cynnydd yn canran y disgyblion 15 oed a gyflawnodd y trothwy lefel 2. Amrywiodd hyn o cynnydd o 7.8 pwynt canran yng Ngheredigion i cynnydd o 0.3 pwynt canran ym Mlaenau Gwent. Gwelodd Torfaen gostyngiad o 3.4 pwynt canran.

Yn 2016-17, gyflawnodd 60.7% o disgyblion 15 oed y trothwy lefel 2, gan gynnwys TGAU gradd A*-C mewn Cymraeg mamiaith neu Saesneg a Mathemateg (o'u cymharu â 58.3% yn 2015-16). Roedd hyn yn amrywio o 70.5% yng Ngheredigion i 48.0% ym Mlaenau Gwent.

[5] I alluogi cymhariaeth â blynyddoedd blaenorol mae'r data hwn yn seiliedig ar y garfan 'disgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn ysgol' ac nid yw'n cynnwys plant sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) neu ysgolion annibynnol. Fydd yn wahanol felly i'r data a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.




Derbyniodd 18% o’r disgyblion Asesiad Athro yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 yn 2016-17; hwn yw'r pedwerydd cynnydd blynyddol.





*Nodyn: Does dim Ysgolion Uwchradd Cymraeg ym Merthyr Tudful, Blaenau Gwent, Sir Fynwy na Chasnewydd.*

Roedd y canran o ddisgyblion sy’n cael asesiad yn y Gymraeg (iaith gyntaf) yn amrywio o 84% yng Ngwynedd i 0% yn Ferthyr Tudful, Blaenau Gwent, Sir Fynwy a Chasnewydd.

Yn 2016-17, gwnaeth 0.2% o’r holl ddisgyblion a adawodd addysg orfodol yn 15 oed[6] (heb fynd ymlaen i addysg amser llawn, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith) adael heb gymhwyster cydnabyddedig. Mae hyn yn cymharu â 1.1% o ddisgyblion mewn gofal.


Mae gan awdurdodau lleol rwymedigaethau statudol o ran asesu a rhoi datganiad, i sicrhau bod plant a phobl ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn derbyn cefnogaeth briodol i’w galluogi i gyrraedd eu potensial. Fel arfer dylai datganiadau AAA fod wedi eu sefydlu o fewn 26 wythnos ar ôl cais am asesiad (mewn rhai achosion eithriadol, gall hyn gymryd mwy o amser).

Cafodd 77% o’r holl ddatganiadau eu rhoi o fewn 26 wythnos yn 2016-17 (o’u cymharu â 68% yn 2015-16) – hyn yw’r perfformiad gorau ers cyflwyno’r dangosydd yn 2007-08. Roedd hyn yn amrywio o 100% yn Sir Ddinbych, Ceredigion, Bro Morgannwg, Merthyr Tudful, Caerffili a Torfaen i 42% yng Ngwynedd.




Rhwng 2015-16 a 2016-17, cynyddodd 12 awdurdod lleol canran y datganiadau a gyhoeddwyd o fewn 26 wythnos, gydag un awdurdod lleol (Sir Ddinbych) yn gweld cynnydd o 61 pwynt canran.

[6] I alluogi cymhariaeth â blynyddoedd blaenorol mae'r data hwn yn seiliedig ar y garfan 'disgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn ysgol' ac nid yw'n cynnwys plant sy'n derbyn addysg heblaw yn yr ysgol (EOTAS) neu ysgolion annibynnol. Fydd yn wahanol felly i'r data a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.




Dros yr un cyfnod, rhoddwyd 95% o ddatganiadau (heb gynnwys eithriadau) o fewn 26 wythnos (o'u cymharu â 94% yn 2015-16).


## Cefnogi Hamdden a Diwylliant…

*Nodyn: Mae "Canolfannau chwaraeon Awdurdod Leol" yn cynnwys canolfannau ar gontract i ymddiriedolaeth allanol neu gyngor cymunedol*

Mae awdurdodau lleol ledled Cymru yn darparu amrediad o wasanaethau sy'n cynnig cyfleoedd hamdden a diwylliannol i'r bobl yn eu cymunedau.

Yn 2016-17, gostyngodd y nifer o ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn am bob 1,000 o'r boblogaeth lle bydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol am y drydedd flwyddyn yn olynol, i 8,387 ymweliad am bob 1,000 o'r boblogaeth. Mae hyn yn cymharu ag 8,409 am bob 1,000 o'r boblogaeth yn 2015-16.

Amrywiodd ymweliadau â chyfleusterau chwaraeon a hamdden o 11,258 am bob 1,000 o'r boblogaeth yn Wrecsam i 6,056 am bob 1,000 o'r boblogaeth yn Fro Morgannwg.




*Note: Nid yw "llyfrgelleodd cyhoeddus" yn cynnwys llyfrgelloedd sy'n cael eu cynnal gan ymddiriedolaeth allanol neu gyngor cymuned*


Roedd 5,480 o ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus am bob 1,000 o'r boblogaeth yn 2016-17. Roedd hyn yn amrywio o 9,050 am bob 1,000 o'r boblogaeth yng Nghaerdydd i 3,292 am bob 1,000 o'r boblogaeth yng Nghasnewydd.

Dyma'r tro cyntaf i nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd am bob 1,000 o'r boblogaeth cynyddu ers cyflwyno'r dangosydd. Ar draws Cymru, mae'r newid blynyddol yn amrywio o gynnydd o 1,030 ymweliadau am bob 1,000 o'r boblogaeth yn Sir Ddinbych i ostyngiad o 880 am bob 1,000 o'r boblogaeth yn Wrecsam.

# Iechyd Corfforaethol

Mae cynghorau lleol ar draws Cymru yn cyflogi tua 130 mil o bobl.

Yn 2016-17, gollwyd cyfartaledd o 10.3 diwrnod/shifft gwaith fesul gweithiwr llawn amser oherwydd salwch. Roedd hyn yn amrywio o 5.5 diwrnod yn Ferthyr Tudful i 12.5 diwrnod ym Mlaenau Gwent.



# Nodiadau

Un o swyddogaethau pennaf Uned Ddata Llywodraeth Leol ~ Cymru yw casglu, prosesu, dehongli a lledaenu data ystadegol am wasanaethau a gweithgareddau llywodraeth leol i gefnogi gwella llywodraeth leol.

Mae’r dangosyddion a enwir yma yn rhan o’r Fframwaith Gwella Perfformiad ar gyfer awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae’r dangosyddion yn adlewyrchu blaenoriaethau allweddol a nodwyd gan Lywodraeth Cymru a llywodraeth leol yng Nghymru.

Yr ydym wedi symleiddio'r teitlau dangosydd perfformiad, lle y bo'n briodol, i'w cynorthwyo dealltwriaeth.

Mae dogfennau canllaw mewn perthynas â setiau dangosyddion 2016-17 ar gael ar ein gwefan. Mae’r rhain yn rhoi diffiniad manwl am bob un o’r dangosyddion ynghyd â’i ddosbarthiad h.y. Dangosydd Strategol Cenedlaethol neu Fesur Atebolrwydd Cyhoeddus.

Seilir gwerthoedd Cymru ar y data sylfaen a gyflwynwyd gan yr awdurdodau. Lle na fydd awdurdodau wedi cyflenwi eu data sylfaen, nid yw eu ffigurau yn cyfrannu at werthoedd Cymru.

Lle bo’n briodol, talgrynnwyd data at ddibenion y bwletin hwn. Mae’r set ddata gyflawn ar gael ar ein gwefan www.unedddatacymru.gov.uk.

Cewch hyd i FyNghyngorLleol ar www.fynghyngorlleol.info lle cewch dewis iaith.

Mae’r lliwiau a ddefnyddir yn y siartiau graddio perfformiad wedi eu seilio ar yr amrediad o werthoedd DP. Mae’r lliwiau’n dangos sut mae perfformiad yr awdurdod yn cymharu ag eraill:
- Perfformiad yn y chwarter uchaf o awdurdodau
- Perfformiad yn y chwarter canolog uchaf o awdurdodau
- Perfformiad yn y chwarter canolog isaf o awdurdodau
- Perfformiad yn y chwarter isaf o awdurdodau

Mewn siartiau ystod perfformiad, mae glas yn cynrychioli gwerth DP Cymru, mae gwyrdd yn dangos y gwerth DP am berfformiad gorau awdurdod lleol, ac mae coch yn dangos y gwerth DP am berfformiad gwaethaf awdurdod lleol.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **Hydref 3, 2017** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Mair Rowlands** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Geraint Owen** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **32335** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cynllun Busnes – Prosiect Hunan-wasanaeth** |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Cymeradwyaeth o Gynllun Busnes y Prosiect Hunan-wasanaeth.
1.2 Cymeradwyo rhyddhau cyllid o £104,794 o'r Gronfa Trawsffurfio ar gyfer cwblhau'r gwaith

### 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Er mwyn cadarnhau a chefnogi'r gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo i sicrhau hunan-wasanaeth ar lein.

### 3 CYFLWYNIAD

Mae'r Prosiect hunan-wasanaeth yn un o flaenoriaethau'r Cyngor ac mae hynny mewn cydnabyddiaeth bod disgwyliadau cwsmeriaid yn cynyddu'n barhaus a bod y Cyngor am i'r cyhoedd fedru cysylltu i gael gwasanaeth neu wybodaeth ar adegau sy'n gyfleus iddynt.

Cyflwynir yma y Cynllun Busnes ar gyfer cyfarch yr angen hwnnw. Mae'r Cynllun yn egluro sut y bwriedir darparu hunan-wasanaeth ar-lein tra'n adnabod y costau sydd ynghlwm â chyflawni'r gwaith yn ogystal ag amlinellu cyfraniad y datblygiadau hyn tuag at wireddu arbedion ariannol ar draws y Cyngor.

Cyflawnwyd gwaith ymchwil manwl fel rhan o'r paratoadau ar gyfer cyflwyno hunan-wasanaeth ac mae'r Cynllun Busnes yn manylu ar gasgliadau'r gwaith hwnnw. Mae'r wybodaeth a gasglwyd yn arddangos yn glir bod cryn ddiddordeb defnyddio gwasanaethau ar-lein syml ond bod angen llawer mwy o waith marchnata a newid meddylfryd cyn bo nifer o'r bobl yr ymgynghorwyd a hwy yn barod i wneud cais a thalu ar-lein am wasanaethau.

Mae Atodiad Ch yn y Cynllun Busnes yn rhestru'r hyn sydd o fewn y Cynllun Cyfathrebu er mwyn hyrwyddo a marchnata'r ddarpariaeth hunan-wasanaeth yn dilyn lawnsio'r pecyn cychwynnol.

## 4 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Mae swm cychwynnol o £250,000 eisoes wedi'i ryddhau o'r Gronfa Trawsffurfio ar gyfer cyllido'r prosiect. Mae'r Cynllun Busnes yn adnabod yr angen am fuddsoddiad pellach er mwyn parhau hefo'r gwaith datblygu (ac hyrwyddo) yn dilyn y lawnsiad cyhoeddus ym mis Tachwedd eleni.

Gofynnir felly i'r Cabinet gymeradwyo'r swm ychwanegol o £104,794 o'r Gronfa Trawsffurfio, sef y gwahaniaeth rhwng cyfanswm costau gweithredu'r prosiect (fel ag y mae'n ymddangos ar dudalen 28) a'r hyn sydd eisoes wedi'i fuddsoddi gan y Cyngor.

**BARN Y SWYDDOGION STATUDOL**

**Y Swyddog Monitro:**

Dim sylwdadau o safbwynt Priodoldeb

**Pennaeth yr Adran Cyllid:**

Wedi i mi adolygu Cynllun Busnes y Prosiect Hunan-Wasanaeth yn fanwl, rwy'n argyhoeddedig fod y ffigyrau ariannol ynddo yn amcangyfrifon teg o gostau tebygol ac arbedion posib.

Gan ystyried bydd y Prosiect Hunan-Wasanaeth yn cynorthwyo sawl adran i wireddu arbedion ariannol parhaol sylweddol, cadarnhaf rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisir i ddyrannu arian un-tro ychwanegol o'r Gronfa Trawsffurfio.

# Cynllun Busnes
# Prosiect Hunanwasanaeth
# Cyngor Gwynedd

**Hanes adolygu**

| Fersiwn | Dyddiad | Awdur | Sylwadau |
|---|---|---|---|
| 1 | 05.07.2016 | Eleri Williams | |
| 2 | 01.09.2016 | Eleri Williams | Newidiadau'n dilyn cyfarfod o'r Grŵp Rheoli Prosiect |
| 3 | 09.09.2016 | Eleri Williams | Newidiadau'n dilyn cyfarfod o'r Grŵp Rheoli Prosiect |
| 4 | 25.05.2017 | Eleri Williams | Newidiadau'n dilyn derbyn gwybodaeth ychwanegol |
| 5 | 21.07.2017 | Eleri Williams | Newidiadau'n dilyn derbyn gwybodaeth ychwanegol |
| 6 | 08.09.2017 | Eleri Williams | Mân newidiadau |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

## Cynnwys


1. Cyflwyniad 3

2. Pa sianeli mae'n cwsmeriaid yn eu defnyddio ar hyn o bryd? 6

3. Anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid 7

4. Datblygiadau sydd eu hangen er mwyn symud y prosiect ymlaen 10

5. Cynllun gweithredu 20

6. Arbedion / costau 24

7. Sut byddwn ni'n mesur llwyddiant? 29

8. Atodiadau

   a. ATODIAD A - Cwestiynau arolwg defnydd o'r we ii
   b. ATODIAD B - Dadansoddiad o'r arolwg defnydd o'r we v
   c. ATODIAD C - Rhestr o wasanaethau 'Fy Nghyfrif' xxxix
   d. ATODIAD CH - Cynllun cyfathrebu hunanwasanaeth xl
   e. ATODIAD D - Datblygu hunanwasanaeth Cyngor Gwynedd xliii
   f. ATODIAD DD - Dadansoddiad o adnodd ychwanegol Technoleg Gwybodaeth xliv

# 1 Cyflwyniad

1.1 Mae disgwyliadau cwsmeriaid yn cynyddu'n barhaus.

**1.2** Mae nifer cynyddol o gwsmeriaid yn disgwyl gallu cysylltu â'r Cyngor i gael gwasanaeth neu wybodaeth ar adeg sy'n gyfleus iddyn nhw, sydd, yn aml, y tu allan i oriau swyddfa traddodiadol 09:00-17:00.

**1.3** Mae Cynghorau lleol yn wynebu arbedion sylweddol dros y blynyddoedd nesaf. Mae Cyngor Gwynedd yn wynebu diffyg ariannol o £50 miliwn yn y cyfnod 2013-14 i 2017-18 ac mae'n debyg y bydd y sefyllfa'n parhau, ac o bosib yn gwaethygu, wedi hynny.

**1.4** Bydd y Cyngor yn parhau i ddarparu'r mwyafrif o wasanaethau i'w gwsmeriaid ond gellir gwneud hynny mewn modd mwy cost effeithiol, sy'n rhoi gwell gwerth am arian i drigolion ac yn gwella'r profiad a'r gwasanaeth i'r cwsmer, trwy annog hunanwasanaeth.

**1.5** O ystyried hyn i gyd, mae Cyngor Gwynedd wedi ymrwymo i ymgymryd â phrosiect hunanwasanaeth fydd yn newid y patrwm presennol o ddarparu gwasanaethau i gwsmeriaid yn y dyfodol.

## 1.6 Y sefyllfa bresennol

1.6.1 Ar hyn o bryd mae Cyngor Gwynedd yn darparu gwasanaethau gan ddefnyddio'r 3 prif sianel:

**1.6.2 Y we – www.gwynedd.llyw.cymru**
Lansiwyd gwefan ar ei newydd wedd ym mis Rhagfyr 2014 wedi ei strwythuro a'i dylunio'n benodol ar gyfer annog hunanwasanaeth.
Er mwyn ymateb i'r cynnydd sylweddol mewn defnydd o ddyfeisiadau symudol i fynd ar-lein dyluniwyd y wefan newydd i fod yn ymatebol, h.y. mae'r dyluniad yn addasu i weithio ar sgriniau llai yn awtomatig.

Ar hyn o bryd mae'n darparu'r gallu i gwsmeriaid hunanwasanaethu drwy gyfrwng ystod o wybodaeth am wasanaethau'r Cyngor, ond (ac eithrio rhif 3) mae'r isod i gyd yn draffig un ffordd, sef y cwsmer yn anfon cais i'r Cyngor / gwneud rhywbeth ar-lein, gyda'r Cyngor yn darparu ymateb (os o gwbl) drwy gyfrwng sianel wahanol (e.e. galwad ffôn, e-bost, llythyr).

1. ffurflenni PDF i'w llawrlwytho, eu cwblhau a'u postio
2. 44 o ffurflenni electronig ar-lein lle nad oes angen cyfrif cwsmer i'w cwblhau
3. 28 o ffurflenni electronig ar-lein lle mae angen cyfrif cwsmer i'w cwblhau, ac sy'n galluogi'r cwsmer i ddilyn yr hyn sy'n digwydd i'w gais
4. Darparu'r gallu i dalu Treth Cyngor, Trethi Busnes, Rhenti tai preifat ac Anfonebau
5. System Lle dwi'n byw sy'n rhoi gwybodaeth i gwsmer am wasanaethau yn ei ardal leol

6. System gwneud cais am fudd-dal, cyfrifo budd-dal a rhoi gwybod am newid amgylchiadau

7. System llyfrgelloedd sy'n galluogi archebu ac adnewyddu llyfrau

8. System ceisio am swydd ar-lein

9. System rhoi gwybodaeth am ysgolion / llyfrgelloedd wedi cau mewn argyfwng, e.e. tywydd garw

10. Systemau eraill: cofrestr trwyddedau, catalog archifau, cofrestr hawliau tramwy

1.6.3 **Canolfan Gyswllt – Galw Gwynedd**

Mae Galw Gwynedd yn ymdrin ag ymholiadau a cheisiadau am wasanaeth dros y ffôn yn y meysydd canlynol (wedi'u cyflwyno yn nhrefn nifer ymholiadau yn flynyddol)

**1.** Priffyrdd a bwrdeistrefol – amrywiol geisiadau am wasanaeth

**2.** Taliadau

**3.** Cofrestru

**4.** Cynllunio

**5.** Parcio

**6.** Bathodynnau glas

**7.** Tocyn Teithio 16+

**8.** Difa pla

**9.** Etholiadau (mewn cyfnod etholiad)

**10.** Maent yn gweithredu fel switsfwrdd ar gyfer holl wasanaethau eraill Cyngor Gwynedd

**1.6.4 Siopau-un-stop – Siopau Gwynedd**

Mae 3 Siop Gwynedd wedi'u lleoli yng Nghaernarfon, Pwllheli a Dolgellau.
Maent yn ymdrin yn uniongyrchol ag ymholiadau a cheisiadau am wasanaeth yn y meysydd canlynol (wedi'u cyflwyno yn nhrefn nifer ymholiadau yn flynyddol)

1. Ceisiadau budd-dal

2. Treth Cyngor

3. Bathodynnau glas

4. Ceisiadau tocynnau bws

5. Cofrestru

6. Opsiynau tai

7. Taliadau (drwy siec)

8. Priffyrdd a bwrdeistrefol – amrywiol geisiadau am wasanaeth

9. Rhai elfennau o waith Cynllunio

10. Rhai elfennau o waith Etholiadau

11. Maent yn cysylltu â'r gwasanaethau perthnasol er mwyn iddynt ddod i Siop Gwynedd i ymdrin ag unrhyw geisiadau eraill am wasanaeth wyneb i wyneb.

### 1.6.5 Costau cysylltu gyda'r Cyngor

### 1.1.1 Ffigurau cyffredinol

Mae'r ffigurau diweddaraf gan **Socitm** *(Society of Information Technology Managers)* yn **2012/13** yn nodi'r costau canlynol ar gyfer pob ymholiad a wneir gan gwsmer:

£8.21 – wyneb yn wyneb

£2.59 – ffôn

£0.09 – y we

(* ffigurau diweddaraf Socitm *(Society of Information Technology Managers)* 2012/13 – costau'n seiliedig ar ffigurau oedd yn cael eu casglu gan Awdurdodau Lleol Y Deyrnas Unedig oedd yn cymryd rhan yn y *Channel value Benchmarking Service* **sydd ddim yn bodoli erbyn hyn**)

Mae Gwefan GOV.UK wedi cyhoeddi costau eu proses archebu prawf gyrru ar-lein ar gyfer 2015-16:

£6.62 – wyneb yn wyneb

£4.11 – ffôn

£0.22 – y we

### 1.1.2 Ffigurau Cyngor Gwynedd

Costau ar gyfartaledd ar gyfer ymdrîn â cheisiadau am wasanaeth (yn seiliedig ar geisiadau Casglu gwastraff gardd, 24.10.2016 – 21.03.2017).

**£8.00 - wyneb yn wyneb**
(yn seiliedig ar 20.5 munud y cais, yn cynnwys ymdrin â chwsmer ac amser gwirio arian sy'n cael ei gasglu)

**£3.90 - ffôn**
(yn seiliedig ar alwad ffôn 5 munud)

**£0.25 – hunanwasanaeth***
(yn seiliedig ar gynnal a chadw 0.5 awr yr wythnos (gweinyddol) gan Dîm y We ac 1 awr yr wythnos (technegol) gan y Tîm Technegol)

(* Wrth i'r broses sefydlu ei hun rydym yn rhagweld y bydd y nifer ymholiadau am y broses yn lleihau, fydd yn lleihau'r amser cynnal a chadw, a bydd y nifer ceisiadau'n cynyddu. Bydd hyn yn arwain at leihad yn y gost.)

## 2 Pa sianeli mae'n cwsmeriaid yn eu defnyddio ar hyn o bryd?

2.1 Yn seiliedig ar yr ystadegau sydd ar gael, dyma sut roedd cwsmeriaid yn cysylltu â'r Cyngor yn 2015-16:

| | |
|---|---|
| **Y wefan:** | **1,594,596** o ymweliadau<br>**44,700** o drafodion (2.8% o'r ymweliadau) |
| **Ffôn:** | **1,004,211** o alwadau i Galw Gwynedd a galwadau uniongyrchol i estyniadau yn swyddfeydd y Cyngor<br>Mae'n bwysig nodi nad yw'r ffigwr hwn yn cynnwys galwadau i leoliadau eraill sy'n denu niferoedd uchel o alwadau, e.e. canolfannau hamdden, llyfrgelloedd, ysgolion, am nad yw'r ffigurau hyn ar gael. Mae'n debygol iawn felly bod nifer galwadau ffôn i'r Cyngor yn llawer uwch na'r ffigwr hwn. |
| **Wyneb yn wyneb:** | **26,083** ymweliad<br>Mae'n bwysig nodi ei bod yn bosib bod y ffigwr hwn yn is na'r gwir ffigwr. Ar adegau prysur yn Siop Gwynedd Caernarfon nid yw bob ymweliad yn cael ei gofnodi, ac felly mae'r nifer ymweliadau'n debygol iawn o fod yn uwch mewn gwirionedd. |

2.2 Hyd yn hyn, nid oes blaenoriaeth wedi ei roi yn gorfforaethol i gyflwyno gwasanaethau ar-lein. Gan nad oedd unrhyw gyllideb benodol ar gael ar gyfer datblygu gwasanaethau ar-lein, mae'r broses wedi bod yn un araf iawn ac *ad-hoc*, yn gymysgedd o:

1. annog gwasanaethau'r Cyngor i gynnig ffurflenni syml ar y wefan, sy'n ymateb i anghenion cwsmeriaid ar-lein
2. gwasanaethau eu hunain yn cyflwyno ceisiadau am ffurflenni i Dîm Cynnwys y Wefan, sydd ddim bob tro yn deillio o angen cwsmeriaid ond yn hytrach angen y gwasanaeth
3. manteisio ar y cyfle i gyflwyno unrhyw wasanaethau oedd yn cael eu cyflwyno yn Galw Gwynedd ar y wefan yr un pryd (ers 2011), e.e. Cynllunio, Tocyn Teithio 16+. Nid oedd hyn yn ymateb i anghenion cwsmeriaid ar-lein (ond yn hytrach yn dilyn cynllun busnes y Ganolfan Gyswllt) sydd wedi arwain at greu rhai gwasanaethau ar-lein nad oedd llawer o alw amdanynt.

2.3 Mae'n hanfodol bod y prosiect hunanwasanaeth yn cael blaenoriaeth yn gorfforaethol, yn cael cefnogaeth Y Cabinet, Uwch Swyddogion y Cyngor a'r Gwasanaethau, yn cynyddu momentwm yn sylweddol ac yn derbyn adnoddau digonol i ymgymryd â'r dasg.

## 3 Anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid

3.1 Mewn adroddiad gan OFCOM (*Annex A: Adults' media literacy in the nations, The Communications Market 2015 (August)*) yn edrych ar ystadegau am Gymru nodwyd bod:

3.1.1 74% o oedolion (16+) yng Nghymru yn prynu pethau ar-lein (o leiaf unwaith y chwarter)

3.1.2 58% yn bancio ac yn talu biliau ar-lein

3.1.3 80% yn barod i roi manylion cyfeiriad cartref ar-lein

3.1.4 77% yn barod i dalu am rywbeth ar-lein drwy ddarparu manylion cerdyn credyd neu ddebyd

3.1.5 19% â phryder am ddiogelwch / twyll ar-lein

3.1.6 6% â phryder am breifatrwydd personol ar-lein

3.2 Yn Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014-15, Llywodraeth Cymru, wrth edrych yn benodol ar Wynedd, nodwyd bod:

3.2.1 79% o aelwydydd Gwynedd â mynediad i'r we (19% â band ffeibr cyflym a 77% â band eang arferol) *(Dylid nodi bod y rhaglen 'Superfast Cymru' wedi cynyddu'r nifer sydd â mynediad i fand ffeibr cyflym ers 2014-15)*

3.2.2 71% o oedolion Gwynedd wedi ymweld â gwefan gwasanaeth cyhoeddus Cymraeg neu Lywodraeth Cymru dros y 12 mis diwethaf (e.e. Awdurdod Lleol, Ysgol, Awdurdod Iechyd, Traveline Cymru, Safleoedd Twristiaeth fel Croeso Cymru)

3.2.3 96% yn fodlon â'r wefan roeddent wedi ymweld â hi

3.2.4 **41% yng Ngwynedd wedi cwblhau trafodyn ar-lein ar y wefan honno**

3.3 Mae'r ffigurau uchod yn gadarnhaol iawn o safbwynt parodrwydd trigolion Gwynedd i ddefnyddio'r we a gwefannau gwasanaeth cyhoeddus ond, yn hytrach na dibynnu ar y ffigurau uchod yn unig roeddem yn teimlo ei bod yn bwysig i ni ymgynghori â thrigolion Gwynedd er mwyn cael gwybodaeth fwy penodol am wefan Cyngor Gwynedd. Bydd hyn yn ein cynorthwyo i gynllunio pa wasanaethau y dylid eu cynnig ar-lein a phryd, pa broblemau (os o gwbl) sydd angen eu goresgyn er mwyn i gwsmeriaid ddefnyddio hunanwasanaeth ar wefan y Cyngor a sut i fynd ati i dargedu marchnata'r gwasanaethau hynny.

3.4 Er mwyn cyflawni hyn, cynhaliwyd arolwg ar-lein rhwng 24 Mehefin 2016 ac 18 Gorffennaf 2016 yn holi cwsmeriaid am eu defnydd o'r we yn gyffredinol, eu defnydd o wefan Cyngor Gwynedd a pha fath o wasanaethau y byddent yn eu defnyddio ar wefan Cyngor Gwynedd petaent ar gael. Gweler **Atodiad A** am gopi o'r arolwg. Cafwyd 664 ymateb.

3.5 Ar yr un pryd buom yn cynnal yr un arolwg ar strydoedd, mewn canolfannau hamdden a llyfrgelloedd ar draws y Sir. Cafwyd 326 ymateb.

3.6 Gofynnwyd y cwestiynau hefyd yn yr arolwg Panel Trigolion a gynhaliwyd yn ystod haf 2016. Cafwyd 520 ymateb.

3.7 Gofynnwyd y cwestiynau hefyd fel rhan o 'Arolwg yr Haf' ar-lein a gynhaliwyd yn ystod haf a hydref 2016. Cafwyd 1144 ymateb.

3.8 **Dyma'r prif ganfyddiadau o'r 2654 holiadur a gwblhawyd.** Gweler **Atodiad B** am ddadansoddiad llawn o'r canlyniadau. *Dylid nodi bod 'ymatebwyr' ym mhob achos yn cyfeirio at ymatebwyr i'r cwestiwn penodol dan sylw (nid oedd cwsmeriaid atebodd yr holiadur yn darparu ateb i bob cwestiwn a ofynnwyd).*

1. Cafwyd croestoriad o bobl o wahanol oedran a gwahanol leoliadau ar draws y Sir.
2. Roedd 77% o'r ymatebwyr yn defnyddio'r we yn barod.
3. Roedd 54% o'r ymatebwyr yn defnyddio'r we i gymdeithasu (Gweplyfr, Trydar), gyda phatrwm amlwg o ddefnydd uwch ymhlith y grwpiau oedran iau.
4. Roedd 68% o'r ymatebwyr yn defnyddio'r we i siopa / bancio, gyda'r lefel defnydd yn eithaf cyson ar draws yr holl grwpiau oedran (heblaw am 65+ lle mae'n is ond yn parhau i fod dros 50%).
5. Roedd 15% o'r ymatebwyr yn defnyddio'r we yn Gymraeg, 47% yn defnyddio'r we yn Saesneg, 15% yn defnyddio'r Gymraeg a'r Saesneg a'r gweddill heb ymateb.
6. Ffôn clyfar oedd y ddyfais fwyaf poblogaidd ar gyfer mynd ar-lein ar gyfer yr holl ymatebwyr (25%), gyda thabled (19%) yn ail, gliniadur (18%) yn drydydd a chyfrifiadur (13%) yn bedwerydd. Roedd y defnydd o ddyfeisiadau'n amrywio'n sylweddol yn ôl grwpiau oedran gyda ffôn clyfar yn ddyfais fwyaf poblogaidd gyda rhai dan 44 oed, y 4 dyfais yn eithaf cyfartal ymysg rhai 45-64 oed a phob dyfais, ac eithrio ffôn clyfar, yn eithaf cyfartal ymysg y rhai dros 65 oed.
7. Mae 41% o'r ymatebwyr sy'n byw yng Ngwynedd yn defnyddio gwefan Cyngor Gwynedd i wneud cais am wasanaethau.
8. O'r 1084 ymatebydd sy'n defnyddio'r wefan, y gwasanaethau maent yn eu defnyddio yw: ceisiadau am wasanaeth gwastraff / ailgylchu (y mwyaf poblogaidd o bell ffordd) gyda chludiant cyhoeddus, ysgolion, swyddi, treth cyngor, cynllunio, llyfrgelloedd, ffyrdd / goleuadau stryd a chanolfannau hamdden yn dilyn.
9. Wrth edrych ar resymau dros beidio defnyddio'r wefan ar hyn o bryd (908 ymateb), y ddau brif reswm oedd: 'ddim wedi bod angen unrhyw wasanaeth' (21%) ac 'yn well ganddynt ffonio' (14%).
10. Y gwasanaethau y byddai ymatebwyr yn eu defnyddio fwyaf petaent ar gael yw **Gwneud cais am rywbeth syml** (52%), **Dweud am broblem** (52%) a **Gwirio rhywbeth** (49%) (roedd ymatebwyr yn cael dewis mwy nag un opsiwn).
11. Y gwasanaethau y byddai ymatebwyr yn eu defnyddio leiaf petaent ar gael yw **Gwneud cais a thalu am rywbeth personol / swyddogol** (33%) a

**Gwneud cais am rywbeth personol / swyddogol** (31%) (roedd ymatebwyr yn cael dewis mwy nag un opsiwn).

12. O ran y gwasanaethau eraill byddai 44% yn **Gwneud cais a thalu am rywbeth syml**, 43% yn **Talu am rywbeth** a 40% yn **Archebu / trefnu rhywbeth** (roedd ymatebwyr yn cael dewis mwy nag un opsiwn).
13. Byddai 61% o'r ymatebwyr sy'n defnyddio bancio / siopa ar-lein yn fodlon defnyddio gwefan y Cyngor i wneud cais a thalu am rywbeth syml.
14. Byddai 46% o'r ymatebwyr sy'n defnyddio bancio / siopa ar-lein yn fodlon defnyddio gwefan y Cyngor i wneud cais a thalu am rywbeth mwy personol / swyddogol.

3.9 Mae canlyniadau'r arolwg yn dilyn patrwm tebyg iawn i'r hyn sydd wedi ei weld yn yr adroddiad gan OFCOM ac Arolwg Cenedlaethol Cymru, Llywodraeth Cymru.

3.10 Mae canlyniadau'r arolwg yn cadarnhau'r patrwm defnydd sydd wedi ei weld hyd yma ar wefan y Cyngor, sef defnydd sylweddol o rai prosesau syml ar-lein gyda llai o ddefnydd o brosesau mwy cymhleth.

3.11 Mae hyn felly'n cadarnhau y dylid canolbwyntio ar gyflwyno prosesau symlach wrth geisio sefydlu hunanwasanaeth a chael cwsmeriaid i newid i ddefnyddio'r sianel ar-lein.

3.12 Nid yw hyn yn golygu na ddylid datblygu prosesau mwy cymhleth ar-lein ond dylid bod yn ymwybodol y bydd angen llawer mwy o waith marchnata a newid meddylfryd ein cwsmeriaid er mwyn iddynt eu defnyddio.

3.13 Rhaid derbyn na fydd rhai carfannau o drigolion Gwynedd eisiau nac angen rhai o'r gwasanaethau a fydd yn cael eu cynnig ar-lein, fel y 21% o ymatebwyr nad oedd wedi bod angen unrhyw wasanaeth. Mae natur rhai o wasanaethau'r Cyngor yn golygu mai yn achlysurol iawn mae cwsmer angen cysylltu â ni os o gwbl.

# 4 Datblygiadau sydd eu hangen er mwyn symud y prosiect ymlaen

## 4.1 Mae'r egwyddorion canlynol yn sicrhau eglurder ac yn darparu rheolau gweithredu ar gyfer y prosiect

### 4.1.1 Rhaid cael cyfrif cyn gallu cyflwyno unrhyw gais am wasanaeth ar-lein

Ers 2011 mae 'Fy Nghyfrif' yn bodoli ar wefan Cyngor Gwynedd sy'n galluogi cwsmeriaid i greu cyfrif er mwyn cyflwyno ceisiadau am wasanaeth (28 ar hyn o bryd) neu gyflwyno cais am swydd (Gweler **Atodiad C** am restr lawn o wasanaethau).

Mae angen datblygu 'Fy Nghyfrif' i fod yn ganolbwynt hunanwasanaeth ar y wefan, fel bod rhaid cael cyfrif er mwyn cyflwyno unrhyw ffurflen ar-lein. Bydd hyn yn:

1. sicrhau cyfleustra i'r cwsmer (bydd rhannau o'r ffurflenni'n cael eu rhaglenwi gyda manylion y cwsmer os yw wedi mewngofnodi)
2. **galluogi cwsmer i ddilyn trywydd ei gais yn gyfan gwbl ar-lein fydd yn lleihau cyswllt dianghenraid, h.y. cwsmer ddim yn gorfod e-bostio / ffonio / galw i mewn i gael diweddariad am ei gais, ac felly'n lleihau costau i'r Cyngor**
3. **uchafu potensial marchnata gwasanaethau eraill**

Roedd y broses o greu cyfrif yn gallu cymryd tua 5 munud i'w gwblhau. Ers mis Hydref 2016 mae'r broses wedi'i symleiddio. Dim ond enw, cyfeiriad e-bost a chyfrinair sydd ei angen i greu cyfrif erbyn hyn, sy'n golygu bo modd creu cyfrif mewn tua 2 funud. Dim ond un waith sydd angen creu cyfrif er mwyn cael mynediad i'r holl wasanaethau sydd ar gael.

Wedi dweud hyn, mae'n bosib bod rhai sefyllfaoedd yn bodoli, e.e. rhoi gwybod am dwll yn y ffordd, lle nad yw cwsmeriaid eisiau creu cyfrif a lle na ddylem eu gorfodi i wneud hynny. Byddai anfon cais am wasanaeth heb greu cyfrif yn golygu na ellid dilyn trywydd y cais hwnnw ar-lein, ond dewis y cwsmer fyddai hynny.

Byddwn yn edrych ar roi'r dewis i gwsmer greu cyfrif ai peidio, er mwyn cyflwyno rhai ceisiadau am wasanaeth, fel cam 2 y datblygiad, ar ôl lansio Cam 1 y datblygiad ym mis Tachwedd.

### 4.1.2 Mewngofnodi unwaith a chostau cysylltiedig

Rhaid i gwsmer gael **un cyfrif** yn unig er mwyn cael mynediad at holl wasanaethau'r Cyngor.

Yn hanesyddol, oherwydd bod gwahanol adrannau'n prynu meddalwedd gwahanol i ddarparu eu gwasanaethau mae achosion ar y wefan ar hyn o bryd lle gallai cwsmer fod â

1. chyfrif 'Fy Nghyfrif' (cyfrif canolog y Cyngor),
2. cyfrif gwahanol gyda manylion mewngofnodi gwahanol ar gyfer archebu neu adnewyddu llyfrau llyfrgell
3. a manylion mewngofnodi gwahanol eto ar gyfer cwblhau cais am fudd-dal.

Wrth gynyddu'r nifer o wasanaethau sydd ar gael ar y wefan nid yw sefyllfa fel hyn yn gynaliadwy ac, yn bwysicach na dim, mae'n rhoi profiad gwael iawn i'r cwsmer.

Wedi'r cyfan, nid yw cwsmer angen manylion mewngofnodi gwahanol bob tro ar wefan fel Amazon er mwyn prynu llyfr, dilledyn, offer cegin ayyb felly pam ddylai'r sefyllfa fodoli ar wefan y Cyngor.

**Os na ellir datrys y broblem hon ni fydd cwsmeriaid yn defnyddio hunanwasanaeth ar wefan y Cyngor gan y bydd yn rhy drafferthus.**

Mae modd goresgyn sefyllfa o'r fath drwy brynu meddalwedd API (*Application programming Interface*). Mae meddalwedd o'r fath yn galluogi systemau allanol (fel y system llyfrgelloedd) i rannu gwybodaeth mewngofnodi gyda'n cyfrif hunanwasanaeth canolog ni, mewn modd diogel, fel mai dim ond un waith mae angen i gwsmer fewngofnodi er mwyn cael mynediad i holl wasanaethau'r Cyngor, waeth pa feddalwedd a ddefnyddir.
Mewn rhai achosion bydd angen meddalwedd API ar gyfer cyfnewid data rhwng y CRM newydd (gweler 4.2 am ragor o wybodaeth) a systemau swyddfa gefn er mwyn sicrhau bod y broses o drosglwyddo data o'r ffurflen / system ar-lein i'r swyddfa gefn berthnasol wedi ei awtomeiddio'n llwyr.

**Cyllido meddalwedd API (*Application programming Interface*)**

1. Rhaid i bob tendr am system newydd i'w defnyddio ar wefan Cyngor Gwynedd gynnwys cymal yn nodi bod angen API(s) ar gyfer galluogi mewngofnodi unwaith / neu gyfnewid data rhwng systemau. Bydd y Gwasanaeth sy'n prynu'r pecyn yn gyfrifol am negodi a thalu costau'r cytundeb.

2. Petai achosion lle mae angen prynu API ar gyfer systemau sydd eisoes yn bodoli ar y wefan, er mwyn eu huno â'r drefn mewngofnodi unwaith, bydd y prosiect yn ganolog yn talu'r gost cyfalaf i brynu'r API. Er mwyn gwneud hyn, bydd cais am arian unwaith ac am byth ychwanegol yn cael ei gyflwyno. Y Gwasanaeth perthnasol fydd yn talu cost refeniw cynnal a chadw yr API o gyllideb bresennol, neu drwy gyflwyno bid amdano.

## 4.2 Datblygu System Rheoli Perthynas â'r Cwsmer (CRM) newydd – 'CRM Gwynedd'

4.2.1 Ar hyn o bryd mae Galw Gwynedd yn defnyddio system Siebel CRM er mwyn rheoli perthynas y Cyngor â'r cwsmer. Mae'r system hon yn cofnodi ceisiadau am wasanaeth ac yn galluogi pawb sy'n defnyddio'r system i weithredu ar y cais, diweddaru statws y cais ayyb.

4.2.2 Mae'r system bresennol wedi profi i fod yn llawer mwy cymhleth na'r hyn sydd ei angen ar y Cyngor ac o'r herwydd mae datblygu a chynnal a chadw unrhyw wasanaethau newydd yn y system wedi profi i fod yn araf ac yn llyncu adnodd sylweddol.

4.2.3 Mae 'Fy Nghyfrif' ar wefan Cyngor Gwynedd yn defnyddio Siebel CRM fel system sy'n cefnogi hunanwasanaeth ar y wefan, ond mae'r ffaith bod datblygiadau a chynnal a chadw'n llyncu adnodd sylweddol hefyd yn llesteirio datblygiad hunanwasanaeth ar y wefan.

4.2.4 Mae Siebel CRM yn costio £35,000 y flwyddyn i'r Cyngor.

4.2.5 Er mwyn cyflymu'r broses o gyflwyno hunanwasanaeth ar-lein a chreu arbediad o £23,300 ychwanegol i Galw Gwynedd (sydd ddim yn gynwysedig yn unrhyw gynlluniau arbedion presennol) mae'r penderfyniad wedi'i wneud i gael gwared ar Siebel CRM.

4.2.6 Mae gwaith ymchwil wedi'i wneud i edrych ar systemau eraill y gellid eu defnyddio fel CRM sydd hefyd yn systemau cyflwyno hunanwasanaeth, e.e. Agilisys ond roedd costau systemau o'r fath yn gallu bod yn sylweddol (oddeutu £120,000 y flwyddyn).

4.2.7 Cyflwynwyd adroddiad i'r Panel Cyflawni ar 17 Mai 2016 yn argymell ein bod yn adeiladu ar y sylfeini cadarn sydd gennym eisoes o safbwynt hunanwasanaeth ar y wefan ac er mwyn hwyluso datblygiad pellach ein bod yn mynd ymlaen i ddatblygu CRM yn fewnol ('CRM Gwynedd') fydd yn disodli Siebel. Cafodd yr argymhelliad ei gymeradwyo.

4.2.8 Er mwyn datblygu 'CRM Gwynedd' yn fewnol mae angen buddsoddiad adnoddau yn y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth. Gweler pwynt 4.3 am ragor o wybodaeth.

4.2.9 **Bydd 'CRM Gwynedd' yn symlach, yn haws i'w ddatblygu a'i gynnal a'i gadw ac yn ganolbwynt darparu gwasanaethau ar gyfer y 3 sianel (gwe, ffôn, wyneb i wyneb).** Gweler **Atodiad D** am ragor o wybodaeth**.**

## 4.3 Cryfhau adnodd y Gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth

4.3.1 Er mwyn datblygu hunanwasanaeth ar y wefan a datblygu system CRM newydd i ddisodli Siebel CRM bydd angen dargyfeirio 4 aelod o staff profiadol Technoleg Gwybodaeth i weithio'n llawn amser ar y prosiectau hyn.

4.3.2 Er mwyn rhyddhau amser y 4 aelod o staff bydd angen cyfuniad o staff dros dro fel ôl-lenwad am gyfnod o 3 blynedd ac amser ymgynghorydd arbenigol i barhau i weithio ar weddill anghenion datblygu'r Gwasanaeth.

4.3.3 Gweler **Atodiad DD** am ddadansoddiad llawn o'r anghenion a'r costau cysylltiedig.

## 4.4 Cryfhau adnodd Tîm Cynnwys y We

4.4.1 Bydd angen rhyddhau amser Rheolwr Gwybodaeth a Gwasanaethau'r Wefan i fod yn rheolwr y prosiect hunanwasanaeth.
Er mwyn gwneud hyn bydd dyletswyddau rheoli Tîm Cynnwys y Wefan o ddydd i ddydd yn cael eu rhoi i aelod arall o'r tîm.
**Costau:**
Cynyddu cyflog Rheolwr Gwybodaeth a Gwasanaethau'r Wefan am 3 blynedd i gydnabod y dyletswyddau rheoli prosiect: **£2,599 yn flynyddol** (uchafswm graddfa yn cynnwys argostau).
Cynyddu cyflog Swyddog Gwybodaeth a Gwasanaethau'r Wefan am 3 blynedd i gydnabod y dyletswyddau rheoli tîm: **£2,019 yn flynyddol** (uchafswm graddfa yn cynnwys argostau).

4.4.2 Bydd y prosiect hunanwasanaeth yn cynyddu llwyth gwaith Tîm Cynnwys y Wefan o safbwynt datblygu ffurflenni ar-lein newydd (llunio'r ffurflenni, profi a phrofi gyda'r cyhoedd), datblygu systemau newydd (datblygu cynnwys systemau, profi a phrofi gyda'r cyhoedd), datblygu / addasu cynnwys i'w roi ar y wefan.

4.4.3 Mae'n bwysig nodi nad darparu ffurflenni ar-lein yn unig yw hunanwasanaeth. Mae pob ymwelydd â'r wefan yn hunanwasanaethu mewn rhyw ffordd, naill ai drwy chwilio am wybodaeth neu drwy anfon cais am wasanaeth drwy gyfrwng ffurflen. Os yw'r wybodaeth yn hawdd i'w chanfod, yn hawdd i'w deall, yn gywir ac yn gyfredol mae'n osgoi galwad ffôn (ac efallai ymweliad), e.e. Beth yw oriau agor Canolfan Hamdden Porthmadog? Mae gwaith sylweddol wedi ei wneud wrth ddatblygu'r wefan newydd i newid y ffordd mae gwybodaeth yn cael ei chyflwyno ar y wefan a sicrhau mai'r wybodaeth mae ein cwsmeriaid ei eisiau sy'n cael ei darparu, nid yr hyn rydyn ni fel Cyngor yn ei feddwl sydd angen ei darparu.

4.4.4 Bydd angen parhau â'r gwaith presennol a wneir ar y wefan a sicrhau bod y safon bresennol yn cael ei chynnal a'i gwella'n barhaus drwy ymgynghori â'n cwsmeriaid ac ymateb i unrhyw sylwadau / cwynion.

4.4.5 Er mwyn galluogi hyn, bwriedir addasu dyletswyddau 3 aelod presennol y tîm (sy'n gyfystyr â 2.2 swydd llawn amser) i weithio ar y prosiect hunanwasanaeth yn bennaf a chreu swydd newydd dros dro am 3 blynedd i barhau â'r gwaith dyddiol o gynnal a chadw'r wefan, sicrhau boddhad cwsmer a chefnogi rhai elfennau o'r prosiect hunanwasanaeth, e.e. gwaith profi ffurflenni / systemau a phrofi gyda chwsmeriaid.

4.4.6 Bydd y swydd newydd, **Cymhorthydd Gwybodaeth a Gwasanaethau'r Wefan**, ar raddfa cyflog GS6.
**Cost: £26,146 yn flynyddol** (uchafswm graddfa yn cynnwys argostau).

## 4.5 Dadansoddi prosesau

4.5.1 Wrth gyflwyno gwasanaethau ar-lein bydd angen dadansoddi'r broses bresennol o gyflwyno'r gwasanaeth er mwyn ail-ddylunio'r broses ar gyfer hunanwasanaeth. Mae hyn yn gallu golygu newidiadau i'r ffordd mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu er mwyn sicrhau bod y profiad i'r cwsmer yn syml a di-drafferth.

4.5.2 Ar hyn o bryd bydd y gwaith yn cael ei gyflawni fel rhan o ddyletswyddau dydd i ddydd Tîm y We a swyddogion perthnasol Galw Gwynedd a Thechnoleg Gwybodaeth.
**Cost:** Dim

4.5.3 Wrth i *Ffordd Gwynedd* wreiddio, bydd gwasanaethau wedi mynd drwy'r broses hon eu hunain, fydd yn ei dro'n golygu llai o waith dadansoddi prosesau i swyddogion Tîm y We a Galw Gwynedd.

## 4.6 Defnyddio adnoddau Galw Gwynedd i fod yn weinyddwyr y system hunanwasanaeth, i hyrwyddo'r defnydd o hunanwasanaeth a chynnal sgyrsiau dros y we i gefnogi hunanwasanaeth

4.6.1 Mae Galw Gwynedd yn darparu gwasanaeth gweinyddol i hunanwasanaeth presennol Gwefan Cyngor Gwynedd, e.e. cynorthwyo cwsmeriaid sydd methu cael mynediad i'w cyfrif.

4.6.2 Bydd angen i'r gwasanaeth hwn barhau, ond rhagwelir, wrth i'r gwasanaethau ar-lein gynyddu y bydd nifer cwsmeriaid sy'n creu cyfrif ac angen cefnogaeth, yn cynyddu ac felly bydd galw sylweddol am y gwasanaeth gweinyddol hwn am gyfnod.

4.6.3 Bydd angen defnyddio Galw Gwynedd i hyrwyddo'r gwasanaethau ar-lein a chynnig creu cyfrifon ar-lein ar ran cwsmeriaid er mwyn hwyluso'r symudiad o'r sianel ffôn i'r we. Bydd hyn eto'n cynyddu'r galw am wasanaeth gweinyddol Galw Gwynedd am gyfnod.

4.6.4 Bydd angen monitro capasiti yng Ngalw Gwynedd i gyflawni'r swyddogaeth dros dro hon. Gall hyn olygu y bydd cais am gyllid dros dro yn cael ei gyflwyno yn ddibynnol ar sut mae Galw Gwynedd yn ymdopi â'r gwaith ychwanegol y bydd y prosiect yn ei gynhyrchu yn y cyfnod cychwynnol.

4.6.5 Mae nifer o Gynghorau sydd yn rhoi pwyslais ar hunanwasanaeth yn defnyddio sgwrs ar-lein (*webchat*) i gefnogi hunanwasanaeth, e.e. os yw cwsmer yn ansicr sut i gwblhau ffurflen neu'n methu canfod gwybodaeth ar y wefan gallant gysylltu trwy sgwrs fyw ar-lein.
Mae hyn yn ffordd gost-effeithiol o gefnogi cwsmeriaid sydd eisoes ar-lein gan fod modd ymdrin ag o leiaf 3 chwsmer ar yr un pryd. Mae hefyd yn sicrhau ein bod yn cadw'r cwsmer ar-lein yn hytrach na'u bod yn codi'r ffôn.

4.6.6 Mae mwyafrif Cynghorau sy'n defnyddio'r dechnoleg yn gwneud hynny yn ystod oriau swyddfa arferol ac felly ni ragwelir ar hyn o bryd y byddem yn ymestyn oriau agor Galw Gwynedd ar gyfer cynnal sgyrsiau ar-lein.

4.6.7 Byddai'n rhaid hyfforddi aelodau staff Galw Gwynedd i ddefnyddio'r meddalwedd sgwrs ar-lein a byddai angen sicrhau cywirdeb iaith drwy anfon y staff ar gyrsiau Gloywi Iaith.

**4.6.8 Costau:**
**Adnodd ychwanegol yng Ngalw Gwynedd:** i'w asesu ar ôl monitro capasiti
**Meddalwedd sgwrs ar-lein:** Oddeutu £4,000 y flwyddyn, cynnal a chadw (amserlen cyflwyno angen ystyriaeth bellach)
**Cwrs gloywi iaith:** Dim cost uniongyrchol gan fod cyrsiau gloywi iaith yn cael eu cynnal yn fewnol.

## 4.7 Ailgyfeirio rhai o Adnoddau Siopau Gwynedd i fod yn hyrwyddo'r defnydd o hunanwasanaeth

4.7.1 Ar hyn o bryd mae Siopau Gwynedd yn cynnig gwasanaeth o'r tu ôl i gownter lle mae gofyn i'r cwsmer fynd at aelod o staff i ofyn am wasanaeth.

4.7.2 Mae nifer o Gynghorau sy'n rhoi pwyslais ar hunanwasanaeth wedi dargyfeirio adnoddau yn eu siopau-un-stop i fod yn fwy rhagweithiol, h.y. pan fo'r siop yn brysur mae staff yn cerdded y llawr gyda dyfais symudol yn gofyn i'r cwsmer beth oeddan nhw ei eisiau. Os yw'r gwasanaeth roeddent ei eisiau ar gael ar-lein, byddai'r aelod o staff yn cynorthwyo'r cwsmer i gwblhau'r cais am wasanaeth ar-lein, ar y ddyfais symudol. Byddai staff yn cynnig creu cyfrif i'r cwsmer fel eu bod yn gallu hunanwasanaethu'r tro nesaf.

4.7.3 Argymhellir bod Cyngor Gwynedd yn mabwysiadu'r ffordd hon o weithio yn Siopau Gwynedd, drwy ddargyfeirio adnoddau presennol er mwyn cefnogi ac annog hunanwasanaeth ymysg cwsmeriaid.

4.7.4 Byddai angen buddsoddi mewn dyfeisiadau symudol amrywiol a hyfforddi staff er mwyn ymgymryd â'r gwaith.
**Costau:**
**Tabled x 3:** £900
**Teclyn bychan, e.e. ffôn symudol x 3:** £390
**Hyfforddi staff:** Dim cost uniongyrchol gan y bydd yn cael ei gynnal yn fewnol gan staff Tîm y We a staff prosiect Cynhwysiad Digidol

## 4.8 Defnyddio SMS (Short Message Service)

4.8.1 Nid yw mynediad diwifr i'r we ar gael ym mhob rhan o Wynedd ar hyn o bryd, felly ni ellir dibynnu ar anfon negeseuon e-bost yn unig i gwsmeriaid i roi gwybod am wasanaethau newydd / rhoi diweddariadau iddynt am eu ceisiadau am wasanaeth / problemau sydd wedi codi gyda gwasanaeth, e.e. anfon neges iddynt i ymddiheuro nad ydym wedi gallu casglu eu bin oherwydd bod y ffordd wedi cau.

4.8.2 Pan fo cwsmer yn creu cyfrif ar wefan Cyngor Gwynedd dylem ofyn iddynt sut yr hoffent i ni anfon diweddariadau / gwybodaeth iddynt – e-bost a / neu neges destun. *Dylid nodi mai cyswllt un ffordd yn unig sy'n cael ei ystyried ar gyfer neges destun ar hyn o bryd, h.y. Cyngor Gwynedd yn anfon negeseuon testun i gwsmeriaid ond nid yn derbyn negeseuon testun gan gwsmeriaid.*

4.8.3 Mae datrysiad ar gyfer defnyddio'r dechnoleg hon eisoes ar y gweill ar gyfer hunanwasanaeth mewnol i staff Cyngor Gwynedd. Mae modd defnyddio'r datrysiad presennol ar gyfer anfon negeseuon i gwsmeriaid y tu allan i'r Cyngor hefyd. Mae modd anfon hyd at 20,000 neges testun y mis gan ddefnyddio'r cytundeb trwyddedu presennol. Petai'r prosiect mor llwyddiannus fel bod angen anfon mwy na 20,000 neges testun y mis, byddai'n rhaid cael cytundeb trwyddedu gwahanol, fyddai'n golygu costau ychwanegol yn y dyfodol.

## 4.9 Creu 'APP' Cyngor Gwynedd

4.9.1 O ystyried bod y gwaith ymchwil sydd wedi ei gynnal â thrigolion Gwynedd yn nodi mai ffôn clyfar yw'r ddyfais fwyaf poblogaidd ar gyfer mynd ar-lein (25% o'r ymatebwyr) mae angen datblygu 'APP' Cyngor Gwynedd er mwyn galluogi cwsmeriaid i gyflwyno ceisiadau syml am wasanaeth gan ddefnyddio eu ffonau clyfar (heb orfod mynd ar-lein).

4.9.2 Bydd 'APP' cychwynnol yn cael ei ddatblygu erbyn diwedd Hydref 2017, gyda datblygiadau pellach, yn cael eu cyflwyno dros gyfnod o amser.
Cost: £10,000

## 4.10 Marchnata a hyrwyddo'r defnydd o hunanwasanaeth

4.10.1 **Nid yw darparu gwasanaethau ar-lein ar ei ben ei hun yn mynd i symud cwsmeriaid o'r sianel ffôn ac wyneb i wyneb i'r sianel ar-lein.**

4.10.2 Bydd gwaith cychwynnol i hyrwyddo'r hyn sydd ar gael i gwsmeriaid drwy hunanwasanaeth yn dechrau o ddifrif ym mis Tachwedd 2017. Gweler **Atodiad CH** am raglen lawn o'r hyn fydd yn digwydd.

4.10.3 Yn dilyn y gwaith hyrwyddo cychwynnol bydd angen marchnata'n barhaus wrth i wasanaethau newydd gael eu cyflwyno.

4.10.3.1 Bydd angen llunio cynllun marchnata allanol ar y cyd â'r Uned Cyfathrebu ar gyfer pob gwasanaeth newydd a gynigir ar y wefan er mwyn codi ymwybyddiaeth a thargedu carfannau penodol o gwsmeriaid mewn gwahanol ffyrdd yn ddibynnol ar y gwasanaeth dan sylw.

4.10.3.2 Bydd angen llunio cynllun marchnata mewnol ar y cyd â'r Uned Cyfathrebu ar gyfer pob gwasanaeth newydd a gynigir ar y wefan er mwyn annog staff i hyrwyddo'r gwasanaethau gyda chwsmeriaid a galluogi rhai staff penodol (staff y gwasanaeth dan sylw, staff Siopau Gwynedd a Galw Gwynedd) i hyrwyddo a chynorthwyo cwsmeriaid gydag unrhyw ymholiadau am y gwasanaeth ar-lein.

4.10.3.3 Bydd angen defnyddio'r gwaith ymgynghori sydd wedi ei wneud â thrigolion, cydweithio â'r Uned Ymchwil a chydweithio â staff y prosiect Cynhwysiad Digidol er mwyn cynnal gwaith marchnata sydd wedi'i dargedu ar gyfer y gynulleidfa dan sylw a chynorthwyo cwsmeriaid bregus yn dechnegol (assisted digital) i gwblhau ffurflenni ar-lein yn y tymor hir.

4.10.3.4 Bydd elfen o'r gwaith marchnata yn cynnwys mynd allan i lyfrgelloedd, canolfannau hamdden ac allan ar y stryd gyda dyfeisiadau symudol i godi ymwybyddiaeth o wasanaethau newydd. Bydd angen ymestyn y math hwn o farchnata i fod yn ffordd o gynorthwyo cwsmeriaid bregus yn dechnegol (assisted digital) i gwblhau ffurflenni ar-lein yn y tymor hir.

**4.10.4 Costau**

**Cynllun marchnata allanol:** £20,000 dros 2 flynedd (gweler Atodiad CH)
**Cynllun marchnata mewnol:** dim
**Tabled x 2:** £600
**Teclyn bychan, e.e. ffôn symudol x 2:** £260

## 4.11 Newid meddylfryd staff ar draws y Cyngor

**4.11.1 Er mwyn i'r prosiect hunanwasanaeth lwyddo mae angen newid meddylfryd staff ar bob lefel ar draws y Cyngor.**

4.11.2 Nid oes pwrpas cynnig gwasanaethau ar-lein sy'n awgrymu i'r cwsmer eu bod yn mynd i gael gwasanaeth gwell a chyflymach o'r cychwyn cyntaf os nad yw'r staff sy'n darparu'r gwasanaeth yn mynd i weithredu mewn modd gwell a chyflymach.

4.11.3 Ni fydd pob gwasanaeth yn cynnig ei hun i hunanwasanaeth ond, lle mae gwasanaethau yn cynnig eu hunain i hunanwasanaeth, mae'n hanfodol bod yr holl staff sy'n gysylltiedig â'r broses efo'r meddylfryd sydd ei angen i sicrhau llwyddiant y prosiect.

4.11.4 Bydd angen cydweithio'n agos â'r Tîm Datblygu'r Sefydliad a Thîm Ffordd Gwynedd er mwyn cynorthwyo i newid meddylfryd staff a gwasanaethau wrth iddynt ddechrau cynnig gwasanaethau ar-lein.

## 4.12 Newid meddylfryd cwsmeriaid

**4.12.1 Er mwyn i'r prosiect hunanwasanaeth lwyddo mae angen newid meddylfryd rhai carfannau o gwsmeriaid sy'n well ganddynt gysylltu â ni dros y ffôn neu wyneb i wyneb ar hyn o bryd.**

4.12.2 Bydd angen defnyddio'r gwaith ymgynghori sydd wedi ei wneud â thrigolion, cydweithio ag Aelodau, Siopau Gwynedd, Galw Gwynedd, yr Uned Ymchwil, Uned Cyfathrebu a staff y prosiect Cynhwysiad Digidol er mwyn
- sefydlu a deall beth sy'n rhwystro'r carfannau hyn rhag defnyddio hunanwasanaeth
- datblygu cynlluniau gwaith i newid meddylfryd cwsmeriaid, wedi'u targedu ar gyfer gwasanaethau penodol a'r gynulleidfa dan sylw.

# 5 Cynllun gweithredu

5.1.1 Bwriedir datblygu hunanwasanaeth ar 2 lefel:

1. **Datblygu ffurflenni ar-lein sydd wedi'u hintegreiddio gyda'r CRM a / neu swyddfa gefn**
   - byddwn yn penderfynu pa ffurflenni fydd y rhain yn seiliedig ar asesiad o niferoedd defnydd ac arbedion posibl

2. **Integreiddio 'Pyrth' gan gwmnïau allanol gyda 'Fy Nghyfrif' i ddarparu gwasanaeth**
   – ni fyddwn yn annog buddsoddi mewn 'pyrth' allanol oni bai eu bod yn darparu gwasanaeth ar-lein na ellir ei ddatblygu, na'i gynnal a'i gadw'n fewnol, yn gyflymach / rhatach, a'u bod yn darparu gwell gwasanaeth i gwsmeriaid. Bydd angen asesu ym mhob achos a yw buddsoddi mewn 'porth' yn fwy cost effeithiol ac yn cynnig gwell gwasanaeth na defnyddio API i gysylltu system allanol gyda CRM Gwynedd. Dros amser, byddwn yn asesu llwyddiant 'pyrth allanol' sydd yn cael eu defnyddio ar y wefan i weld a ydynt yn gynaliadwy, ac yn llunio cynllun gweithredu pellach ar sail hynny.

Gweler **Atodiad D** sy'n egluro perthynas y gwahanol ddatblygiadau â'i gilydd.

### 5.1.2 Cynllun trosglwyddo gwasanaethau o'r CRM presennol (Siebel) i CRM Gwynedd

O Ionawr 2018 byddwn yn dechrau ar gynllun i drosglwyddo gwasanaethau sydd yn y CRM presennol i CRM Gwynedd. Bydd y cynllun hwn yn gorfod cyd-blethu gyda'r cynllun datblygu gwasanaethau newydd ar-lein gan mai'r un aelodau staff fydd yn cyflawni'r gwaith.

Mae'n bosib y bydd rhai prosesau / gwasanaethau wedi eu trosglwyddo cyn hyn wrth i gyfleoedd godi sy'n galluogi hynny.

5.1.3 **Cynllun trosglwyddo ffurflenni sydd ddim angen cyfrif ar-lein i fod yn rhan o 'Fy Nghyfrif'**
- ar hyn o bryd mae 44 o ffurflenni'n bodoli ar y wefan sydd ddim angen cyfrif i'w cwblhau. Mae'r rhain yn anfon copi o'r cais drwy e-bost i'r gwasanaeth perthnasol, h.y. nid yw'r wybodaeth sy'n cael ei ddarparu gan y cwsmer yn cael ei fwydo'n syth i swyddfa gefn y gwasanaeth (er mwyn creu arbedion).
- byddwn yn defnyddio niferoedd defnydd i flaenoriaethu pa ffurflenni y dylid symud ymlaen i'w hintegreiddio gyda CRM Gwynedd neu'r swyddfa gefn berthnasol er mwyn creu arbedion
- bydd y ffurflenni hyn yn lleihau'n sylweddol dros amser, gyda phob ffurflen ar y wefan yn rhoi'r dewis i gwsmer greu cyfrif er mwyn ei chwblhau yn y pen draw
- rhagwelir y bydd y prosiect yn ddigon aeddfed erbyn 2018 i ddechrau ar y gwaith trosglwyddo, er y byddwn yn manteisio ar unrhyw gyfle i ddechrau ar y gwaith hwn ynghynt. Bydd y cynllun hwn yn gorfod cyd-blethu gyda'r cynllun datblygu gwasanaethau newydd ar-lein a throsglwyddo gwasanaethau o'r CRM presennol gan mai'r un aelodau staff fydd yn cyflawni'r gwaith.

**5.1.4 Sut fath o drafodion sydd fwyaf tebygol o lwyddo?**
Mae ymchwil cenedlaethol a'n gwaith ymchwil ni yn 2016 yn cefnogi'r egwyddor bod angen sefydlu trafodion syml sy'n debygol o fod â nifer defnydd uchel fel man cychwyn, er mwyn annog cwsmeriaid i droi at y wefan am wasanaeth.
Ar ôl sefydlu llwyddiant gyda thrafodion syml gallwn symud ymlaen i edrych ar wasanaethau mwy cymhleth, efallai na fyddai mwyafrif y cwsmeriaid yn dewis eu gwneud ar-lein, ond sy'n rhaid i ni eu datblygu er mwyn gwireddu arbedion. Law yn llaw â hyn byd angen mwy o waith marchnata wedi'i dargedu, a sefydlu trefn i gynorthwyo cwsmeriaid gyda thrafodion o'r fath.

**Y gwasanaethau fydd yn cael eu cyflwyno dros y ddwy flynedd nesaf**

Mae'r cynllun a'r amserlen ar gyfer cyflwyno gwasanaethau hyd at Ebrill 2018 yn eithaf cadarn ond bydd angen ei hadolygu'n rheolaidd wrth i flaenoriaethau newid a chyfleoedd newydd ddod i'r amlwg.

Fel mae pethau'n sefyll ar hyn o bryd dyma'r cynllun:

1. **Ffurflenni sydd angen cyfrif hunanwasanaeth i'w cwblhau. Bydd cwsmer yn gallu dilyn trywydd ei gais trwy ddefnyddio ei gyfrif.**

| Trefn Cyflwyno | Gwasanaeth | Pryd fydd y gwasanaeth yn cael ei gyflwyno? |
|---|---|---|
| 1 | Archebu casgliad gwastraff gardd | Hydref 2016 |
| 2 | Cais am drwyddedau gofal stryd – sgipiau, sgaffald ayyb | Ionawr 2017 |
| 3 | Archebu cyfarpar gwastraff / ailgylchu | Ebrill 2017 |
| 4 | Ymholiad / cwyn gwastraff / ailgylchu | Gorffennaf 2017 |

| | | |
|---|---|---|
| **5** | Rhoi gwybod am fethu casgliad gwastraff / ailgylchu | Medi 2017 |
| **6** | Cais i gasglu gwastraff swmpus | Hydref 2017 |
| **7** | Gwasanaethau Priffyrdd, e.e. rhoi gwybod am dwll yn y ffordd, golau stryd wedi malu ayyb. | Ionawr 2018 |
| **8** | Trosglwyddo ysgol gynradd | Ebrill 2018 |
| **9** | Mynediad ysgol gynradd | Mehefin 2018 |
| **10** | Copïau tystysgrifau geni / priodas/partneriaeth sifil / marwolaeth | Awst 2018 |
| **11** | Apwyntiadau cofrestru genedigaeth / priodas/partneriaeth sifil / marwolaeth | Hydref 2018 |
| **12** | Cais am docyn parcio blynyddol | Rhagfyr 2018 |
| **13** | Ymholiad / cwyn parcio | Chwefror 2019 |
| **14** | Gweddill prosesau sydd yn Siebel sy'n addas i'w trosglwyddo i CRM Gwynedd | Ebrill 2020 |

**2. 'Pyrth' sydd wedi'u hintegreiddio gyda'r cyfrif hunanwasanaeth**

| **Trefn Cyflwyno** | **Gwasanaeth** | **Pryd fydd y gwasanaeth yn cael ei gyflwyno?** |
|---|---|---|
| **1** | Canolfannau Hamdden – ymaelodi, llogi sesiwn ffitrwydd (Porth 'Gladstone') | Hydref 2017 |
| **2** | Taliadau ysgol – cinio, tripiau, dillad ayyb | Hydref 2017 |
| **3** | Treth Cyngor - tracio taliadau, cyflwyno cais am ddebyd uniongyrchol, rhoi gwybod am newid amgylchiadau ayyb (Porth Advantage Digital gan 'Capita') | Ebrill 2018 |
| **4** | Llyfrgelloedd - chwilio catalog ac archebu / adnewyddu llyfr (Porth 'SirsiDynix')<br>Mae'r meddalwedd eisoes wedi ei brynu ac yn cael ei ddefnyddio ar y wefan. Bydd angen ei uno gyda 'Fy Nghyfrif' er mwyn galluogi mewngofnodi unwaith. | Awst 2018 |
| **5** | Budd-daliadau - cyfrifiannell (Porth 'IEG4')<br>Mae'r meddalwedd yn cael ei ddefnyddio ar y wefan yn barod. Bydd angen ei uno gyda 'Fy Nghyfrif' er mwyn galluogi mewngofnodi unwaith. | Rhagfyr 2018 |
| **6** | Budd-daliadau – cais am fudd-dal (Porth 'IEG4')<br>Mae'r meddalwedd yn cael ei ddefnyddio ar y wefan yn barod. Bydd angen ei uno gyda 'Fy Nghyfrif' er mwyn | Rhagfyr 2018 |

| | | |
|---|---|---|
| | galluogi mewngofnodi unwaith. | |
| **7** | Budd-daliadau - newid amgylchiadau (Porth 'IEG4')<br>Mae'r meddalwedd yn cael ei ddefnyddio ar y wefan yn barod. Bydd angen ei uno gyda 'Fy Nghyfrif' er mwyn galluogi mewngofnodi unwaith. | Rhagfyr 2018 |

** Mae trafodaethau cychwynnol wedi cael eu cynnal gyda gwasanaethau ynghylch rhai pyrth eraill fydd o bosib yn cael eu hychwanegu i'r rhestr uchod.*

3. **Cynllun hir dymor**
   Mewn maes sy'n newid yn gyson, ac mewn sefydliad lle mae cyfleodd newydd yn codi'n gyson, nid oes pwrpas cyflwyno cynllun caeth hir dymor o'r gwasanaethau fydd yn cael eu cyflwyno.

   Yn y tymor canolig / hir bydd angen i'r Grŵp Prosiect Hunanwasanaeth weithredu fel a ganlyn:
   a. Sicrhau trosglwyddiad yr holl brosesau darparu gwasanaeth o Siebel i CRM Gwynedd. Bydd hyn yn gwireddu arbediad drwy waredu Siebel a rhyddhau amser staff Galw Gwynedd i weinyddu a hyrwyddo hunanwasanaeth.
   b. Sicrhau trosglwyddiad ffurflenni sydd ddim angen cyfrif ar hyn o bryd i 'Fy Nghyfrif'. Bydd hyn yn galluogi cwsmer i ddilyn trywydd bob cais mae'n ei gyflwyno ar-lein, yn gwella'r gwasanaeth i gwsmer a rheoli disgwyliadau.
   c. Asesu wrth drosglwyddo proses bresennol neu ddatblygu proses newydd, a ddylai cwsmer allu cyflwyno cais am y gwasanaeth heb greu cyfrif.
   d. Blaenoriaethu ceisiadau am hunanwasanaeth gan Wasanaethau'r Cyngor wrth iddynt gael eu cyflwyno, ar sail (i) gwelliant yn y gwasanaeth i gwsmer, (ii) niferoedd fyddai'n defnyddio'r gwasanaeth a (iii) arbedion y gallai ei wireddu.
   e. Adnabod cyfleoedd i gyflwyno hunanwasanaeth mewn meysydd newydd er mwyn gwella gwasanaeth i gwsmer a gwireddu arbedion.

### 5.1.5 Hyrwyddo'r defnydd o hunanwasanaeth a marchnata gwasanaethau sydd ar gael

a. Bydd gwaith cychwynnol i hyrwyddo'r hyn sydd ar gael i gwsmeriaid drwy hunanwasanaeth yn dechrau o ddifrif ym mis Tachwedd 2017. Gweler **Atodiad CH** am raglen lawn o'r hyn fydd yn digwydd.
b. Yn dilyn y gwaith hyrwyddo cychwynnol bydd angen marchnata'n barhaus wrth i wasanaethau newydd gael eu cyflwyno. Gweler **4.10 Marchnata a hyrwyddo'r defnydd o hunanwasanaeth** am ragor o wybodaeth.

# 6 Arbedion / Costau

6.1 Mae nifer o gynghorau yn y gorffennol wedi mabwysiadu cynllun busnes sy'n seiliedig ar osod targed i drosglwyddo canran penodol o'r trafodion o'r sianel wyneb i wyneb a ffôn i drafodion ar-lein (e.e. 40%), ar draws pob gwasanaeth, a defnyddio'r 'gost fesul trafodyn' i roi targed arbedion i'r cynllun yn ei gyfanrwydd.
Ond, o'r herwydd mae'r cynghorau hynny wedi ei chael yn anodd iawn i fesur yr arbedion ac i brofi a yw'r arbedion wedi'u cyflawni ai peidio.

6.2 Awgrymir felly nad yw Cyngor Gwynedd yn dilyn y trywydd hwn o osod targed arbedion penodol i'r cynllun ond yn hytrach, fel man cychwyn, bod y prosiect yn galluogi gwasanaethau ar draws y Cyngor i wireddu arbedion neu doriadau sydd eisoes wedi'u hadnabod. Ymhen amser, bydd rhaid edrych y tu hwnt i'r arbedion presennol a symud ymlaen i weithredu yn y modd a ddisgrifir ym mhwynt 6.3.

6.3 Bydd y prosiect yn mynd ati i adnabod arbedion ychwanegol sydd ddim wedi eu hadnabod hyd yma, ond mae hynny'n gynamserol ar hyn o bryd. Bydd angen llunio cynllun busnes unigol ar gyfer pob prosiect o'r fath er mwyn gweld a yw cyflwyno hunanwasanaeth yn mynd i wireddu arbedion cyn mynd ymlaen i wneud unrhyw ddatblygiadau technegol. Bydd cynllun busnes o'r fath yn edrych ar ddefnydd o'r gwasanaeth ar hyn o bryd (niferoedd trafodion a'r math o gwsmeriaid), faint mae pob trafodyn yn ei gostio ar hyn o bryd, faint fyddai'r gost ar ôl ail-ddylunio'r gwasanaeth, faint o gwsmeriaid sy'n debygol o ddefnyddio'r gwasanaeth penodol hwnnw ar-lein ac felly faint o arbediad y gellir ei ddisgwyl o gyflwyno'r gwasanaeth ar-lein.

6.4 Rhagwelir y bydd y cynllun hunanwasanaeth yn cynnig arbedion drwy gynnig hunanwasanaeth wedi'i gategoreiddio mewn 2 ffordd:

1. **Ffurflenni wedi'u hintegreiddio gyda systemau swyddfa gefn**
   Bydd y rhain yn arbed costau argraffu ffurflenni a phostio yn ogystal â gwaith gweinyddol o fewnbynnu ffurflenni ar ôl eu derbyn, fydd yn ei dro yn rhyddhau amser rhannau o swyddi neu swyddi cyfan.
2. **Trawsnewid y ffordd mae gwasanaeth cyfan yn cael ei ddarparu, gan ddefnyddio hunanwasanaeth ar gyfer cyflwyno rhannau sylweddol o'r gwasanaeth**
   Dyma fydd yn cynnig yr arbedion mwyaf sylweddol, e.e. yn y gwasanaeth Canolfannau Hamdden mae'r prosiect i gyflwyno hunanwasanaeth ar-lein ac yn nerbynfeydd y Canolfannau Hamdden eu hunain yn rhagweld creu arbedion o £60,000.

6.5 Mae'n eithriadol o bwysig bod bob proses yn cael ei rhoi dan y chwyddwydr, a'n bod yn cymryd bob cyfle i ail-ddylunio prosesau, hyd yn oed gyda'r ffurflenni mwyaf syml, er mwyn manteisio ar bob cyfle posib i wella gwasanaeth i gwsmeriaid ac adnabod arbedion.
Bydd Tîm Cynnwys y We, ar y cyd â'r gwasanaeth, yn gallu gwneud hyn gyda phrosesau syml ond pan fydd yn dod yn amlwg bod y newid sydd ei angen yn golygu newid prosesau swyddfa gefn er mwyn adnabod arbedion bydd rhaid cydweithio â Thîm Ffordd Gwynedd er mwyn trawsnewid proses o'r dechrau i'r diwedd.

6.6 Tra mae dewis o sianel arall yn parhau i fod ar gael fydd canran o gwsmeriaid fyth yn dewis newid i'r sianel ar-lein.
Yr unig ffordd o sicrhau 100% o ddefnydd o hunanwasanaeth yw drwy ddiddymu'r sianelau eraill mewn achosion lle mae'n ymarferol ac addas i wneud hynny. Yng Ngwynedd, ar hyn o bryd, mae'n debyg mai prin fydd yr achosion lle mae'n addas gwneud hynny. Pe ystyrid ei fod yn addas gwneud hynny, byddai'n rhaid ystyried yr oblygiadau ar gyfer pob sefyllfa unigol cyn cyflwyno argymhelliad i'w ystyried gan Gabinet y Cyngor.

6.7 Wrth edrych ar yr amcangyfrifon arbedion yn 6.8, sy'n gyfystyr â thua £80,000 y flwyddyn ar gyfartaledd, a'r costau yn 6.9, gwelir y bydd costau'r prosiect wedi eu had-dalu, ar ffurf arbedion, o fewn 5 mlynedd.
Bydd unrhyw wasanaethau a gyflwynir yn ychwanegol i'r hyn a nodir yn 6.8 yn cynnig arbedion pellach.

## 6.8 Arbedion

6.8.1 Yng Ngalw Gwynedd a Siopau Gwynedd bydd 3 elfen i'r arbedion:

1. Gwaredu CRM Siebel
2. Fe ddylai cynnydd yn y nifer o gwsmeriaid sy'n hunanwasanaethu arwain at leihad yn nifer y galwadau ffôn ac i raddau llai, cwsmeriaid yn galw yn Siopau Gwynedd, fydd yn rhyddhau amser staff yn y lleoliadau hynny.
3. Ar hyn o bryd mae 10 ffurflen ar-lein (sy'n anfon y ffurflen fel e-bost heb ei integreiddio â'r swyddfa gefn) yn cael eu gweinyddu yng Ngalw Gwynedd. Mae'n cymryd 14 wythnos y flwyddyn (llawn amser) i weinyddu'r ffurflenni. Bydd y rhan fwyaf o'r amser yna'n cael ei arbed pan fydd y ffurflenni hynny wedi'u trosglwyddo i 'Fy Nghyfrif' ar-lein.

Mae'n bwysig nodi na fydd pob arbediad amser yn arwain at arbediad ariannol gwirioneddol ynddo'i hun.
Fodd bynnag, bydd gwireddu cyfres o arbedion amser yn arwain at arbediad ariannol gwirioneddol a / neu ailgyfeirio adnodd, er mwyn gwella gwasanaeth ymhellach.

6.8.2 Yn yr un modd, mewn Gwasanaethau bydd arbedion yn cael eu gwireddu ar ffurf amser a / neu arian.

### 6.8.3 Arbedion gwirioneddol

| Dyddiad Cyflwyno | Gwasanaeth | Cefndir | Arbediad blynyddol |
|---|---|---|---|
| Ebrill 2020 | Cael gwared ar CRM Siebel | Gwaredu trwydded flynyddol | £23,300 |

### 6.8.4 Cynorthwyo i wireddu arbedion sydd eisoes wedi'u hadnabod / gwireddu mewn gwasanaethau

| Dyddiad Cyflwyno | Gwasanaeth | Cefndir | Amcangyfrif arbediad parhaol hyd yma |
|---|---|---|---|
| 24.10.2016 | Cais am gasgliad gwastraff gardd | Mae'r cynllun yn ei gyfanrwydd yn cyflwyno arbediad o £750,000 (£550,000 drwy godi incwm a £200,000 drwy resymoli rowndiau casglu). | £20,000 |
| 31.10.2017 | Ymaelodi â Chanolfan Hamdden Archebu sesiwn mewn Canolfan Hamdden | Mae'r gwasanaeth eisoes wedi gwireddu arbediad o £60,000. Mae'r Cynllun Hunanwasanaeth wedi galluogi'r Canolfannau Hamdden i ymdopi â'r arbediad sydd wedi ei wneud a sicrhau bod y gwasanaeth yn gynaliadwy yn y dyfodol. | £60,000 |
| 31.10.2017 | Talu am ginio ysgol | | Amcangyfrif ddim ar gael ar hyn o bryd |

### 6.8.5 Arbedion amrywiol ar draws gwasanaethau fydd yn galluogi arbedion effeithlonrwydd yn y dyfodol

| Dyddiad Cyflwyno | Gwasanaeth | Cefndir | Amcangyfrif arbediad blynyddol hyd yma |
|---|---|---|---|
| 01.03.2017 | Cais am drwydded sgip / sgaffald / hordin / adeiladwaith arall | Mae'r gwasanaeth yn arbed 10 munud o amser gweinyddu bob cais ers cyflwyno hunanwasanaeth. | £2,600 |
| 27.04.2017 | Archebu cyfarpar gwastraff ac ailgylchu | Yn seiliedig ar amcangyfrif nifer ceisiadau blynyddol drwy Galw Gwynedd = 11,500 | £14,000 |
| 31.07.2017 | Ymholiad / cwyn gwastraff / ailgylchu | Yn seiliedig ar amcangyfrif nifer ceisiadau blynyddol drwy Galw Gwynedd = 9,000 | £11,000 |
| 31.08.2017 | Rhoi gwybod am fethu casgliad gwastraff / ailgylchu | Yn seiliedig ar amcangyfrif nifer ceisiadau blynyddol drwy Galw Gwynedd = 4,000 | £5,000 |
| 31.10.2017 | Archebu casgliad | Yn seiliedig ar amcangyfrif | £2,500 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gwastraff swmpus | nifer ceisiadau blynyddol drwy Galw Gwynedd = 2,000 | |

6.9 **Costau**

| Rhif | Eitem | Disgrifiad | Pryd fydd angen yr eitem? | Cost cyfalaf | Cost refeniw |
|---|---|---|---|---|---|
| **1** | 1 swydd ychwanegol yn Nhîm Cynnwys y We – graddfa cyflog GS6<br>3 blynedd yn y lle cyntaf | Er mwyn rhyddhau amser Rheolwr y Wefan i reoli'r prosiect hunanwasanaeth, a rhyddhau 1.5 adnodd o'r Tîm Cynnwys i weithio ar ddatblygu hunanwasanaeth ar y wefan mae angen cyflogi 1 adnodd ychwanegol i'r tîm | Bl 1 / 2 / 3 | | £78,438 dros 3 bl. |
| **2** | Honorariwm i'r Rheolwr Prosiect Hunanwasanaeth | | Bl 1 / 2 / 3 | | £7,797 dros 3 bl. |
| **3** | Honorariwm i Swyddog Gwybodaeth a Gwasanaethau'r Wefan | I gydnabod ymgymryd â dyletswyddau rheoli Tîm Cynnwys y We er mwyn rhyddhau Rheolwr y Wefan i reoli'r Prosiect Hunanwasanaeth | Bl 1 / 2 / 3 | | £6,057 dros 3 bl. |
| **4** | Ôl-lenwi yn y gwasanaeth Technoleg Gwybodaeth -<br>3 blynedd yn y lle cyntaf | | Bl 1 / 2 / 3 | £3,600 | £226,752 dros 3 bl. |
| **5** | Prynu dyfeisiadau symudol ar gyfer Siopau Gwynedd a staff fydd yn mynd i Lyfrgelloedd / | 5 tabled<br>5 ffôn clyfar | Bl 1 | £2,150 | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Canolfannau Hamdden / lleoliadau eraill i hyrwyddo gwasanaethau penodol fel rhan ymgyrchoedd marchnata a chynorthwyo cwsmeriaid bregus (*assisted digital*) | | | | |
| **6** | Datblygu APP Cyngor Gwynedd | Cost datblygu APP | Bl 2 / 3 | £10,000 | |
| **7** | Cynllun marchnata | Cynllun wedi ei ddatblygu ar y cyd â'r Uned Cyfathrebu – gellir marchnata llawer o elfennau am ddim ond rhaid cael cyllideb ar gyfer rhai elfennau | Bl 2 / 3 | | £20,000 dros 2 fl. |
| | **Is-gyfanswm** | | | **£15,750** | **£339,044** |
| | **Cyfanswm** | | | **£354,794** | |

## 7 Sut byddwn ni'n mesur llwyddiant?

1. Bodlonrwydd cwsmeriaid
2. Nifer sy'n creu cyfrif
3. Sawl cais am wasanaeth sy'n cael eu cyflwyno drwy'r gwahanol sianeli
4. Gwir arbedion mae'r Cyngor yn eu gwireddu

Bydd angen cynnal asesiad ar ôl cyflwyno pob gwasanaeth ar-lein i weld pa mor llwyddiannus ydyw o edrych ar y 4 elfen uchod ac er mwyn dysgu gwersi ar gyfer cyflwyno gwasanaethau dilynol.

## 8 Atodiadau

**ATODIAD A**

**CWESTIYNAU AROLWG DEFNYDD O'R WE AR-LEIN AC WYNEB YN WYNEB**

Cynhaliwyd rhwng 24 Mehefin 2016 ac 18 Gorffennaf 2016

1. Ym mha grŵp oedran ydych chi?
   Which age group are you in?
   16-24
   25-44
   45-64
   65+

2. Beth yw eich côd post?
   What is your postcode?

3. Pa un o rhain sy'n eich disgrifio orau?
   Which of these best describes you?
   Gweithio / Working
   Ddim yn gweithio / Not working
   Wedi ymddeol / Retired

4. Ydych chi'n defnyddio'r we o gwbl?
   Do you use the internet at all?
   Ydw / Yes
   Nac ydw / No     Pam? Why not?

5. Ydych chi'n mynd ar y we er mwyn cymdeithasu – defnyddio Facebook / Twitter ayyb?
   Do you go online to socialise – use Facebook / Twitter etc?
   Ydw / Yes
   Nac ydw / No     Pam? / Why not?

6. Ydych chi'n mynd ar y we er mwyn siopa / bancio?
   Do you do online shopping / banking?
   Ydw / Yes
   Nac ydw / No     Pam? / Why not?

7. Pa ddyfais rydych chi ei defnyddio fwyaf i fynd ar-lein?
   Which device you you use most to go online?
   Smartphone
   Tabled / Tablet (e.e. ipad)
   Gliniadur / Laptop
   Cyfrifiadur / Computer
   Arall / Other

8. Pa rai o'r dyfeisiadau hyn sydd ganddoch chi?
   Which of these devices do you own?
   Smartphone

Tabled / Tablet(e.e. ipad)
Gliniadur / Laptop
Cyfrifiadur / Computer
Arall / Other

9. Ydych chi'n defnyddio gwefan Cyngor Gwynedd yn barod i ofyn am wasanaethau?
Do you already use Gwynedd Council's website to ask for services?
Ydw / Yes Be? / What?
Nac ydw / No Pam? / Why not?

10. Petai'r gwasanaethau hyn ar gael ar wefan Cyngor Gwynedd pa rai fysa chi'n eu defnyddio?
If these services were available on Gwynedd Council's website which ones would you use?

1. **Dweud wrthym am broblem**, e.e. golau stryd wedi malu, twll yn y ffordd, problem biniau, baw ci
**Tell us about a problem**, e.g. broken street light, pothole, bins problem, dog fouling
2. **Gwneud cais am rhywbeth syml**, e.e. archebu bin newydd, ymaelodi efo'r llyfrgell, gwneud cais am le i blentyn mewn ysgol
**Apply for something simple**, e.g. order a new bin, join the library, apply for a place in a school
3. **Gwneud cais a thalu am rhywbeth syml**, e.e. casgliad gwastraff swmpus, trwydded parcio, trwydded lansio cwch
**Apply and pay for something simple**, e.g. bulky waste collection, parking permit, permit to launch a boat
4. **Gwneud cais am rhywbeth mwy personol**, e.e. cais am fudd-dal, cais am gymorth gan y gwasanaethau cymdeithasol
**Apply for something more personal**, e.g. benefits application, help from social services
5. **Gwneud cais a thalu am rhywbeth mwy personol / swyddogol**, e.e. trwydded ar gyfer eich busnes
**Apply and pay for something more personal / official**, e.g. a licence for your business
6. **Archebu / trefnu rhywbeth**, e.e. apwyntiad i gofrestru genedigaeth / marwolaeth, archebu cwrt chwaraeon
**Book something**, e.g. an appointment to register a birth / death, book a sports court
7. **Talu am rhywbeth**, e.e. Treth Cyngor, anfoneb am wasanaeth
**Pay for something**, e.g. Council Tax, invoice for a service
8. **Gwirio (checkio) rhywbeth**, e.e. beth sydd wedi digwydd i gais am wasanaeth rydych wedi'i gyflwyno ar-lein, faint o Dreth Cyngor rydych wedi'i dalu, ceisiadau cynllunio yn ymyl eich tŷ chi
**Check something**, e.g. the status of a request for service you've submitted online, how much Council tax you've paid, any planning application near your home
9. **Arall**
**Other**

11. Ym mha iaith rydych chi'n defnyddio'r we?
    Which language do you use online?
    Cymraeg / Welsh
    Saesneg / English
    Arall / Other


12. Unrhyw sylwadau eraill?
    Any other comments?

**ATODIAD B**

**Canlyniadau Holiadur defnydd o wefan Cyngor Gwynedd, Gorffennaf 2016**

## 1. Ystadegau sylfaenol am yr ymatebion

Cafwyd **990** o ymatebion i'r holiadur:




*Grŵp oedran*

| | Ymatebion ar-lein | | Wyneb-yn-wyneb | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| 16-24 oed | 90 | 13.6 | 43 | 13.2 | 133 | 13.4 |
| 25-44 oed | 217 | 32.7 | 107 | 32.8 | 324 | 32.7 |
| 45-64 oed | 173 | 26.1 | 115 | 35.3 | 288 | 29.1 |
| 65+ oed | 84 | 12.7 | 61 | 18.7 | 145 | 14.6 |
| Heb ei nodi | 100 | 15.1 | 0 | 0.0 | 100 | 10.1 |
| **Cyfanswm** | **664** | **100.0** | **326** | **100.0** | **990** | **100.0** |

*Cyflogaeth*

| | Ymatebion ar-lein | | Wyneb-yn-wyneb | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Gweithio | 366 | 55.1 | 191 | 58.6 | 557 | 56.3 |
| Ddim yn gweithio | 42 | 6.3 | 21 | 6.4 | 63 | 6.4 |
| Wedi ymddeol | 95 | 14.3 | 80 | 24.5 | 175 | 17.7 |
| Arall | 31 | 4.7 | 33 | 10.1 | 64 | 6.5 |
| Heb ei nodi | 130 | 19.6 | 1 | 0.3 | 131 | 13.2 |
| **Cyfanswm** | **664** | **100.0** | **326** | **100.0** | **990** | **100.0** |

(cyfran uwch o'r ymatebion wyneb-yn-wyneb wedi nodi "Arall", ond dim manylion pellach wedi'u nodi ar gyfer mwyafrif yr achosion)

*Ardal ddaearyddol*
(ar sail cod post cartref yr ymatebydd; nid o reidrwydd lle casglwyd yr ymateb)

| | **Ymatebion ar-lein** | | **Wyneb-yn-wyneb** | | **Cyfanswm** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Bangor | 95 | 14.3 | 58 | 17.8 | 153 | 15.5 |
| Caernarfon | 126 | 19.0 | 61 | 18.7 | 187 | 18.9 |
| Dolgellau | 25 | 3.8 | 23 | 7.1 | 48 | 4.8 |
| Ffestiniog | 17 | 2.6 | 23 | 7.1 | 40 | 4.0 |
| Llŷn | 71 | 10.7 | 33 | 10.1 | 104 | 10.5 |
| Penllyn | 10 | 1.5 | 19 | 5.8 | 29 | 2.9 |
| Porthmadog | 45 | 6.8 | 36 | 11.0 | 81 | 8.2 |
| Tywyn | 16 | 2.4 | 5 | 1.5 | 21 | 2.1 |
| **Cyfanswm ellir eu priodoli i ardaloedd yng Ngwynedd** | **405** | **61.0** | **258** | **79.1** | **663** | **67.0** |
| Cod post anghyflawn ond gwybod ei fod rywle yng Ngwynedd | 12 | 1.8 | 10 | 3.1 | 22 | 2.2 |
| **Cyfanswm Gwynedd** | **417** | **62.8** | **268** | **82.2** | **685** | **69.2** |
| Ynys Môn | 27 | 4.1 | 13 | 4.0 | 40 | 4.0 |
| Sir arall gyfagos * | 17 | 2.6 | 7 | 2.1 | 24 | 2.4 |
| **Cyfanswm ellir eu priodoli i leoliad** | **461** | **69.4** | **288** | **88.3** | **749** | **75.7** |
| Dim cod post wedi'i nodi | 141 | 21.2 | 10 | 3.1 | 151 | 15.3 |
| Cod post anghyflawn, neu ddim mewn ardal gyfagos | 62 | 9.3 | 28 | 8.6 | 90 | 9.1 |
| **Cyfanswm** | **664** | **100.0** | **326** | **100.0** | **990** | **100.0** |


** sir arall gyfagos = Conwy, Dinbych, Fflint, Wrecsam, Powys, Ceredigion*

*Casgliadau:*

- Cafwyd bron fil o ymatebion i'r ymgynghoriad.
- Daeth tua dwy ran o dair o'r ymatebion yma drwy'r holiadur ar-lein.
- Fe lwyddodd yr ymarferiad casglu gwybodaeth wyneb-yn-wyneb i gael mwy o gynrychiolaeth o grwpiau oedran hŷn, ac o ardaloedd gwledig y sir yn enwedig Meirionnydd, na pe byddem wedi dibynnu ar yr arolwg ar-lein yn unig.
- Mae bylchau yn yr wybodaeth sylfaenol (grŵp oedran, cod post ayb) yn rhywfaint o broblem. Mae'r ymarferiad wyneb-yn-wyneb wedi helpu yn hyn o beth (llai o fylchau yma nag yn y sampl ar-lein) ond, er enghraifft, dim ond tua dwy ran o dair o'r holl ymatebion sydd modd eu priodoli i ardaloedd penodol o Wynedd.

## 2. Defnydd presennol o'r we

*Defnyddio'r we o gwbl*




Roedd 25 o'r 29 oedd ddim yn defnyddio'r we wedi nodi rheswm am hynny. Y rhesymau amlycaf oedd diffyg cyfrifiadur / dyfais i gysylltu â'r we (11) a diffyg diddordeb (5).

Fesul dull ymateb:

| | **Ymatebion ar-lein** | | **Wyneb-yn-wyneb** | | **Cyfanswm** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Yn defnyddio'r we | 479 | 72.1 | 302 | 92.6 | 781 | 78.9 |
| Ddim yn defnyddio'r we | 8 | 1.2 | 21 | 6.4 | 29 | 2.9 |
| Heb ateb | 177 | 26.7 | 3 | 0.9 | 180 | 18.2 |
| **Cyfanswm** | **664** | **100.0** | **326** | **100.0** | **990** | **100.0** |

Fesul grŵp oedran:

| | **16-24 oed** | | **25-44 oed** | | **45-64 oed** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Yn defnyddio'r we | 105 | 78.9 | 298 | 92.0 | 262 | 91.0 |
| Ddim yn defnyddio'r we | 0 | 0.0 | 1 | 0.3 | 11 | 3.8 |
| Heb ateb | 28 | 21.1 | 25 | 7.7 | 15 | 5.2 |
| **Cyfanswm** | **133** | **100.0** | **324** | **100.0** | **288** | **100.0** |

| | **65+ oed** | | **Heb nodi oedran** | | **Cyfanswm** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Yn defnyddio'r we | 111 | 76.6 | 5 | 5.0 | 781 | 78.9 |
| Ddim yn defnyddio'r we | 16 | 11.0 | 1 | 1.0 | 29 | 2.9 |
| Heb ateb | 18 | 12.4 | 94 | 94.0 | 180 | 18.2 |
| **Cyfanswm** | **145** | **100.0** | **100** | **100.0** | **990** | **100.0** |

Fesul ardal:

| | **Bangor** | | **Caernarfon** | | **Dolgellau** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Yn defnyddio'r we | 138 | 90.2 | 168 | 89.8 | 45 | 93.8 |
| Ddim yn defnyddio'r we | 5 | 3.3 | 5 | 2.7 | 1 | 2.1 |
| Heb ateb | 10 | 6.5 | 14 | 7.5 | 2 | 4.2 |

| Cyfanswm | 153 | 100.0 | 187 | 100.0 | 48 | 100.0 |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | Ffestiniog | | Llŷn | | Penllyn | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Yn defnyddio'r we | 35 | 87.5 | 92 | 88.5 | 27 | 93.1 |
| Ddim yn defnyddio'r we | 2 | 5.0 | 2 | 1.9 | 1 | 3.4 |
| Heb ateb | 3 | 7.5 | 10 | 9.6 | 1 | 3.4 |
| **Cyfanswm** | **40** | **100.0** | **104** | **100.0** | **29** | **100.0** |


| | Porthmadog | | Tywyn | | Arall / Heb nodi | | Cyfanswm | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Yn defnyddio'r we | 68 | 84.0 | 20 | 95.2 | 188 | 57.5 | 781 | 78.9 |
| Ddim yn defnyddio'r we | 4 | 4.9 | 0 | 0.0 | 9 | 2.8 | 29 | 2.9 |
| Heb ateb | 9 | 11.1 | 1 | 4.8 | 130 | 39.8 | 180 | 18.2 |
| **Cyfanswm** | **81** | **100.0** | **21** | **100.0** | **327** | **100.0** | **990** | **100.0** |

*Casgliadau:*

- Ychydig iawn o ymatebwyr a nododd nad ydynt yn defnyddio'r we o gwbl. Yn amlwg nid yw hyn yn annisgwyl o safbwynt y sampl ar-lein ond mae'n berthnasol i'r ymatebion wyneb-yn-wyneb hefyd.
- Tra gellid tybio efallai fod hyn yn arwydd nad yw'r ymarferiad wyneb-yn-wyneb wedi llwyddo i gyrraedd trawsdoriad teg o bobl – mae'r ffaith fod 81% o oedolion Cymru gyfan yn defnyddio'r we[1] yn awgrymu nad yw'r canlyniadau yma mor annisgwyl â hynny.
- Mae rhywfaint o dystiolaeth fod cyfran is o fewn yr oedrannau hŷn yn defnyddio'r we, ond hyd yn oed yma mae'r mwyafrif llethol o ymatebwyr yn ei ddefnyddio.
- Nid oes patrwm clir yn amlwg o ran defnydd is neu uwch o'r we mewn gwahanol ardaloedd daearyddol.

[1] Arolwg Cenedlaethol Cymru, 2014/15

*Defnyddio'r we er mwyn cymdeithasu – Facebook, Twitter ayb*




Roedd 164 o'r 225 nad oedd yn defnyddio'r we i gymdeithasu wedi nodi rheswm am hynny. Y rhesymau amlycaf oedd diffyg awydd / diddordeb (67) a phryderon am ddiogelwch / preifatrwydd (24).

Fesul dull ymateb:

| | **Ymatebion ar-lein** | | **Wyneb-yn-wyneb** | | **Cyfanswm** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Yn defnyddio'r we i gymdeithasu | 365 | 55.0 | 219 | 67.2 | 584 | 59.0 |
| Ddim yn defnyddio'r we i gymdeithasu | 122 | 18.4 | 103 | 31.6 | 225 | 22.7 |
| Heb ateb | 177 | 26.7 | 4 | 0.9 | 181 | 18.3 |
| **Cyfanswm** | **664** | **100.0** | **326** | **100.0** | **990** | **100.0** |

Fesul grŵp oedran:

| | **16-24 oed** | | **25-44 oed** | | **45-64 oed** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Yn defnyddio'r we i gymdeithasu | 98 | 73.7 | 269 | 83.0 | 170 | 59.0 |
| Ddim yn defnyddio'r we i gymdeithasu | 7 | 5.3 | 32 | 9.9 | 102 | 35.4 |
| Heb ateb | 28 | 21.1 | 23 | 7.1 | 16 | 5.6 |
| **Cyfanswm** | **133** | **100.0** | **324** | **100.0** | **288** | **100.0** |

| | **65+ oed** | | **Heb nodi oedran** | | **Cyfanswm** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Yn defnyddio'r we i gymdeithasu | 44 | 30.3 | 3 | 3.0 | 584 | 59.0 |
| Ddim yn defnyddio'r we i gymdeithasu | 83 | 57.2 | 1 | 1.0 | 225 | 22.7 |
| Heb ateb | 18 | 12.4 | 96 | 96.0 | 181 | 18.3 |
| **Cyfanswm** | **145** | **100.0** | **100** | **100.0** | **990** | **100.0** |

Fesul ardal:

| | **Bangor** | | **Caernarfon** | | **Dolgellau** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** | **Nifer** | **%** |
| Yn defnyddio'r we i gymdeithasu | 117 | 76.5 | 123 | 65.8 | 28 | 58.3 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ddim yn defnyddio'r we i gymdeithasu | 27 | 17.6 | 50 | 26.7 | 18 | 37.5 |
| Heb ateb | 9 | 5.9 | 14 | 7.5 | 2 | 4.2 |
| **Cyfanswm** | **153** | **100.0** | **187** | **100.0** | **48** | **100.0** |


| | **Ffestiniog** | | **Llŷn** | | **Penllyn** | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | % | **Nifer** | % | **Nifer** | % |
| Yn defnyddio'r we i gymdeithasu | 28 | 70.0 | 75 | 72.1 | 23 | 79.3 |
| Ddim yn defnyddio'r we i gymdeithasu | 9 | 22.5 | 19 | 18.3 | 5 | 17.2 |
| Heb ateb | 3 | 7.5 | 10 | 9.6 | 1 | 3.4 |
| **Cyfanswm** | **40** | **100.0** | **104** | **100.0** | **29** | **100.0** |

| | **Porthmadog** | | **Tywyn** | | **Arall / Heb nodi** | | **Cyfanswm** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Nifer** | % | **Nifer** | % | **Nifer** | % | **Nifer** | % |
| Yn defnyddio'r we i gymdeithasu | 53 | 65.4 | 13 | 61.9 | 124 | 37.9 | 584 | 59.0 |
| Ddim yn defnyddio'r we i gymdeithasu | 18 | 22.2 | 7 | 33.3 | 72 | 22.0 | 225 | 22.7 |
| Heb ateb | 10 | 12.3 | 1 | 4.8 | 131 | 40.1 | 181 | 18.3 |
  - i) sefydlu cyfrif ymaelodi â Chanolfan Hamdden ac archebu sesiynau mewn Canolfan Hamdden
  - ii) eu darbwyllo i ddefnyddio'r ystod ehangach o wasanaethau sydd ar gael

- Gwasanaethau Priffyrdd a Bwrdeistrefol
  - i) sefydlu cyfrif i archebu casgliad gwastraff gardd, archebu casgliad gwastraff swmpus, cwyno am fethu casgliad ayyb
  - ii) eu darbwyllo i ddefnyddio'r ystod ehangach o wasanaethau sydd ar gael

**Pryd?**

| | |
|---|---|
| **Mehefin** | • Cytuno ar y briff, y rhaglen waith a'r amserlen<br>• Comisiynu dylunydd |
| **Gorffennaf / Awst / Medi** | • Archebu wythnos dosbarthu Newyddion Gwynedd<br>• Datblygu'r brand (delwedd, deunyddiau marchnata, Ap ayyb) |

| | |
|---|---|
| **Hydref** | • Cynhyrchu'r deunyddiau |
| **Tachwedd / Rhagfyr / Ionawr** | • Lansio'r ymgyrch – yn dechrau 13 Tachwedd 2017<br>1. Newyddion Gwynedd – prif stori – dosbarthu wythnos 13 Tachwedd 2017<br>2. Ymgyrch gwefannau cymdeithasol<br>3. Galw Gwynedd yn codi ymwybyddiaeth gyda chwsmeriaid dros y ffôn (bydd hyn yn barhaus o fis Tachwedd ymlaen)<br>4. Siopau Gwynedd yn codi ymwybyddiaeth gyda chwsmeriaid wyneb yn wyneb (bydd hyn yn barhaus o fis Tachwedd ymlaen)<br>5. Cyfres o sesiynau 'galw heibio' ar gyfer cwsmeriaid yn cael eu cynnal gan dîm Gwynedd Ddigidol mewn lleoliadau ar draws y Sir<br>6. Cyfres o sesiynau 'galw heibio' ar gyfer Aelodau er mwyn codi ymwybyddiaeth<br>7. Hysbysebion ar-lein<br>8. Hysbysebion radio<br>9. Datganiadau i'r wasg<br>10. Dosbarthu gwybodaeth a rhoi baneri gwybodaeth 'pop-up' mewn Canolfannau Hamdden, Llyfrgelloedd a Siopau Gwynedd<br>11. E-bostio cwsmeriaid presennol y Canolfannau Hamdden yn rhoi gwybod am y gwasanaeth<br>12. Dosbarthu gwybodaeth i rieni drwy'r ysgolion<br>13. Rhoi gwybod am y gwasanaeth ar-lein wrth atgoffa cwsmeriaid i adnewyddu eu casgliad gwastraff gardd |


**Costau hyrwyddo**

| | | |
|---|---|---|
| **Dyluniadau** | Datblygu brand i farchnata hunanwasanaeth | £3,000 |
| **Newyddion Gwynedd** | Erthygl a llun, astudiaethau achos | £500 |
| **Datganiadau i'r wasg** | Cyhoeddi datganiad i gyd-fynd a dosbarthu Newyddion Gwynedd a chyfres o ddatganiadau pellach i ddilyn | £0 |
| **Ymgyrch gwefannau cymdeithasol** | Cyfres o negeseuon, hysbysebion a delweddau<br>Twitter, Facebook, Instagram<br>Clipiau fideo | £200 |
| **Hysbysebion ar-lein** | | £1,250 |
| **Hysbysebion radio (Capital FM)** | | £1,500 |
| **Hysbysebion papurau bro** | | £500 |
| **Baneri 'pop up'** | Siopau Gwynedd, llyfrgelloedd, canolfannau hamdden, digwyddiadau | £850 |
| **Cerdyn post A6** | Cymraeg a Saesneg gefn wrth gefn | £360 |
| **'Flyer' A5** | Cymraeg a Saesneg gefn wrth gefn | £810 |

| | | |
|---|---|---|
| **Posteri A3 & A4** | Ar gyfer Canolfannau Hamdden, ysgolion cynradd, llyfrgelloedd ayyb | £50 |
| **Baneri cynfas** | Meysydd parcio<br>Adeiladau Cyngor Gwynedd | £650 |
| **Cerdyn busnes / sticeri** | | £330 |
| **Loriau sbwriel** | Neges ar loriau sbwriel | £5,000 |
| **Hyrwyddo pellach** | Ymgyrchoedd pellach ym Mlwyddyn 3 | £5,000 |
| **Cyfanswm** | | £20,000 |

**ATODIAD D - Datblygu Hunanwasanaeth Cyngor Gwynedd**





**ATODIAD DD**

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | 29 Mehefin, 2016 |
| **PWNC** | Dadansoddiad o'r adnodd ychwanegol sydd ei angen i ddatblygu'r sianel ddigidol yng Ngwynedd. |
| **AWDUR** | Huw Ynyr |
| **PAM FOD Y MATER YN CODI** | Nid oes digon o adnodd yn y gwasanaeth TG i ymdopi a phrosiect o'r raddfa yma a boddhau gweddill rhaglen waith datblygu'r Cyngor. |

## 1. Cefndir

**1.1** Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu sianel ddigidol i hwyluso mynediad at wasanaethau'r Cyngor mewn ffordd sy'n fwy effeithiol ac effeithlon na'r sianeli traddodiadol.

**1.2** Fe fydd y rhaglen waith ar gyfer datblygu'r sianel yn cymryd 3 blynedd ac yn cael ei wasanaethu gan 4 aelod o'r tîm datblygu.

**1.3** Mae rhaglen waith yr uned datblygu wedi ei ail-flaenoriaethu ar gyfer cychwyn y prosiect yma cyn gynted â phosib, sy'n golygu bod nifer o brosiectau'n llithro.

**1.4** Fe fydd angen ychwanegu dau aelod o staff dros-dro fel ôl-lenwad i barhau i weithio ar weddill anghenion datblygu sydd wedi eu gwerthuso fel datblygiadau dilys sy'n cynnig gwelliannau i'r Cyngor. Mae gwerth dwy flynedd o un adnodd wedi ei lithro'n barod er mwyn hwyluso'r gwaith o gyflwyno'r sianel ddigidol.

**1.5** Fe fydd y rhaglen waith yn parhau i gynyddu, ac felly fe fydd yr adnoddau i ôl lenwi angen parhau drwy gydol cyfnod y prosiect o gyflwyno'r sianel ddigidol. Mae gofyn felly am ddau ddatblygwr am gyfnod dros dro o dair blynedd.

**1.6** Mae ychwanegu system o faint a chymhlethdod y sianel ddigidol yn codi cwestiwn am ei gefnogi i'r dyfodol. Mae'n gynamserol i wneud dadansoddiad ar hyn o bryd, ond mae angen paratoi ar gyfer y cyfnod wedi i'r sianel gael ei chyflwyno, sef o flwyddyn 4 ymlaen.

1.7 **Crynodeb o'r costau:**

| | |
|---|---|
| **Costau dros 3 blynedd ar gyfer adnoddau:** | **£226,752** |
| **Costau un tro (cyfrifiadur ac offer swyddfa):** | **£3,600** |

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

## Adroddiad i gyfarfod Cabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **03/10/2017** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Gareth Thomas** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Owen Owens** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **32169** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Gwireddu y Cynllun Clwb Brecwast** |

### 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

1.1 Yn dilyn cyfnod ymgynghori argymhellir codi ffi o £0.80 am yr elfen gofal plant cyn y clwb brecwast, gan roi disgownt i deuluoedd gyda 3 neu ragor o blant, gyda'r trefniadau hynny i gychwyn ar y 6ed o Dachwedd 2017.

### 2 CYFLWYNIAD

2.1 Oherwydd y pwysau ariannol enfawr sy'n wynebu Cyngor Gwynedd o ganlyniad i doriadau ariannol gan y llywodraeth, roedd lleihau'r arian oedd yn cael ei wario ar drefniadau gofal plant cyn-ysgol yn un o'r opsiynau a gyflwynwyd fel rhan o ymgynghoriad cyhoeddus Her Gwynedd.

2.2 Yng nghyfarfod y Cyngor llawn ar y 3ydd o Fawrth 2016 penderfynwyd y dylid torri £100,000 oddiar y gyllideb brecwast.

2.3 Cyllideb y cynllun 'Brecwast am Ddim' cyn gweithredu'r toriad yw £557,300 a defnyddir yn bennaf ar gyfer gostau gweithwyr a chostau bwyd.

2.4 Ar hyn o bryd, mae 75 o ysgolion cynradd Gwynedd yn cynnig gofal plant cyn-ysgol rhwng 8yb* ac 8.50yb*. Fel rhan o'r drefn, mae cynllun brecwast am ddim Llywodraeth Cymru yn cael ei ddarparu.

2.5 Y ddau opiswn dan ystyriaeth oedd:

a) darparu brecwast am ddim rhwng 8.25yb* a 8.50yb*, ond gwneud i ffwrdd gyda'r gofal plant cyn-ysgol am ddim sy'n cael ei ddarparu rhwng 8yb* a 8.25yb*;
b) darparu brecwast am ddim rhwng 8.25yb* a 8.50yb* a chyflwyno ffi am ddarparu gofal plant ar gyfer rheini sydd yn awyddus ei dderbyn rhwng 8yb* a 8.25yb*. Pe byddai'r cynnig yma yn cael ei ddewis, ni fyddai unrhyw

ffi yn cael ei godi ar gyfer y brecwast ysgol am ddim rhwng 8.25yb* a 8.50yb*.

*amseroedd enghreifftiol yn unig

## 3 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1 Bu i'r Cyngor gynnal ymgynghoriad ar y ddau opsiwn uchod i enyn barn bobl Gwynedd am yr opsiwn ffafriedig drwy ofyn i drigolion gwblhau holiadur byr – naill ai ar wefan y Cyngor neu holiadur papur oedd ar gael mewn llyfrgelloedd lleol a Siopau Gwynedd. Hefyd bu i lythyrau gael eu dosbarthu i rieni ym mis Gorffennaf i'w hannog i gymryd rhan yn yr arolwg. Roedd gan drigolion hyd at 1 Medi 2017 i gwblhau'r arolwg (www.gwynedd.llyw.cymru/clwb-brecwast).

3.2 Crynhoir prif ganlyniadau'r ymgynghoriad isod, ceir ymateb llawn yr ymgynghoriad yn Atodiad 1.

- Fe dderbyniwyd 1,358 o ymatebion ar-lein a 30 o ymatebion papur
- O'r ymatebion roedd 84% yn ferched a 50% o'r ymatebwyr yn y grwp oedran 30 – 39 oed
- Roedd 46% yn riant / gofalwr i 1 plentyn oed cynradd a 38% yn riant / gofalwr i 2 blentyn oed cynradd
- Roedd rhan fwyaf o'r sylwadau yn nodi bod y clwb brecwast yn hanfodol i alluogi rhieni i fynd i weithio a bod y clwb yn adnodd gwerthfawr iawn gyda phlant yn mwynhau mynychu'r clwb
- O ran yr opsiynau a ymgynghorwyd arnynt roedd 72.8% o'r ymatebwyr yn ffafrio 'Peidio newid amser y clwb brecwast presennol ond codi ffi am yr elfen gofal rhwng 8:00yb* a 8:25yb*' gan y byddai newid yr oriau yn golygu byddai'r clwb yn cychwyn yn rhy hwyr ac yn effeithio rhieni i fynd i weithio / cadw swydd
- Nodwyd 73.6% y byddent yn defnyddio'r clwb pe bai ffi yn cael ei godi; o'r rhai na fyddai'n talu byddai hynny oherwydd fforddiadwyedd ac felly'n gorfod gwneud trefniadau eraill
- O ran lefel y ffi roedd 43% yn ffafrio 50c y sesiwn tra bod 26% yn fodlon talu £1 y sesiwn
- Roedd 55.4% yn teimlo na ddylid rhoi disgownt i blant sy'n derbyn cinio am ddim. Y prif reswm a nodwyd oedd nad oedd y rhieni hynny yn gweithio ac felly ddim angen clwb gofal
- Roedd 60.2% yn credu dylai rhieni gyda 3 neu ragor o blant dderbyn disgownt. Fe dderbyniwyd sylwadau pellach yn awgrymu dylai teuluoedd rhieni sengl a teuluoedd gyda 2 neu ragor o blant dderbyn disgownt yn ogystal.

3.3 Mae'r ffi o £0.80 a argymhellir wedi ei osod drwy ystyried:

- y toriad anghenrheidiol;
- y costau gweinyddol o gasglu cyfraniadau'r rhieni; a'r
- gostyngiad niferoedd tebygol fydd yn mynychu'r eflen gofal oherwydd cyflwyno ffi.

3.4 Mae Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei gynnal (gweler Atodiad 2) sy'n amlygu'r effaith o godi ffi ar deuluoedd tlawd, yn enwedig teuluoedd un rhiant ifanc a chartrefi sydd â rhywun anabl ynddynt. Yn hynny o beth, ac o ystyried yr ymateb i'r ymgynghoriad fe gynigir disgownt i deuluoedd gyda 3 neu ragor o blant i leihau'r effaith.

## 4 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### 4.1 Barn y Swyddogion Statudol

4.1.1 Y Pennaeth Cyllid

"Wedi i mi adolygu'r modelu ariannol perthnasol, ar sail y wybodaeth sydd ar gael, a gan ystyried lleihad tebygol yn y gofyn am y ddarpariaeth gofal, cadarnhaf ei fod yn rhagdybiaeth resymol bod codi ffi 80c am gynhyrchu incwm digonol i wireddu'r arbediad ariannol sy'n ofynnol. Felly, rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisir."

4.1.2 Y Swyddog Monitro

"Mae gwaith ymgynghori manwl wedi ei wneud ar opsiynau ar gyfer symud y mater yma ymlaen ac ymdrinnir â hyn yn fanwl yn yr adroddiad. Yn ôl y canllawiau statudol "Brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd" mae gofyn darparu'r brecwast o fewn cyfnod byr cyn dechrau'r diwrnod ysgol. Fodd bynnag, fel y nodir yn yr adroddiad, mae'r ddarpariaeth bresennol yn darparu cyfnod sydd yn ehangach na'r hyn fyddai yn cyfarch y canllawiau ar gyfer darparu brecwast am ddim. Mae'r elfen yma yn ddarpariaeth ychwanegol sydd yn cynrychioli cyfnod o ofal ar gyfer disgyblion."

### 4.2 Barn yr Aelod Lleol

4.2.1 Dim yn fater lleol

### 4.3 Canlyniadau unrhyw ymgynghoriad

4.3.1 Gweler Atodiad 1

### 4.4 Dogfennau Cefndir


4.4.1 Canllawiau statudol "Brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd"


http://learning.gov.wales/docs/learningwales/publications/140627-free-breakfast-primary-guidance-cy.pdf


**1. Canlyniadau'r Ymgynghoriad**


1.1 Fe dderbyniwyd 1,358 ymateb i'r holiadur ar-lein a 30 o ymatebion papur.

1.2 O'r ymatebion roedd:







1.3 Sylwadau am y Clwb Brecwast presennol:

| **Themâu** | **Nifer sylwadau** |
|---|---|
| Hanfodol i fynd i weithio | 297 |
| Adnodd defnyddiol iawn / Gwych! | 78 |
| Plentyn yn mwynhau mynd i'r Clwb Brecwast | 60 |
| Angen newid oriau agor y clwb presennol i gychwyn ynghynt | 40 |
| Peidio newid y trefniadau presennol, gadael pethau fel ag y mae nhw | 29 |
| Dim clwb brecwast yn bodoli ar hyn o bryd | 17 |
| Angen mwy o ddewis o ran brecwast a / neu gweithgareddau | 9 |
| Nodi oriau agor y clwb presennol yn unig | 8 |
| Mynychu clwb brecwast arall | 7 |
| Plentyn yn bwyta brecwast yn y clwb, ni fyddai'n bwyta brecwast adref | 5 |
| Amser teulu, nid oes angen darpariaeth o'r fath | 5 |
| Arall | 108 |

1.4 Beth fyddai orau gennych chi ei weld yn digwydd?

| | | |
|---|---|---|
| Lleihau oriau y clwb brecwast presennol i gychwyn am 8.25yb | 314 | 23.1% |
| Peidio newid amser y clwb brecwast presennol ond codi ffi am yr elfen gofal rhwng 8.00yb a 8.25yb | 989 | 72.8% |


1.5 A fyddech chi'n defnyddio'r clwb brecwast petai'n cychwyn am 8.25yb?




1.6 Pe na fyddwch yn defnyddio'r clwb brecwast a fedrwch nodi paham

| **Themâu** | **Nifer sylwadau** |
|---|---|
| Byddai'r clwb yn cychwyn yn rhy hwyr | 350 |
| Byddwn yn gorfod newid swydd neu golli swydd | 8 |
| Arall | 66 |


1.7 Pe bai'r ysgol yn codi ffi am yr elfen gofal rhwng 8.00yb a 8.25yb, a fyddech chi'n defnyddio'r clwb gofal?




1.8 Pe na fyddwch yn defynddio'r clwb gofal a fedrwch nodi paham


| Themâu | Nifer sylwadau |
|---|---|
| Methu ei fforddio / gormod o gostau yn barod | 99 |
| Dim ei angen / gorfod gwneud trefniadau eraill | 59 |
| Byddai'n ddibynnol ar lefel y ffi | 18 |
| Gwrthod talu ac felly peidio ei ddefnyddio | 16 |
| Arall | 86 |

1.9 Pa fath o ffi dyddiol fyddech chi'n fodlon ei dalu fesul plentyn am y clwb gofal?




| Ffi arall | Nifer sylwadau |
|---|---|
| Am ddim | 98 |
| 10 c i 50c | 18 |
| 50c | 5 |
| 50c i £1 | 1 |
| 50c i 75c | 1 |
| Hyd at £1 | 1 |
| £1.50 | 2 |
| £2.00 | 14 |
| £2.50 | 5 |
| £10 | 1 |
| £3.00 | 8 |
| Unrhyw ffi | 12 |
| £1 yr wythnos | 1 |
| Hyd at £4.00 | 1 |
| £4.50 am yr awr | 1 |
| £5.00 | 1 |
| Cyflog gwarchodwr plant am awr | 2 |
| Cyn lleiad â phosib | 6 |
| Dim am ei ddefnyddio / methu fforddio / cyfraniad | 6 |

1.10 Ydych chi'n credu y dylai plant sy'n derbyn cinio am ddim gael mynediad i'r clwb gofal am ddim?




| Themâu | Nifer sylwadau |
|---|---|
| Nid yw rhieni plant sy'n derbyn cinio am ddim yn gweithio ac felly angen clwb gofal | 78 |
| Dylai pawb dalu | 55 |
| Clwb gofal yn hanfodol i fynd i weithio | 2 |
| Rhieni sy'n gweithio sy'n cael eu cosbi | 46 |
| Dim angen clwb o'r fath | 48 |
| Arall | 185 |

1.11 Ydych chi'n credu y dylai'r ysgol roi disgownt i fynychu'r clwb gofal i rieni gyda 3 neu ragor o blant?




1.12 Unrhyw sylwadau pellach

| **Themâu** | **Nifer sylwadau** |
|---|---|
| Defnyddio'r clwb fel galluogwr i fynd i weithio | 72 |
| Dylid torri mewn llefydd eraill a / neu teuluoedd sy'n gweithio sy'n cael eu cosbi! | 54 |
| Dim newid, gadael y trefniadau fel ag y mae nhw | 41 |
| Dylai pob teulu gael eu trin yr un fath | 19 |
| Dylid cynnig disgownt i deuluoedd rheini sengl a rhieni gyda 2 neu ragor o blant | 14 |
| Arall | 133 |

# ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB
# BRECWAST AM DDIM

**1) AWDUR (ON) YR ASESIAD**

Owen Owens a Bethan Griffith

**2) DYDDIAD DECHRAU'R ASESIAD**

01/09/15

**3) FERSIWN A/NEU DDYDDIAD GORFFEN YR ASESIAD**

12/09/17

**4) PWRPAS YR UNED A MANYLION Y CYNNIG**

Cyflwynwyd y Cynllun Brecwast am Ddim Ysgolion Cynradd ym Medi 2004 drwy grant penodol. Yn Ebrill 2013 trosglwyddwyd y cyllid i Grant Refeniw y Llywodraeth. Mae'n ofyn statudol i ddarparu brecwast am ddim os yw'r Awdurdod yn derbyn cais gan Lywodraethwyr ysgolion neu os oedd cynllun eisoes yn yr ysgol cyn Ebrill 2013.

Cydnabuwyd ers cryn amser mai brecwast yw pryd pwysicaf y dydd; ac mae ymchwil yn awgrymu bod plant sy'n cael cyfle i fwyta brecwast iachus a maethlon cyn dechrau'u diwrnod yn yr ysgol yn fwy tebygol o gyflawni eu potensial addysgol llawn (e.e. Association between breakfast consumption and educational outcomes in 9–11-year-old children, Hannah J Littlecott, Graham F Moore, Laurence Moore, Ronan A Lyons and Simon Murphy)

Yn ogystal â sicrhau bod ein plant ieuengaf yn cael dechreuad teg, un arall o brif amcanion darparu brecwast am ddim mewn ysgolion cynradd yw ceisio atal, mor gynnar yn oes y plentyn ag y bo modd, yr arferiad cynyddol o hepgor brecwast.

Mae Cynllun Brecwast am Ddim Gwynedd yn darparu brecwast am ddim i tua 2,500, neu 24% o blant mewn 75 o ysgolion cynradd y Sir (allan o 95 ysgol). Mae'r 2,500 yn cynnwys tua 300 o ddisgyblion sy'n gymwys am ginio am ddim yn bwyta'r brecwast am ddim. Maent yn derbyn tôst, grawnfwyd a llefrith a diod sudd ffrwyth fel rhan o'r cynllun ac yn medru mynychu'r ysgol o 8 o'r gloch y bore*.

Noda'r canllawiau cyfredol bod hawl gan y Llywodraethwyr i ddod â chynllun brecwast am ddim cyfredol ysgol i ben a sefydlu trefniant gwahanol. Mae gan y Cyngor fodd bynnag yr hawl i ddod â'r ddarpariaeth i ben ble mae'n barnu ei bod yn "afresymol" gwneud hynny.

Yn dilyn cyfnod ymgynghori gyda'r cyhoedd argymhellir peidio lleihau'r amser cyflogi staff, ond codi ffi ar rieni am yr elfen gwarchod cyn ysgol (h.y. am y gwarchod cyn 8:25yb*). Byddai angen trefniadau casglu'r ffi gan y rhieni, yn bennaf trwy dduliau talu ar-lein.

*amseroedd enghreifftiol yn unig

## 5) CYFRANOGIAD AC YMGYNGHORIAD

**Her Gwynedd**

Rhiant sengl wedi dweud:

I believe that specifically the cuts to school meals and breakfast clubs will have an effect on myself as a single parent I rely on many of these services and to cut them would mean we would need to find some other way of looking for the children.

Un o ddisgyblion Ysgol Botwnnog wedi dweud:

> "Brecwast i plant ysgol bach, pwysig i cael dechrau da i'r dydd."

**Arall**

Mae'r Cyngor wedi cynnal ymgynghoriad ar-lein ac ar ffurf papur hyd at 1af o Fedi ar ddwy opsiwn ac fe grynhoir prif ganlyniadau'r ymgynghoriad ym mhrif adroddiad y Cabinet.

## 6) TYSTIOLAETH SYDD AR GAEL

Cymeradwyodd Cabinet y Cyngor cyfwerth â £29,000 o arbediad yn y gyllideb Brecwast am Ddim trwy leihau ar y nifer o staff goruchwylio yn 2015/16.

Bydd cynnig o godi ffi yn fwy tebygol o effeithio mwy ar deuluoedd un rhiant, ac yn fwyfwy felly ar deuluoedd un rhiant ifanc. (Tarddiad: Households Below Average Income (HBAI), Department for Work and Pensions, United Kingdom (Safle we Joseph Rowntree Foundation) <http://www.jrf.org.uk/data/adult-poverty-rate-age-and-family-type>)

Bydd cynnig o godi ffi hefyd yn fwy tebygol o effeithio ar gartrefi sydd â pherson anabl ynddynt. (Tarddiad:'Review of the evidence on inequality in Wales, 2014' – "Data from the HBAI survey (2004-2008) indicates that 15.2% of households with a disabled person were in in-work poverty, relative to 12.4% for the rest of the population (WISERD, 2011)."

**7) PERTHNASEDD AC EFFAITH**

**7a)**

| **Dyletswyddau Cyffredinol y Ddeddf Cydraddoldeb** | **Perthnasedd** | **Yr effaith wirioneddol neu debygol** |
|---|---|---|
| **Cael gwared â chamwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth** | Nac ydi | |
| **Hyrwyddo cyfleoedd cyfartal** | Ydi | Byddai codi arian am yr elfen gwarchod yn effeithio ar bawb, ond yn effeithio yn arbennig ar deuluoedd tlawd |
| **Meithrin perthnasau da** | Nac ydi | |

**7b)**

| **Nodweddion** | **Perthnasedd** | **Yr effaith wirioneddol neu debygol** |
|---|---|---|
| **Hil** | Nac ydi | |
| **Anabledd** | Ydi | Mae cartrefi sydd â rhywun anabl ynddynt yn fwy tebygol o fod yn dlawd ac felly yn fwy tebygol o gael eu heffeithio. |
| **Rhyw** | Nac ydi | |
| **Ailbennu rhywedd** | Nac ydi | |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | Nac ydi | |
| **Crefydd neu gred** | Nac ydi | |
| **Yr iaith Gymraeg** | Nac ydi | |
| **Oedran** | Ydi | Bydd codi ffi yn fwy tebygol o effeithio mwy ar deuluoedd un rhiant, ac yn arbennig felly ar deuluoedd un rhiant ifanc (16-34 oed) – gweler y sylw yn rhan 5.<br><br>Dylid nodi hefyd fod plant sydd wedi cael brecwast yn fwy tebygol o gyrraedd eu potensial addysgol llawn ac yn gwella presenoldeb ac ymddygiad. Mae rhoi brecwast yn anelu i atal, mor gynnar yn oes y plentyn ag y bo modd, yr arferiad cynyddol o hepgor brecwast. |
| **Beichiogrwydd a mamolaeth** | Nac ydi | |
| **Priodas a phartneriaeth sifil** | Nac ydi | |

**8) MYND I'R AFAEL A'R EFFAITH**

| | |
|---|---|
| **a)** | **Nodwch unrhyw effaith posib o safbwynt cydraddoldeb**<br><br>Byddai codi arian am yr elfen gwarchod yn effeithio ar bawb, ond yn effeithio yn arbennig ar deuluoedd tlawd. Yn bennaf, bydd yn effeithio ar deuluoedd un rhiant ifanc a chartrefi sydd â rhywun anabl ynddynt. |
| **b)** | **Pa gamau gellir eu cymryd i leihau neu wella'r effeithiau yma?**<br><br>Gellir darparu'r elfen gwarchod plant am ddim i ddisgyblion sydd â hawl i ginio am ddim a / neu gynnig disgownt i deuluoedd gyda sawl plentyn oedran cynradd. |
| **c)** | **A oes angen ail-ystyried y cynllun?** |

# CYNGOR GWYNEDD

## ADRODDIAD I GYFARFOD CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 3 Hydref, 2017 |
| **Aelod Cabinet:** | Y Cynghorydd Gareth Thomas,<br>Aelod Cabinet Addysg |
| **Swyddog Cyswllt:** | Iwan T. Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | 01286 679685 |
| **Teitl yr Eitem:** | Adroddiad Perfformiad Addysg |

**1. CYFLWYNIAD**

1.1. Pwrpas yr adroddiad yma yw i'ch diweddaru ar beth sydd wedi'i gyflawni yn y maes rwy'n gyfrifol amdano fel Aelod Cabinet Addysg. Bydd hyn yn cynnwys amlinellu'r diweddaraf gyda'r addewidion yn y Cynllun Strategol, lle mae'r mesurau perfformiad arni, a'r diweddaraf o ran cynllun arbedion a thoriadau yn yr Adran.

1.2. Byddwn yn eich atgoffa fod yr holl faterion eisoes wedi bod yn destun trafodaeth ac wedi eu craffu mewn cyfarfodydd o'r timau rheoli oedd hefyd yn cynnwys cynrychiolaeth o'r pwyllgor craffu.

1.3. Ar y cyfan, rwy'n gyfforddus gyda'r perfformiad prosiectau Cynllun Strategol, gyda chynnydd da ar y rhan fwyaf ohonynt. Er hyn, rwyf yn ymwybodol bod rhai meysydd yn cael sylw arbennig gan yr Adran er mwyn gwella perfformiad, a dyma'r meysydd byddaf yn cadw llygad arnynt dros y misoedd nesaf:

-Codi safonau Cyfnod Sylfaen (hyd at 7 oed)
- Gwella safonau yng nghyfnod allweddol 4 (14-16 oed) mewn pynciau penodol
-Gwella ansawdd y ddarpariaeth a safonau cyflawniad yng nghyfnod allweddol 5 (ôl-16)



**Cyswllt:**
01286 679729 • 01286 679490
cabinet@gwynedd.llyw.cymru

## 2. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

2.1 Derbyn a nodi'r wybodaeth yn yr adroddiad.

## 3. RHESYMAU DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

3.1. Er mwyn sicrhau rheoli perfformiad effeithiol.

## 4. PROSIECTAU'R CYNLLUN STRATEGOL

### 4.1. P1 Gwella a Chysoni Safonau Addysg – Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 4

4.1.1 Pwrpas y prosiect yma yw gwella a chysoni safonau addysg ar draws Gwynedd er mwyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cyflawni'r safonau uchaf i feithrin y cymwysterau a'r sgiliau, gan ganolbwyntio ar y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 4.

4.1.2 Trwy'r Bwrdd Ansawdd Sirol, mae trefn wedi'i sefydlu ar gyfer monitro perfformiad ac ansawdd ar bob lefel yn ysgolion Gwynedd. Mae hyn yn caniatáu darlun cyflawn o berfformiad ac ansawdd yr ysgolion. Mae'n deg dweud bod y Bwrdd Ansawdd Sirol yn gynyddol profi ei werth, ac mae'r ffaith bod llai o ysgolion yn mynd i gategori statudol gan Estyn yn brawf o hynny. Mae'n fodd i ni gael darlun llawn o addysg plant a phobl ifanc Gwynedd.

4.1.3 Eleni, mae'r prosiect yma yn canolbwyntio ar wella a chysoni safonau addysg yng nghyfnod Sylfaen (hyd at 7 oed) a Chyfnod Allweddol 4 (14 - 16 oed). Er bod ffigyrau Cyfnod Sylfaen yn galonogol (86.8%) flwyddyn ddiwethaf, gofynnais i'r Adran ymchwilio i'r sefyllfa gan fod y ffigyrau yma wedi bod yn statig ers 2014.

4.1.4 Mae dadansoddiad cychwynnol swyddogion yn dangos mai un rheswm posibl sy'n egluro'r canlyniadau yw ein bod yn asesu drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig yn y Cyfnod Sylfaen yng Ngwynedd. Nid yw rhai disgyblion sy'n hwyrddyfodiad yn cyrraedd y safon ddisgwyliedig yn y Gymraeg erbyn diwedd y cyfnod allweddol, ac felly nid ydynt yn llwyddo i gyrraedd y dangosyddion. Bydd angen ymchwil manylach i gadarnhau unrhyw ganfyddiadau cychwynnol.

4.1.5 Mae'r maes ôl-16 hefyd yn rhywbeth rwyf am i'r adran edrych yn fanylach arno. Rwyf yn awyddus i gael dadansoddiad o ganlyniadau Cyfnod Allweddol 5 (ôl-16 oed) yn cynnwys canlyniadau Lefel A 2017 ar draws y Sir.

### 4.2. P2 Gwella Arweinyddiaeth a Rheolaeth

4.2.1 Pwrpas y prosiect yma yw gwella amodau arweinyddiaeth er mwyn codi safonau. Byddwn yn gweithredu ar gynigion fydd yn gwella arweinyddiaeth a rheolaeth, gyda'r bwriad o symud tuag at y nod bod penaethiaid ysgolion yn ddigyswllt, hynny yw, nad ydynt yn dysgu plant.

4.2.2 Mae gwaith o ymgynghori gydag ysgolion a llywodraethwyr ar egwyddorion 'Addysg i Bwrpas i Wynedd' wedi digwydd a byddaf yn cyflwyno'r dadansoddiad a'r camau nesaf i chi ym mis Hydref.

4.2.3 Er bod gwaith da yn cael ei wneud i ddatblygu arweinyddiaeth, teimlaf fod lle i wella a miniogi'r prosiect yma ymhellach. Rwyf felly wedi gofyn i'r Adran Addysg

ystyried rhaglen hyfforddiant gynhwysfawr sy'n mapio beth sy'n cael ei gynnig gan Lywodraeth Cymru, GwE a Chyngor Gwynedd fel bod continwwm hyfforddiant ar gael i'r arweinwyr presennol ac ar gyfer arweinwyr i'r dyfodol. Rwyf yn gobeithio gallu adrodd ymhellach ar hyn tro nesaf.

## 4.3. Rhaglen Rhwydwaith o Ysgolion Hyfyw i'r Dyfodol

### 4.3.1 P3 Prosiect Bangor

Pwrpas y prosiect hwn yw adolygu addysg gynradd ym Mangor er mwyn sicrhau darpariaeth gynaliadwy i'r dyfodol gan ymateb yn benodol i'r angen am gynnydd yn y galw am lefydd yn ardal Penrhosgarnedd.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau eu bod wedi neilltuo £6.3m i'w fuddsoddi yn narpariaeth addysg o fewn dalgylch Bangor.

Fel rhan o'r gwaith ymgysylltu cychwynnol, cynhaliwyd Cyfarfod Aelodau Lleol Bangor i drafod y broses a chamau nesaf yn ystod mis Mehefin. Sefydlwyd Panel Adolygu Dalgylch er mwyn trafod blaenoriaethau ac opsiynau ar gyfer y prosiect. Bydd y gwaith ymgysylltu â'r gymuned yn dod i ben mis Medi/Hydref ac mi fyddaf yn cyflwyno adroddiad i chi ar y sefyllfa ym mis Tachwedd, 2017.

Un mater sy'n mynd i gael ystyriaeth lawn yn ystod yr wythnosau nesaf yw ystyried os oes digon o leoedd yn yr ardal ac o fewn dalgylchoedd penodol.

### 4.3.2 P4 Dalgylch y Gader – Ysgol Bro Idris

Pwrpas y prosiect hwn yw sefydlu un Ysgol Ddilynol Ddalgylchol 3-16 oed yn nalgylch Ysgol y Gader, Dolgellau.

Rwy'n falch i ddweud bod y strwythur staffio bellach mewn lle a bydd pob safle Ysgol Bro Idris ar agor o fis Medi 2017. Teimlaf fod angen dathlu'r datblygiad yma gan ei fod yn rhywbeth cyffrous a phositif yn yr ardal.

Fodd bynnag, mae'n deg dweud bod gennym wersi i'w dysgu o ran datblygu ysgol ar y raddfa yma. Bydd hyn cael ei ystyried yn y broses o ddatblygu ysgolion newydd i'r dyfodol. Un peth rwyf am i ni gadw llygaid arno yw mesur llwyddiant yr ysgol newydd hon ac rwyf yn awyddus i dderbyn adborth ar hyn yn rheolaidd.

### 4.3.3 P5 Ysgol Glancegin

Pwrpas y prosiect hwn yw sicrhau buddsoddiad i ddarparu adeilad o'r newydd i Ysgol Glancegin sydd wedi ei lleoli ym Maesgeirchen, Bangor.

Mae'r gwaith adeiladu yn mynd rhagddo a bydd adeilad yr ysgol newydd yn barod erbyn dechrau tymor yr Hydref, 2017. Mae'r adran Eiddo yn cadarnhau trefniadau gyda'r Ysgol ar gyfer trosglwyddo o'r hen adeilad i'w adeilad newydd dros yr wythnosau nesaf.

Rydym bellach wedi clywed bod cais ar gyfer £60,000 o arian Dechrau'n Deg wedi ei gymeradwyo ar gyfer lleoli caban ychwanegol i blant oed meithrin er mwyn sicrhau addysg blynyddoedd cynnar ar y stad.

Mae'r newyddion yma i'w ddathlu, ond mae eto yn pwysleisio bod gennym wersi i'w dysgu wrth gynllunio ysgolion newydd a chael trafodaethau trawsadrannol i sicrhau bod briff ar gyfer datblygu ysgolion newydd yn gynhwysfawr.

4.3.4 **P6 Dalgych y Berwyn**

Pwrpas y prosiect yma yw creu Campws Dysgu 3-19 cyfrwng Cymraeg ar safle presennol Ysgol y Berwyn.

Yn unol â phenderfyniad y Cabinet ym mis Mehefin, mae'r Cyngor yn cynnal rhag-ymgynghoriad hefo'r Eglwys yng Nghymru dros y misoedd nesaf, cyn cynnig a chadarnhau'r ffordd ymlaen o ran y model amgen. Bydd y broses o sefydlu'r corff llywodraethol cysgodol a'r gwaith arferol o sefydlu'r ysgol newydd yn cychwyn yn dilyn cwblhau'r broses o ymgynghori'n statudol ar y cynnig amgen.

Pwysleisir bod y gwaith adeiladu'n gwneud cynnydd yn unol â'r amserlen wreiddiol ac nad yw'r datblygiadau diweddaraf yn effeithio ar yr amserlen adeiladu.

4.4 **P7 Trawsnewid y Ddarpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad**

Pwrpas y prosiect yw trawsnewid y gwasanaeth ar gyfer plant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Yn unol â'r penderfyniad, bydd Strategaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiad yn cael ei weithredu'n llawn o Fedi 2017, a hynny ar y cyd ag Ynys Môn.

Mae'r cynllun busnes diweddaraf yn amlygu arbedion o £422,000 ar gyfer Medi 2017 o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. Mae'r prif arbedion yn deillio o leihad mewn niferoedd o athrawon gwybyddiaeth a dysgu, yn ogystal â rhannu costau rheolaethol y gwasanaeth gydag Ynys Môn.

Bydd gweddill yr arbedion yn dod yn sgil lleihau'r swm sydd yn cael ei ddatganoli i ysgolion. Mae'r adran yn y broses o gomisiynu gwaith ar fodelu dulliau gwahanol o ddatganoli cyllid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY). Bydd y gwaith yma wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Medi, 2017. Bydd y gwaith o ymgynghori ar unrhyw newid yn y fformiwla'n cychwyn hefo ysgolion yn gynnar wedi hyn.

Fe ddaeth y Cyd Bwyllgor ADY i ben ddiwedd mis Awst. Mae trefniant Llywodraethiant newydd wedi'i gytuno ac yn rhan o'r Cytundeb Ffurfiol bydd y ddau awdurdod yn symud ymlaen i weithredu fel Gwasanaeth Newydd.

## 5. MESUR PERFFORMIAD

### 5.1. Mesurau Perfformiad Addysg

5.1.1 Atodaf y proffil arolygiadau yn Atodiad 1. Fel y gwelwch, mae'r proffil yn dda gyda phob ysgol a dderbyniodd arolygiad yn ystod gwanwyn 2017 yn derbyn 'da' neu 'rhagorol'. Mae gweithredu effeithiol wedi digwydd gyda phob ysgol oedd mewn categori dilyniant ac fel canlyniad mae pob un wedi gweld gwelliannau disgwyliadwy oddi fewn i'r amserlen a osodwyd. Fodd bynnag, mae un ysgol wedi'i ei rhoi mewn categori statudol yn ddiweddar iawn yn dilyn

arolygiad Estyn. Bydd yr Awdurdod a GwE yn gweithio'n agos gyda'r ysgol hon i ymateb i'r sefyllfa a byddaf yn eich diweddaru yn rheolaidd ar ddatblygiadau.

5.1.2 Fel rydych yn ymwybodol, mae canlyniadau TGAU a Lefel A wedi eu cyhoeddi ym mis Awst. Rwyf yn bwriadu rhoi manylion llawn i chi pan fyddaf yn adrodd tro nesaf er mwyn sicrhau bod dadansoddiad manwl wedi ei wneud o'r ffigyrau ar lefel Gwynedd a lefel cenedlaethol.

5.1.3 I roi ciplun i chi o'r sefyllfa mae canlyniadau TGAU yn dda ar y cyfan eleni, ac mae'r ganran sydd wedi llwyddo i ennill graddau *A-G yn 98.5%, sy'n sylweddol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol o 96.9% ac yn gynnydd ers llynedd (97.3%). Mae hyn yn adlewyrchu'r pwyslais a roddir yn ysgolion Gwynedd ar gynhwysiad, cyfle cyfartal a llwyddiant disgyblion fel unigolion.

5.1.4 Mae'r ganran o ddisgyblion sy'n ennill pum gradd TGAU A*-C, yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg, a Mathemateg yn 58.3% yng Ngwynedd eleni. Er bod y ffigwr yma yn is na llynedd (65.9%), mae Gwynedd yn parhau i fod yn y safle 1af yn rhanbarth y Gogledd, ac yn 5ed ar lefel genedlaethol, sef oddeutu'r safle disgwyliedig.

5.1.5 Mae'r canlyniadau yma yn adlewyrchu'r cwymp yn genedlaethol. Mae'r newidiadau i'r drefn arholi a'r fanyleb ar gyfer pynciau megis Mathemateg a Saesneg, wedi effeithio'n sylweddol ar ganlyniadau TGAU eleni i Gymru, yn enwedig yn achos graddau A*-C. Bydd GwE, ar y cyd gyda'r Awdurdod, yn gwneud dadansoddiad manylach o'r prif faterion yn y mis nesaf, a byddaf yn adrodd ymhellach i chi wedi hynny.

5.1.6 Er hyn, mae'r ganran o ddisgyblion sydd â'r hawl i gael prydau ysgol am ddim sy'n ennill pum gradd TGAU A*-C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg, a Mathemateg yn 45.4%, o'i gymharu â 26.2% ar lefel rhanbarth y Gogledd. Mae hyn eto yn adlewyrchu'r pwyslais sy'n cael ei roi ar sicrhau bod pob person ifanc yn llwyddo yn y Sir.

5.1.7 Mae'r sefyllfa gyda chanlyniadau Lefel A hefyd yn galonogol eleni. Mae'r ganran enillodd raddau A*-E ar draws yr holl bynciau (97.3%) yn gynnydd o'i gymharu gyda 2016 (96.2%). Yn ogystal, gwelwyd cynnydd sefydlog yn y ganran enillodd graddau A neu well (25.5%) un uwch na'r ffigwr ar gyfer Cymru (25.0%), ac mae'n galonogol bod y ganran A*-E yn 100% ar draws y mwyafrif o'r pynciau ac mae hyn yn adlewyrchu'r cyngor a'r cyfarwyddwyd a ddarperir i'n pobl ifanc.

5.1.8 Pwysleisiaf yr angen i drin yr ystadegau uchod gyda gofal am y tro, ond byddaf yn cadarnhau'r sefyllfa yn derfynol yn fy adroddiad nesaf i chi, gan fanylu ar y tueddiadau. Gan nad yw'r manylion am yr holl ganlyniadau'r cyfnodau allweddol ar gael tan fis Hydref, nid wyf yn cyflwyno rhestr o'r mesurau'r adran fel atodiad.

5.1.9 Yn ogystal, erbyn tro nesaf, rwyf wedi gofyn i'r adran gynnwys ffigyrau cyrhaeddiad addysgol Plant mewn Gofal. Mae'r mesurau yma yn rhai pwysig i'w hadrodd a'i mesur os am sicrhau bod yr egwyddor bod pob plentyn a pherson ifanc yn derbyn yr un cyfleoedd, ac yn derbyn yr un safon o addysg dda.

## 6. SEFYLLFA ARBEDION/ARIANNOL

6.1 Ar y cyfan, nid wyf yn rhagweld problem mewn gwireddu cynlluniau arbedion ar gyfer 2017/18 wedi i'r Cabinet gytuno ar 28 Mawrth 2017 i ail broffilio £41,700 o'r cynllun Clwb Brecwast i Blant Ysgolion Cynradd i 2018/19, ac rwyf yn fodlon bod camau yn bodoli i sicrhau bod y cynllun yn cael ei wireddu.

6.2 Mae targed o £4.3m ar gyfer Arbedion Effeithlonrwydd Ysgolion (2015/16 - 2018/19). Yn wreiddiol, roedd £990,000 o hwn wedi'i gynllunio i'w weithredu yn 2017/18, ynghyd â £263,000 pellach i'w weithredu yn 2018/19. Penderfynodd y Cabinet yn ei gyfarfod ar 14 Chwefror 2017 i ohirio gweithredu £298,990 o arbediad effeithlonrwydd Ysgolion Uwchradd 2017/18 am ddwy flynedd. Y sefyllfa ddiweddaraf felly yw y disgwylir arbedion effeithlonrwydd o £263,000 yn 2018/19 ac £298,990 yn 2019/20 er mwyn cwblhau gweithrediad llawn targed 'Arbedion Effeithlonrwydd Ysgolion £4.3m.'

6.3 Cyflwynodd yr Aelod Cabinet Cyllid yr adroddiad 'Cyllideb Refeniw 2017/18 - Adnabod Risgiau Cynnar' i'r Cabinet yng Ngorffennaf 2017, gan nodi fod adolygiad cynnar o gyllideb Addysg yn arwain at ragolygon gorwariant o £358k erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Byddaf yn cydweithio gyda'r Pennaeth Adran i gymryd camau priodol i geisio sicrhau fod yr Adran yn gweithredu o fewn ei darpariaeth gyllidol erbyn diwedd y flwyddyn.

---

## Barn y swyddogion statudol

### Y Swyddog Monitro:

" Dim sylwadau o ran priodoldeb."

### Y Pennaeth Cyllid:

"Rwyf yn cadarnhau cywirdeb agweddau ariannol yr adroddiad. Mae'n galonogol fod yr Aelod Cabinet yn hyderus (yn rhan 6.1 o'r adroddiad) y bydd gwasanaethau'r Adran yn gwireddu'r mwyafrif llethol o'r cynlluniau arbedion yn amserol, ac fod yr Aelod Cabinet yn cymryd camau priodol i geisio sicrhau fod yr Adran yn gweithredu o fewn ei darpariaeth gyllidol erbyn diwedd y flwyddyn yn sgil y rhybudd cynnar o orwario."

**Atodiadau:**

**Atodiad 1** Data Arolygiadau Ysgolion

**ATODIAD 1**

## DATA AROLYGIADAU YSGOLION GWYNEDD ERS IONAWR 2015

| Ysgol | Sector | Dyddiad Arolygiad | Cwestiwn Allweddol 1 | Cwestiwn Allweddol 2 | Cwestiwn Allweddol 3 | Perfformiad Presennol | Rhagolygon Gwella | Dilyniant>Sefyllfa gyfredol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Coedmawr | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Monitro Estyn>allan o gategori |
| Dolgellau | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Digonol | Digonol | Anfoddhaol | Digonol | Anfoddhaol | Mesurau Arbennig>allan o gategori |
| Bro Plenydd | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod> |
| Tanygrisiau | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Ffridd y Llyn | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Traeth | Cynradd | Gwanwyn 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod> allan o gategori |
| Llanaelhaearn | Cynradd | Haf 2015 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Monitro Estyn>allan o gategori |
| Llanrug | Cynradd | Haf 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod> allan o gategori |
| Llanelltyd | Cynradd | Haf 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod> allan o gategori |
| Beddgelert | Cynradd | Haf 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod>Allan o gategori |
| Hirael | Cynradd | Haf 2015 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Monitro Estyn>allan o gategori |
| Morfa Nefyn | Cynradd | Hydref 2015 | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Monitro Awdurdod>allan o gategori |
| Foelgron | Cynradd | Hydref 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Garndolbenmaen | Cynradd | Hydref 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Pont y Gof | Cynradd | Hydref 2015 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Cymerau | Cynradd | Gwanwyn 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod>allan o gategori |
| Nefyn | Cynradd | Gwanwyn 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Manod | Cynradd | Gwanwyn 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Llanllechid | Cynradd | Gwanwyn 2016 | Da | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol | Dim dilyniant |
| Craig y Deryn | Cynradd | Gwanwyn 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Monitro Awdurdod>allan o gategori |
| Waunfawr | Cynradd | Haf 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Bro Cynfal | Cynradd | Haf 2016 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Monitro Estyn > |
| Cae Top | Cynradd | Haf 2016 | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Rhagorol | Dim dilyniant |
| Bodfeurig | Cynradd | Hydref 2016 | Da | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol | Dim dilyniant |
| Llanbedr | Cynradd | Hydref 2016 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Monitro Estyn> |
| Maenofferen | Cynradd | Hydref 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Rhiwlas | Cynradd | Hydref 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Borth-y-Gest | Cynradd | Hydref 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Penybryn, Tywyn | Cynradd | Hydref 2016 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Talysarn | Cynradd | Gwanwyn 2017 | Da | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol | Dim dilynaint |
| Bro Hedd Wyn | Cynradd | Gwanwyn 2017 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Bontnewydd | Cynradd | Gwanwyn 2017 | Da | Da | Rhagorol | Da | Rhagorol | Dim dilyniant |
| Eifion Wyn | Cynradd | Gwanwyn 2017 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Llanllyfni | Cynradd | Gwanwyn 2017 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |

**ATODIAD 1**

| Ysgol | Sector | Dyddiad Arolygiad | Cwestiwn Allweddol 1 | Cwestiwn Allweddol 2 | Cwestiwn Allweddol 3 | Perfformiad Presennol | Rhagolygon Gwella | Dilyniant>Sefyllfa gyfredol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Bro Tegid | Cynradd | Haf 2017 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| Felinwnda | Cynradd | Haf 2017 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |
| | | | | | | | | |
| Dyffryn Nantlle | Uwchradd | Gwanwyn 2015 | Anfoddhaol | Digonol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Anfoddhaol | Mesurau Arbennig>allan o gategori |
| Gader | Uwchradd | Gwanwyn 2015 | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Digonol | Gwelliant Sylweddol> allan o gategori |
| Syr Hugh Owen | Uwchradd | Gwanwyn 2016 | Digonol | Da | Da | Digonol | Da | Monitro Estyn>allan o gategori |
| Glan y Mor | Uwchradd | Gwanwyn 2017 | Da | Da | Da | Da | Da | Dim dilyniant |

EITEM 11 – CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol gan ei fod yn debygol y datgelir gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinir ym mharagraffau 11, Rhan 4, Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Gofynnir i gadw'r eitem yn eithriedig o dan yr adran isod:
14.10.2 Gwybodaeth Eithriedig – Disgresiwn i Wahardd y Cyhoedd
(a) Ceir gwahardd y cyhoedd o gyfarfodydd pryd bynnag y bo'n debygol, oherwydd natur y busnes sydd i'w drafod, neu natur y trafodion, y byddai gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei ddatgelu.

Mae'r adroddiad yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â manylion cytundeb a threfniadau gwerthiant nad yw'n hysbys ar hyn o bryd. Mae'r wybodaeth yn cael ei ystyried yn eithriedig yn unol â chategori 14, gan ei fod yn wybodaeth sy'n ymwneud â materion ariannol neu fusnes unigolyn penodol.

EITEM 12 – TIR YN LLANRUG